



Cronfa  
Treftadaeth

Heritage  
Fund

Cronfa Treftadaeth y  
Loteri Genedlaethol

Adroddiad a Chyfrifon  
Blynyddol 2021–22



# Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021–2022 Dosbarthiad Loteri  
Genedlaethol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol  
Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022

Wedi'i gyflwyno i Senedd y DU yn unol ag Adran 34 (3) Deddf y Loteri  
Genedlaethol etc, 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol  
2006), a chyflwynir y cyfrifon i Senedd y DU yn unol ag adran 35 (5) Deddf  
y Loteri Genedlaethol etc. 1993

I'w argraffu ar 19 Gorffennaf 2022 yn unol â gorchymyn Tŷ'r Cyffredin  
Wedi'i roi gerbron Senedd yr Alban gan Weinidog Yr Alban  
ar 19 Gorffennaf 2022

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon ar 19 Gorffennaf 2022  
Wedi'i roi gerbron Senedd Cymru ar 28 Medi 2022

HC 420  
SG/2022/119



© **Hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2022**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:  
[nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/official-documents](http://www.gov.uk/official-documents).

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom:

Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol  
Mezzanine Floor  
International House  
1 St Katharine's Way  
Llundain E1W 1UN

ISBN 978-1-5286-3523-3  
E02763878                      07/22

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Wedi'i argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

## Gwella a hyrwyddo treftadaeth i bawb.

Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ariannwr grant penodedig mwyaf treftadaeth y DU. Wedi'n cysylltu'n lleol a gydag arbenigedd cenedlaethol, rydym yn wneuthurwr newid sy'n gweithio i wella a hyrwyddo gwerth treftadaeth i bawb.

Mae deall, gwerthfawrogi a rhannu ein treftadaeth yn dod â phobl at ei gilydd, yn ysbrydoli balchder mewn cymunedau ac yn rhoi hwb i fuddsoddiad mewn economïau lleol.

- Fel Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, rydym yn dosbarthu grantiau'r Loteri Genedlaethol rhwng £3,000 a £5miliwn a mwy, gan ariannu prosiectau sy'n cynnal a thrawsnewid treftadaeth y DU.
- Rydym yn darparu arweinyddiaeth a chefnogaeth ar draws y sector treftadaeth, ac yn eirioli dros werth treftadaeth.

Gallwch ddarganfod mwy yn [www.heritagefund.org.uk/cy](http://www.heritagefund.org.uk/cy)

### Ein heffaith:



**£8.3bn**

buddsoddiad mewn treftadaeth ers 1994



**48,000**

o brosiectau treftadaeth wedi'u cefnogi ers 1994

# Cynnwys

<b>Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu</b>	<b>3</b>
Adroddiad perfformiad	4
Adroddiad atebolrwydd	18
<b>Y datganiadau ariannol</b>	<b>45</b>
Datganiad o incwm cynhwysfawr net	46
Datganiad o newidiadau mewn ecwiti	47
Datganiad o sefyllfa ariannol	48
Datganiad o lifoedd arian parod	49
Cysoniad y llif arian parod net â'r symudiad mewn cyllid net	49
Nodiadau i'r cyfrifon	50
<b>Cyfarwyddiadau polisi</b>	<b>67</b>
Lloegr	78
Yr Alban	79
Cymru	80
<b>Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn</b>	<b>81</b>

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Adroddiad perfformiad

### Trosolwg

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am brif amcanion a strategaethau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (Dosbarthiad Loteri), a elwir fel arall yn Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'r adran drosolwg yn rhoi gwybodaeth i'r defnyddiwr am ddibenion a gweithgareddau'r sefydliad, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut y mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Yn yr adran dadansoddiad mae'r Bwrdd yn adrodd ar ei fesurau perfformiad pwysicaf, gan gynnwys dadansoddiadau sy'n defnyddio gwybodaeth ariannol o'r datganiadau ariannol.

### Ein perfformiad yn 2020–21: datganiad gan y Prif Weithredwr

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa) wedi chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu a hyrwyddo treftadaeth ym mhob rhan o'r DU mewn blwyddyn ymdrechgar a heriol arall.

Mae ein cefnogaeth dros dreftadaeth y DU yn 2021–22 wedi bod yn hanfodol i helpu sefydliadau drwy gyfnodau estynedig o ansicrwydd a bod ar gau. Trwy weithio gyda phartneriaid i fuddsoddi yn adferiad y sector, rydym wedi medru helpu llawer i ailadeiladu ac ailagor. Mae effaith y pandemig wedi dangos pa mor bwysig yw treftadaeth ar gyfer ein hymdeimlad o le, lles a chysylltiad, ac mae'r diben a rennir hwn wedi cynnal staff wrth ddarparu perfformiad cryf – diolchaf i bob aelod o staff am eu cyfraniad personol a'u hymrwymiad. Rwyf hefyd eisieu diolch i'r gwarcheidwaid treftadaeth, o'r lleiaf i'r mwyaf, ac i'r rheini yr ydym wedi gweithio mewn partneriaeth â hwy eleni, gan gynnwys y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Big Society Capital, Cadw, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA),

Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, Asiantaeth yr Amgylchedd, Esmee Fairbairn, y Comisiwn Coedwigaeth, Historic England, Historic Environment Scotland, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Natural England, NESTA, Llywodraeth Cymru a'n holl bartneriaid ymchwil, ymgyrchu, partneriaid polisi ac arfer.

Ar ôl i ni ddargyfeirio arian tuag at gefnogaeth frys yn 2020–21, roedd yn garreg filltir bwysig i ail-agor ein Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ym mis Chwefror 2021. Roeddem am i'r buddsoddiad newydd hwn gael effaith go iawn a chadarnhaol ar adferiad a chydnerthedd ein sector treftadaeth gwych a chreu cyfraniadau gwirioneddol at leoedd a chymunedau lleol.

I sbarduno'r adferiad hwn, yn 2021–22, bu i ni dargedu ein cyllid at brosiectau treftadaeth a fyddai'n:

- rhoi hwb i economïau lleol, creu swyddi ac annog datblygu sgiliau
- cefnogi iechyd a llesiant lleol
- cryfhau cydnerthedd sefydliadau ym maes treftadaeth
- sicrhau bod modd i leoedd a chymunedau lleol ffynnu

Gwnaethom hefyd gyfeirio ein cefnogaeth tuag at ymgyrchoedd a gweithgareddau newydd a pharhaus, gan gynnwys:

- y fenter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth £3.5 miliwn, gan weithio mewn partneriaeth â DCMS i fagu hyder a sgiliau digidol yn y sector. Ers 2020, rydym wedi cefnogi 65 o brosiectau a darparu 7,510 o gyfleoedd i gefnogi sgiliau digidol unigol.
- y bartneriaeth Future Parks Accelerator gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i sicrhau dyfodol parciau trefol a manau gwyrdd y DU. Mae'r fenter Future Parks yn buddsoddi mwy na £6 miliwn o arian gan y Loteri Genedlaethol a llywodraeth y DU, ynghyd â gwerth £5 miliwn o gyngor a chefnogaeth gan arbenigwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- gweithio gyda sefydliadau ac arbenigwyr i ddarparu rhaglenni hyfforddiant cymorth busnes a datblygu menter ar draws y sector.



- yr ymgyrch Casgliadau Dynamig, sy'n cefnogi sefydliadau casglu ledled y DU i fod yn fwy cynhwysol a chydnerth. Mae'r ymgyrch, a lansiwyd ym mis Chwefror 2022, yn cynrychioli ffordd newydd o weithio i'r Gronfa ac yn ffocysu cefnogaeth ar sefydliadau sy'n gweithio gyda chasgliadau. Bwriad hyn yw rhoi mwy o gyfarwyddyd i ymgeiswyr ac annog prosiectau cryfach sy'n cynorthwyo adferiad ac yn ymdrin â heriau tymor hir yn y sector. Rydym yn gweithio ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Lloegr, Amgueddfeydd ac Oriellau Yr Alban a phartneriaid eraill ar draws y DU.

Er gwaethaf yr heriau a'r ansicrwydd uniongyrchol, rydym hefyd wedi parhau i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod yr haf y llynedd, dyfarnodd y Bwrdd £50miliwn yn rownd gyntaf ein Grantiau Treftadaeth Gorwelion – ein rhaglen am grantiau o dros £5miliwn, 'Cefnogi Syniadau Mawr; Datgloi Posibiliadau'. Roedd yn wirioneddol galonogol gweld nad oedd heriau'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi pylu uchelgais a chreadigrwydd y rhai sy'n gofalu am ein treftadaeth werthfawr. Bydd y prosiectau mawr hyn yn cyflwyno trawsnewidiadau treftadaeth arloesol sy'n seiliedig ar le, gan greu buddion ar gyfer pobl a threftadaeth ledled y DU:

- Plymouth Sound National Marine Park: creu 'Parc yn y Môr' Plymouth Sound, gan helpu cymunedau a thaclo effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Great Yarmouth Winter Gardens: adfer y Winter Gardens rhestredig Gradd II\* gan ddod â bywyd newydd i galon y dref.
- Peatland Progress – gweledigaeth newydd ar gyfer y Ffeniau: taclo newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth drwy ddod â 'haneri' gogleddol a deheuol y Ffen Fawr at ei gilydd.
- Yr Amgueddfa Gaethwasiaeth Ryngwladol yn Lerpwl: gan drawsnewid casgliad o orielau yn amgueddfa amlwg, y cyntaf o'i fath yn y DU.
- Cairngorms 2030 yn Yr Alban: a hynny'n cynnwys dros 45 o bartneriaid ymroddedig yn cydweithio i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, gan ddod â chymunedau ynghyd i helpu natur a gwella lles.

Mae ein cefnogaeth yn parhau i effeithio ar ddigwyddiadau allweddol gan gynnwys yn Coventry, lle mae ein cyfraniad o £3miliwn at Ddinas Diwylliant

y DU wedi cefnogi ei rhaglen Dyfodol Gwyrdd uchelgeisiol. Bydd hyn yn helpu i greu gwaddol parhaus i'r ardal a chysylltu pobl, diwylliant a natur yn llwyddiannus. Yn Birmingham, mae ein cefnogaeth gyfunol gwerth £6miliwn gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr wedi cefnogi'r rhaglen ddiwylliannol yn y cyfnod cyn Gemau'r Gymanwlad 2022, fel y bydd y rhai sy'n ymweld ac yn cymryd rhan yn gweld y dreftadaeth anhygoel yn ogystal â mwynhau'r digwyddiadau chwaraeon. Bydd ein buddsoddiad o £5miliwn yn Nextdoor Nature ym mis Mawrth 2022, mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn cefnogi tua 200 o brosiectau bywyd gwyllt a arweinir gan y gymuned fel etifeddiaeth o Jiwbil Platinwm y Frenhines.

Mae graddfa, ystod ac amrywiaeth y buddsoddiad hwn yn profi'r gwerth enfawr a ddaw yn sgil arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth.

Y llynedd fe wnaethom osod y blaenoriaethau canlynol ac rydym wedi gweithio i gyflwyno'r rhain drwy'r flwyddyn:

### 1. Cyflwyno ein rhaglenni Loteri Genedlaethol a chymorth grant

Parhaodd ein cyllid ar gyfer prosiectau Loteri Genedlaethol, gan gynnig grantiau o £3,000 i £10,000, £10,000 i £250,000 a £250,000 i £5miliwn. Gwnaethom ein grantiau cyntaf o fwy na £5miliwn o dan y Grantiau Treftadaeth Gorwelion gyda'r bwriad o gefnogi prosiectau eithriadol i gyflwyno trawsnewid, cydweithredu ac arloesi ar raddfa eang, ar safleoedd ar draws y DU.

Rhoddodd ein staff, ein cynghorwyr a'n staff monitro arweiniad a chymorth, a lle'r oedd perygl y byddai prosiectau'n methu oherwydd y pandemig COVID-19, wynebu pwysau o ran costau ac oedi, bu i ni roi cefnogaeth ariannol trwy symiau grant ychwanegol gwerth dros £25miliwn.

Parhawyd i gyflawni ein hymgyrch Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth uchel ei pharch, sy'n cyfarparu sefydliadau o bob maint i gyflymu eu gafael ar gyfleoedd newydd a gynigir drwy weithio'n ddigidol. Darparwyd rhagor o gefnogaeth sefydliadol trwy raglenni cefnogi busnesau a datblygu menter a barhaodd i gyflwyno'n llwyddiannus ym mhob rhan o'r DU, gyda chynlluniau i ymestyn am flwyddyn arall trwy 2022. Gwnaethom ddatblygu ffocws strategol ar rôl treftadaeth mewn lleoedd, gan gyflwyno fframweithiau lleoedd newydd i wella'n cefnogaeth i gymunedau mewn cydweithrediad ag asiantaethau diwylliannol blaenllaw eraill.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## 2. Gweithredu gwasanaeth rheoli buddsoddiadau newydd

Bu i ni barhau i ddatblygu gwasanaeth rheoli buddsoddiadau modern, mwy hyblyg sy'n cynnig proses ymgeisio llyfnach, haws a fydd yn galluogi ein staff i weithio'n fwy effeithlon. Mae pob cais newydd yn cael ei reoli trwy'r system bellach. Fe wnaethom ddatblygu ein warws data a gwella ein galluoedd adrodd data ymhellach.

## 3. Rhanddeiliaid a phartneriaid allanol

Gwnaethom gryfhau a dyfnhau ein gwaith gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol eraill. Trwy Fforwm y Loteri Genedlaethol, bu i ni weithio ar y cyd â dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol i gryfhau ein heffaith sy'n ffocysu ar le, er mwyn gwella data ac adrodd ar fuddsoddiad y Loteri Genedlaethol a dangos cydeffaith y Loteri Genedlaethol ar fywyd y DU.

## 4. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad

Rydym wedi ffocysu ar ddatblygu ein hymagwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad (EDI) a chwblhau adolygiad, a fydd yn sail i'n gwaith. Rydym wedi ffurfio Tasglu EDI, dan gadeiryddiaeth Maria Adebowale-Schwarte ac wedi'i gefnogi gan banel o saith arbenigwr arall. Mae'r Tasglu'n cwrdd yn chwarterol i'n cefnogi i ddatblygu ymagwedd EDI ar ei newydd wedd at ein prosesau rhoi grantiau, llywodraethu a phobl. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cefnogaeth, eu harweiniad a'u her barhaus ar sbarduno gwell gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad o fewn y sefydliad ac ar draws y sector treftadaeth.

Fe wnaethom ddilyn i fyny ar yr Adolygiad EDI gyda chynllun gweithredu ar gyfer ein diwylliant, ein gweithlu, ein buddsoddiadau a'n llywodraethu. Bu i ni gwblhau ymchwil i brofiad grwpiau heb eu gwasanaethu'n ddigonol sy'n gwneud cais i ni, a'r rhai nad ydynt yn ymgeiswyr, er mwyn cyfeirio datblygiad ein polisi cynhwysiad a newidiadau i'n hymagwedd sydd i'w cyflwyno yn 2022. Sefydlon ni rwydweithiau staff sy'n ymwneud â hil, rhyw, anabledd, niwroamrywioldeb a chroestoriadedd, i ddarparu man diogel i'n pobl gael sgysiau gonest ynghylch profiadau gwaith/bywyd. Rydym wedi gweithio gyda Chymrodoriaeth Windsor, Change 100 a 2027 i greu cyfleoedd i bobl ifanc sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol gan dreftadaeth wneud lleoliadau gwaith â thâl am rhwng tri a 12 mis.

## 5. Datblygu ac ymwreiddio newid diwylliant

Bu i ni gwblhau gwaith ar ein diwylliant a'n gwerthoedd ar draws y Gronfa Treftadaeth gan

ymgorffori fframwaith ymddygiadol newydd i waith a busnes bob dydd. Gwnaethom gyflwyno fframweithiau recriwtio a rheoli perfformiad newydd a pharhau i fuddsoddi yng ngwaith diwylliannol y Gronfa Treftadaeth ar werthoedd ac ymddygiadau. Bydd ein fframweithiau recriwtio a pherfformiad yn sicrhau bod ein gwerthoedd a'n hymddygiad yn rhan annatod o wireddu ein hamcanion.

Rydym hefyd wedi parhau i ddatblygu ein cydnerthedd a chynladwyedd sefydliadol ein hunain ac wedi ymrwymo i gyrraedd allyriadau carbon sero net ar gyfer ein gweithrediadau erbyn 2030. Bydd cyflwyno o ran yr uchelgeisiau hyn yn parhau yn 2022–23 a thu hwnt.

Bu i ni adnewyddu a chryfhau ein brand, gan ddarparu asedau creadigol er mwyn i'n partneriaid a'n grantion gydnabod ein buddsoddiad. Bu i ni gydweithio hefyd gyda Camelot, gweithredwr y Loteri Genedlaethol, i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd arian gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da ar draws y DU, trwy fentrau fel Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol.

Roedd hyn oll yn bosib dim ond o ganlyniad i waith caled penigamp fy holl gydweithwyr yn y Gronfa Treftadaeth, a barhaodd i weithio gydag angerdd a phwrpas mewn blwyddyn ansicr. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'm rhagflaenydd, Ros Kerlake, a ymddeolodd ym mis Rhagfyr 2021 ac a oruchwyliodd lawer o'r gwaith yn 2021–22 – mae hi'n gadael etifeddiaeth i fod yn falch ohoni. Diolchaf iddi am ei harweiniad a'i chefnogaeth a diolchaf ymhellach i fy nghydweithwyr, aelodau'r pwyllgorau, y gofrestr o ymgynghorwyr gwasanaethau cymorth, a'r Bwrdd sydd wedi bod yn sail i'n gwaith i gyd eleni.

## Ein diben a gweithgareddau

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) wedi'i breinio mewn a'i gweinyddu gan gorff corfforedig sydd wedi'i adwaen fel Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys Cadeirydd ac uchafswm o 14 o aelodau eraill sydd wedi'u penodi gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd NHMF ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 (Deddf 1980) yn olynol i'r Gronfa Tir Cenedlaethol fel coffâd i'r rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y Deyrnas Unedig (DU). Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan lywodraeth y DU i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (Deddf

1993), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 (Deddf 1997) a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998 (Deddf 1998).

O dan Ddeddf 1993, daeth CGDG yn gyfrifol hefyd am ddsbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a ddyrannir i dreftadaeth. Mae'n rhaid i CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer eu gweithrediad fel dosbarthwyr arian y Loteri Genedlaethol. Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer cyllid a dderbynnir o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adran 21(1) Deddf 1993, cynhelir cronfa a adwaenir fel Cronfa Ddsbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Telir yr holl symiau a dderbynnir gan drwyddedai'r Loteri Genedlaethol o dan adran 5(6) i Ysgrifennydd Gwladol DCMS a'u rhoi yn CDLG. Mae CGDG yn ymgeisio i CDLG am gyllid i gwrdd â'i rhwymedigaethau dros daliadau grant a threuliau gweinyddu'r Loteri Genedlaethol.

O dan adran 22 Deddf 1993, bydd Ysgrifennydd Gwladol DCMS yn dyrannu 20% o'r swm a delir i CDLG ar gyfer gwariant ar, neu'n gysylltiedig â'r dreftadaeth genedlaethol. Mae adran 23(3) yn sefydlu Ymddiriedolwyr CGDG fel dosbarthwyr y gyfran honno. Gostyngwyd y dyraniad canrannol i 16 $\frac{2}{3}$ % ym mis Hydref 1997 ar ôl i'r llywodraeth greu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Fe ddychwelodd i 20% o 1 Ebrill 2012, ar ôl bod ar 18% trwy gydol 2011–12.

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar ffurf a bennwyd gan Ysgrifennydd Gwladol DCMS gyda chydysyniad Trysorlys EM yn unol ag Adran 35(3) Deddf 1993.

O dan adrannau 3 a 3a Deddf 1980, gall CGDG wneud grantiau a benthyciadau at ddiben caffael, cynnal neu ddiogelu:

1. unrhyw dir, adeilad neu adeiledd sydd, ym marn yr ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol
2. unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol

3. unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sef casgliad neu grŵp sydd, yn ei gyfanrwydd, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy

Mae Adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd wedi hynny) yn ymestyn pwerau'r ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a ddylunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, gall yr ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau a anelir at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Rhoddodd Deddf 1998 y pŵer i ymddiriedolwyr wneud grantiau refeniw i ehangu mynediad i dreftadaeth ac i ddirprwyo penderfyniadau ar grantiau Loteri Genedlaethol i staff a hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn ymddiriedolwyr.

Gan ddefnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bydd newidiadau cadarnhaol a pharhaus yn cael eu creu ar gyfer pobl a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol. Mae gennym hanes cryf iawn yn barod o wneud grantiau dros dreftadaeth, gyda thros 27 mlynedd o brofiad o ddsbarthu arian y Loteri Genedlaethol, a thimau arbenigol a leolir ar draws y DU. Trwy ein rhaglenni a phartneriaethau ariannu uchelgeisiol byddwn yn:

- parhau i ddod â threftadaeth i gyflwr gwell
- ysbrydoli pobl i werthfawrogi treftadaeth yn fwy
- sicrhau bod treftadaeth yn gynhwysol
- cefnogi'r sefydliadau a ariannwn i fod yn fwy cydnerth, mentrus a blaengar
- dangos sut mae treftadaeth yn helpu pobl a lleoedd i ffynnu
- tyfu'r cyfraniad y mae treftadaeth yn ei wneud at economi'r DU

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn parhau'n un o ffynonellau ariannu treftadaeth pwysicaf y DU.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Ein materion a'n risgiau allweddol

Mae ein gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi wynebu nifer o risgiau sylweddol trwy gydol y flwyddyn ac rydym wedi rheoli'r rhain yn weithredol ac yn effeithiol i isafu'r effaith ar ein hymgeiswyr, grantion a rhanddeiliaid eraill yn ogystal ag ar y Gronfa.

Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried y risgiau a wynebier gan y sefydliad mewn cyfarfodydd Bwrdd a thrwy'r craffu manwl a ddarperir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, bu i ni addasu ein dull o adrodd am risg i'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg a staff uwch fel ei fod yn fwy rheolaidd a hyblyg. Darparwyd asesiad risg lefel uchaf, gyda naratif, statws a data am dueddiadau drwy gydol y flwyddyn. Parhaodd yr ymagwedd hon tan Hydref 2021, gan ddychwelyd wedi hynny i weithdrefnau adrodd am reoli risg a chofrestrau risg arferol. Disgrifir y manylion yn y datganiad llywodraethu ar dudalen 21.

Roedd ein prif risgiau y llynedd yn ymwneud â'r pandemig COVID-19 a pharhaodd y rhain, ar wahanol ffurfiau, drwy gydol y flwyddyn gyfan.

Grwpwyd risgiau yn ymwneud â'r argyfwng rhwng risgiau allanol a mewnol, gan gydnabod ar yr un pryd nad yw'r ddau grŵp hyn yn arwahanol a'u bod yn gorgyffwrdd.

### 1. Risgiau allanol seiliedig ar argyfwng

Ein prif risg oedd sicrhau bod cyllid y Loteri yn parhau er mwyn i ni gynnal ein portffolio buddsoddi ac ariannu ceisiadau newydd. Bu i ni barhau i weithio gyda'n hadran noddi, DCMS, gweithredwr y Loteri Genedlaethol (Camelot) a holl ddosbarthwyr y Loteri ar draws y DU, i hyrwyddo pwysigrwydd a gwerth dychweliadau i achosion da yn y cyfnod hollbwysig hwn, fel y nodwyd yn yr Adroddiad Perfformiad cynharach. Bu i ni barhau hefyd â'n hymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu ein hunain i atgyfnerthu hyn. Mae'r ymagwedd hon wedi parhau i weithio'n dda, ac mae incwm y Loteri Genedlaethol unwaith eto wedi rhagori ar y rhagamcaniadau.

Yn ystod 2020–21, fe wnaethom y penderfyniad anodd i atal ein rhaglenni agored wrth i ni ymateb i'r pandemig mewn ffyrdd eraill. Yn 2021–22, fe wnaethom ail-agor y rhaglenni hyn yn llawn ac mae'r rhain wedi rhedeg yn llwyddiannus drwy gydol y flwyddyn.

Bu i ni barhau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n safle hylifedd ac argaeledd arian parod yn effeithiol er mwyn cefnogi ein buddsoddiad. Yn 2020–21, bu i ni ddatblygu model llif arian i fonitro materion arian parod yn wythnosol gan gynnwys mewnlif, all-lif ac effeithiau ar ymrwymadau. Bu hyn yn amhrisiadwy wrth gefnogi ein hopsiynau ariannu ac mae wedi gostwng risg y sefyllfa hon yn sylweddol. Parhawyd i ddefnyddio'r model hwn yn 2021–22 ac rydym yn rhagweld y gallwn ddod â'r modelu hwn i ben ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae'r model hwn a dangosyddion perfformiad ariannol allweddol eraill wedi ein helpu i reoli buddsoddiad a hylifedd o fewn y flwyddyn yn ogystal â chaniatáu i ni ddechrau cynllunio y tu hwnt i'r pandemig i flynyddoedd y dyfodol.

Ein prif risg allanol arall oedd cydnerthedd a chapasiti o fewn y sector yn erbyn gofynion parhaus y pandemig. Er i ni gydnabod yn 2020–21 nad oedd yn bosib yn realistig i ni ymdrin â phob risg, ym mhob rhan o'r sector, ar draws pob sefydliad, er hynny rydym wedi rhoi pecyn cyffredinol ar waith i helpu ymdrin â rhai o'r risgiau hyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- ail-agor rhaglenni gydag ymyriadau wedi'u targedu
- gwneud adrodd a cheisiadau am daliadau i grantion yn haws
- cefnogaeth gan ein timau buddsoddi ac ymgysylltu yn lleol ar draws y DU
- sicrhau taliadau grant a thaliadau grant ychwanegol prydlon ar gyfer grantion
- ail-gyfeirio adnoddau penodol o'n Cofrestr Gwasanaethau Cymorth i dargedu cefnogaeth a help i brosiectau

### 2. Risgiau mewnol seiliedig ar argyfwng

Ein prif risg yma oedd parhau â'n cynlluniau parhad busnes a'r angen i ofyn i'r holl staff weithio o bell o'u cartrefi ac mewn amgylchedd rhithwir.

Golygodd ein defnydd o dechnoleg symudol, atebion a chymwysiaid sy'n seiliedig ar gwmwl y bu ein holl wasanaethau ar gael i bob ymgeisydd a granti. Dechreuom ail-agor ein swyddfeydd yn haf 2021 ac mae'r rheiny wedi aros ar agor drwy gydol y flwyddyn. Dechreuodd staff ddychwelyd i weithleoedd yn ddiweddarach yn y flwyddyn o dan drefniadau gweithio hybrid.

Gweithredwyd trefniadau o dan ein cynllunio parhad busnes ar gyfer ein Tîm Rheoli Argyfwng, Tîm Parhad Busnes a meysydd gwaith fel parhad TG, cyfathrebu a chymeradwyaeth i gyd yn llawn a heb unrhyw broblemau. Darparwyd offer sgrin arddangos neu anghenion gwaith penodol i staff yr oedd angen offer arbenigol ac addasiadau arnynt ar gyfer gweithio gartref.

Fe wnaethom ddod â'n holl weithgarwch parhad busnes i ben yn ffurfiol tua diwedd y flwyddyn.

Ein prif risg fewnol arall, a gydnabuwyd yn gynnar yn yr argyfwng, oedd rôl hanfodol cefnogi ein staff mewn perthynas â'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u lles. Fe wnaethom roi cyfres o negeseuon iechyd/diogelu cyhoeddus effeithiol ar waith ochr yn ochr â chyfathrebiadau clir, agored i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bob tîm ar ddatblygiadau o ran cynllunio parhad busnes. Addaswyd a diwygiwyd y rhain yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu negeseuon iechyd cyhoeddus gwahanol ar draws y DU. Trwy gydol y flwyddyn, gwnaethom barhau i ddarparu cyfres o becynnau cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles cydweithwyr.

Bu i ni gydnabod hefyd fod y pandemig wedi creu risgiau newydd a gwahanol o ran twyll a chamgymeriad, felly rhoddwyd mesurau diogelu, gwiriadau a mesurau rheoli cynhwysfawr ar waith i isafu'r risgiau hyn. Rydym yn parhau i fonitro a rheoli'r rhain yn agos iawn.

### 3. Prif risgiau eraill

Ar wahân i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig, bu i ni gydnabod risgiau eraill yn y flwyddyn hefyd.

Gallai ail-osod trwydded y Loteri Genedlaethol greu mathau posib o risg ar ein cyfer o ran incwm, newidiadau gweithredu etc. Rydym wedi cydweithio'n agos drwy Fforwm Dosbarthwyr y Loteri i sicrhau bod DCMS a'r Comisiwn Hapchwarae yn cael gweld y risgiau hyn ac yn deall eu heffeithiau posib ar ein buddsoddiad. Mae'r gwaith ar baratoi ar gyfer tendro'r drwydded gyda'r Comisiwn Hapchwarae wedi bod yn enghraifft o gydweithio cryf ochr yn ochr â dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol. Byddwn yn parhau i weithio gyda DCMS, y Comisiwn Hapchwarae ac eraill i sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r drwydded nesaf.

Trwy gydol y flwyddyn bu i ni fonitro effeithiau ar y sector ac arnom ni ein hunain o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd mewn costau

buddsoddiadau presennol, aflonyddwch yn y gadwyn gyflenwi a phrinder deunydd crai (fel pren), a bu i ni roi trefniadau cyllidebol ar wahân ar waith i helpu i ymdrin â'r pwysau hyn. Gwnaethom reoli ein risgiau mewnol yn effeithiol (staffio, data, cadwyni cyflenwi etc.) ac ni welwyd unrhyw effaith andwyol uniongyrchol yn sgil yr ymadawiad.

Bu i ni barhau i ymateb i'r risg sy'n deillio o'r argyfwng hinsawdd hefyd Rydym wedi sicrhau bod ein hól troed carbon, arferion mewnol a'n rheolaeth yn adlewyrchu rheolaeth well o'r risg hon ac wedi comisiynu ymchwil benodol i nodi cynllun er mwyn i'r Gronfa gyrraedd Sero Net Carbon yn ei gweithrediadau erbyn 2030.

Yn 2021–22 bu i ni barhau i ddatblygu ein system rheoli buddsoddi newydd a chynllunio dad-gomisiynu ein systemau rheoli grantiau etifeddol presennol. Rydym wedi rheoli risg datblygu'r system newydd yn weithredol trwy brofi'n gynhwysfawr gyda chwsmeriaid a defnyddwyr mewnol, rheoli cyflenwyr a datblygwyr yn unol â hynny ac wedi cynnal mesurau rheoli cyfanrwydd, diogeledd a chadernid data'n effeithiol. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r sefydliad a bydd yn parhau i fod yn ystod y flwyddyn nesaf 2022–23.

Byddwn yn parhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol drwy gydol y flwyddyn i bob risg a sicrhau ein bod yn rheoli'r risgiau hynny ar bob lefel ar draws y Gronfa.

### Ein strategaeth gorfforaethol

Mae'r strategaeth gorfforaethol yn disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer rôl y Gronfa dros y tair blynedd o 2018 tan 2021. Cymerodd y strategaeth gamau pellach tuag at sefyllfa gryfach, gan gefnogi a chydweithio â sefydliadau ar draws y sector treftadaeth, a chan adeiladu ar ein rôl fel y ffynhonnell gyllid benodedig fwyaf i dreftadaeth ar draws y DU.

Yn 2021–22, parhawyd i chwarae rhan gref wrth gefnogi sefydliadau i wrthsefyll risgiau'r pandemig COVID-19, gan gyflwyno cyfanswm o £101 miliwn mewn cyllid ychwanegol a ddyfarnwyd drwy gymorth grant gan DCMS, DEFRA a llywodraethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon. Bu i ni lansio'r Gronfa Asedau Diwylliannol hefyd, gyda chyfraniad o £20 miliwn gan DCMS a thuag £20 miliwn o waddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i sicrhau'r asedau treftadaeth sylweddol sydd mewn perygl yn y dyfodol o ganlyniad i'r pandemig.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

O ran cyllid nad yw'n ymwneud â grantiau, mae ein buddsoddiadau blaenorol mewn dwy gronfa effaith, y Gronfa Effaith Treftadaeth (gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaerniol) a'r Gronfa Effaith Celfyddydau a Diwylliant (gyda Nesta ac eraill), yn parhau i gael eu cyflwyno fel rhan o'n strategaeth i ddenu buddsoddiad ychwanegol i'r sector ac annog sefydliadau sy'n gweithio ym maes treftadaeth i arallgyfeirio eu ffrydiau incwm. Yn 2021, gwnaethom gwblhau gweithredu ein rhaglen benthyciadau peilot Cydnerthedd ac Adferiad, gan gynnig opsiwn cyllid ad-daladwy hyblyg ar gyfer sefydliadau sy'n ceisio ail-bennu eu gweithrediadau busnes ar gyfer adfer o effeithiau'r pandemig.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym wedi bod yn gweithio gyda Sefydliad Young fel ein partner Arloesi i ddylunio a modelu Cronfa Arloesi a fydd yn canolbwyntio ar heriau ym mhob rhan o'r gweithlu treftadaeth, a byddwn yn lansio hyn yn 2022–23. Rydym yn rhagweld parhau i ddarparu arian ar ran Llywodraethau yn ystod 2022–23 i gefnogi adferiad y sector ehangach a lle mae ein harbenigedd a'n cyrhaeddiad o ran creu grantiau'n golygu ein bod mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflawni ystod eang o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer treftadaeth a chymunedau.

Yn ystod 2022–23, byddwn yn datblygu Strategaeth newydd ar gyfer y Gronfa, gan ymateb i heriau COVID-19, newidiadau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, ac integreiddio amcanion ein Fframwaith Ariannu Strategol mewn gweledigaeth 10 mlynedd newydd ar gyfer treftadaeth y DU. Bydd y strategaeth ar ei newydd wedd yn cael ei lansio'n ddiweddarach yn 2022.

## Ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024

Eleni oedd y drydedd flwyddyn o weithredu ein Fframwaith Ariannu Strategol ar gyfer ein holl grantiau Loteri Genedlaethol rhwng 2019–2024, a phwynt canol ein strategaeth bresennol. Roedd y Fframwaith Ariannu Strategol yn nodi'r weledigaeth a'r egwyddorion sy'n cyfeirio ein cyllid ar gyfer oes y fframwaith, gan gynnwys rhaglen agored sengl symlach gyda thair lefel o gyllid; y mwyafrif o benderfyniadau gwneud grantiau wedi'u datganoli i Gymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r tair ardal yn Lloegr; a mwy o ffocws ar natur a thirweddau, treftadaeth gymunedol a threftadaeth sydd mewn perygl.

Ym mis Chwefror 2021, bu i ni ail-agor ein cyllid prosiect yn llawn ar gyfer grantiau hyd at £5miliwn, gan adlewyrchu anghenion ehangach treftadaeth

y DU sy'n dod i'r amlwg yn sgil y pandemig. Wrth i gymdeithas barhau i ail-agor ac ymaddasu i'r hinsawdd ôl-bandemig, rydym wedi canolbwyntio ein cyllid a'n harbenigedd i gefnogi sefydliadau treftadaeth i addasu i amgylchiadau sydd wedi newid yn sylfaenol. Rydym wedi cefnogi eu gwaith o archwilio eu modelau busnes presennol a datblygu dulliau newydd, creadigol a mwy cydnerth o weithredu.

Wrth i sefydliadau treftadaeth barhau i addasu o effaith y pandemig ac wrth i'r rhagolygon barhau'n ansicr, byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraethau, rhanddeiliaid ac asiantaethau treftadaeth eraill i gefnogi anghenion treftadaeth y DU i gynnal yr adferiad.

## Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon blynyddol ar sail busnes gweithredol, yn unol â gofynion safonau cyfrifyddu rhyngwladol. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm dros gredu bod gan lywodraeth y DU unrhyw gynlluniau i newid canran arian achosion da'r Loteri Genedlaethol y mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (NHMF) yn ei dderbyn nac i newid dosbarthwyr yr arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gymeradwyo ein rôl dosbarthu'r Loteri Genedlaethol a'r gwerth y mae hynny'n ei greu ar gyfer ein hagenda polisi mewn meysydd fel Ffyniant Bro, Lle etc.

Mae effeithiau'r pandemig COVID-19 yn parhau i gael eu teimlo, fodd bynnag, nid oes gan Ymddiriedolwyr unrhyw reswm dros gredu na fydd prif ffynhonnell incwm – y Loteri Genedlaethol – yn parhau i gynhyrchu symiau rhesymol i'r Gronfa. Gostyngodd lefelau i ddechrau pan weithredwyd y cyfnod clo cyntaf, ond mae symiau bellach wedi dychwelyd i lefelau arferol, yn wir yn 2021–22 roedd incwm yn rhagori ar y rhagamcaniadau ac yn iach iawn. Mae rhagamcaniadau incwm annibynnol ar gyfer y tymor agos hefyd yn parhau'n uchel ac yn sefydlog. Bu i ni barhau ar agor am fusnes yn ystod y cyfnod clo, gan ddarparu gwasanaeth llawn i'r sector treftadaeth. Gan hynny, nid oes gan y Bwrdd unrhyw reswm dros gredu na fydd y Gronfa'n parhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

## Dadansoddiad o berfformiad

Mae CGDG yn gweithredu dwy gronfa: ei chronfa cymorth grant wreiddiol (CGDG) a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (Cronfa Treftadaeth

y Loteri Genedlaethol). Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, mae'n ofynnol iddi gyfrif am y gweithgareddau hyn ar wahân ac felly ni pharatoir cyfrifon cyfunol. Mae'r adroddiad hwn yn trafod gwaith dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn unig. Diben yr adran hon yw trafod perfformiad CGDG wrth ddsbarthu arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol yn 2021–22. Mae'r dadansoddiad isod yn trafod uchafbwyntiau'r flwyddyn gan gynnwys symudiad arwyddocaol ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr Net a'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn ogystal â rhai dangosyddion perfformiad allweddol.

Roedd 2021–22 yn flwyddyn eithriadol o lwyddiannus o ran enillion ar gyfer achosion da a chyrhaeddodd ein hincwm £362miliwn. Roedd hyn £37miliwn yn fwy na'r rhagamcanion ar gyfer y flwyddyn. Rydym yn parhau i ddefnyddio rhagamcaniadau Loteri a ddarperir gan y Comisiwn Hapchwarae ar gyfer blynyddoedd i ddod. Rydym yn aros am gamau nesaf dyfarnu pedwaredd trwydded y Loteri Genedlaethol.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, ni fu ein taliadau grant a'n taliadau gweinyddol yn y flwyddyn yn fwy na swm incwm ein Loteri. Y canlyniad terfynol yw bod ein balansau arian parod cyffredinol (arian parod yn y banc ynghyd ag arian parod yng Nghronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol – CDLG) wedi codi £104miliwn i £437miliwn. Mae hyn gwerth tua blwyddyn a hanner o daliadau grant.

Byddwn yn parhau i fonitro patrymau incwm a thaliadau grant i sicrhau y gallwn gefnogi ein rhwymedigaethau yn y tymor canolig i hir wrth i ni geisio cysoni symiau wrth gefn, incwm a thaliadau allan. Mae'r siart isod sy'n rhoi manylion ein balans yn CDLG yn dangos maint y dirywiad yn y cyllid a oedd ar gael dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae tystiolaeth o duedd sy'n gwella. Mae rhagamcaniadau llif arian parod yn dangos y dylai ein polisi diweddar, o bennu cyllidebau dyfarniadau grant ychydig yn is na'r incwm a ragamcanir, olygu y bydd ein balansau arian parod yn dychwelyd i lefel fwy iach yn y tymor canolig. Rydym yn parhau i fonitro effaith yr argyfwng COVID-19 ar incwm, taliadau a balansau arian parod yn agos.

Cododd yr incwm buddsoddi a enillwyd gan CDLG £300,000 i £512,000. Yr enillion ar fuddsoddiadau yn CDLG oedd 0.2% o'i gymharu â 0.1% yn 2020–21. Mae enillion yn parhau ar lefelau hanesyddol isel.

Elw gilt isel parhaus yw'r rheswm dros yr enillion incwm buddsoddi isel, gan fod CDLG yn buddsoddi

mewn ystod gul o fuddsoddiadau risg isel ac elw isel. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw ddylanwad ar y polisi buddsoddi, sy'n cael ei bennu gan DCMS. Derbyniwn 20% o'r enillion buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG), waeth beth fo balans ein cronfeydd.

Gostyngodd lefel y rhwymedigaethau grant newydd a grëwyd ychydig o £176miliwn i £163miliwn. Gellid priodoli'r gostyngiad i adferiad y sector o'r pandemig ac felly llai o alw am gyllid.

Fe wnaethom drosi llawer o'n rhwymedigaethau amodol (a elwir yn basys rownd un) a grëwyd mewn blynyddoedd blaenorol i dyfarniadau llawn. Roedd hyn oddeutu £61miliwn.

Gwnaethom gyfraniadau Loteri Genedlaethol at brosiectau oedd hefyd yn cael eu hariannu trwy ein cronfeydd cymorth grant. Bu i rai dyfarniadau o dan y rhaglenni Capital Kick Start, Llywodraeth Cymru a digidol elwa o arian y Loteri hefyd.

Er nad oedd o'n dewis, mae'r lefel llai gorfodol o ddyfarniadau wedi arwain at welliant yn ein cyllid tymor hir ac rydym mewn sefyllfa i gynyddu ein cyllidebau dyfarnu grant yn y dyfodol. Cefnogir y farn hon gan lefel y pasys rownd un a wnaed yn y flwyddyn, bydd lefel debygol y dyfarniadau a gaiff eu gwneud yn 2022–23 yn cynyddu gan fod mwy o basys rownd un ar hyn o bryd i drosi i ddyfarniadau llawn o'i gymharu â'r llynedd. Cyfanswm y pasys rownd un ar 31 Mawrth 2022 oedd £201miliwn, cynnydd o £85miliwn o'i gymharu â'r £116miliwn o 2020–21.

Cynyddodd lefel y dad-ymrwymiaadau a wnaed yn y flwyddyn ychydig o £7miliwn i £9miliwn. Fe wnaethom dargedu llawer o'n dyfarniadau i gefnogi grantion a phrosiectau presennol a bydd hyn wedi helpu i gadw lefel y dad-ymrwymiaadau i lawr. Efallai y bydd baich y pandemig yn amlwg o hyd yn y blynyddoedd i ddod, ond rydym yn parhau'n ymrwymedig i helpu'r prosiectau treftadaeth rydym wedi'u cefnogi dros y blynyddoedd.

Gostyngodd y balans rhwymedigaethau grant yn sylweddol o £696miliwn i £616miliwn. Yn syml, roedd hyn oherwydd bod gwerth y dyfarniadau newydd net yn llawer is na gwerth y taliadau grant. Parhaodd gwerth darpariaethau am i ni beidio â thalu allan yr holl rwymedigaethau hyn yn gyson, sy'n golygu bod y cwmp cyffredinol mewn rhwymedigaethau yr adroddir amdanynt o ganlyniad yn llwyr i'r rheswm a nodir uchod.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Rydym yn creu darpariaethau sy'n gostwng gwerth rhwymedigaethau grant sy'n weddill o dan ddau amgylchiad:

1. Pan fyddwn yn gwybod na fydd y granti yn gofyn am eu grant cyfan neu ran ohono mwyach.
2. Lle bu cyfnod hir o ddiffyg gweithgarwch ar ran y grantion, gall hynny nodi bod y prosiect wedi dod i ben. Wrth gwrs nid yw hyn yn grefft manwl gywir, ond mae'n ymgais i sicrhau bod y rhwymedigaeth grant a adroddir yn agosach at y swm tebygol y byddwn yn ei dalu yn y pen draw.

Bu gostyngiad o tua 26% yn lefel y taliadau grant – o £315miliwn i £234miliwn – er iddi barhau'n gyson fel canran o'r balans rhwymedigaethau agoriadol. Roeddem yn falch o fedru parhau i wneud taliadau grant er gwaethaf yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig. Ni effeithiwyd ar gyflymder gwneud taliadau.

Gan gymryd yr holl rwymedigaethau gwirioneddol ac amodol i ystyriaeth, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roeddem wedi ymrwymo dros £390miliwn, ar ôl darpariaethau, (ar 31 Mawrth 2021: £480miliwn) yn fwy nag oedd gennym yn CDLG. Mae'r lefel rhwymedigaethau a rhwymedigaethau amodol hon yn golygu bod gennym ymrwymadau sydd cyfwerth â 2.3 blynedd o incwm (ar 31 Mawrth 2021: 2.2 mlynedd). Er gwaethaf yr incwm uchel a'r lefel gymharol isel o ddyfarniadau, roedd ein balans rhwymedigaethau contract yn uwch o lawer na'n hasedau net ac roedd diffyg net ar y datganiad o sefyllfa ariannol o £165miliwn ar 31 Mawrth 2022.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod bod monitro llifoedd arian parod tymor hir yn bwysig iawn gan fod y prosiectau rydym yn rhoi grantiau iddynt fel arfer yn cymryd blynyddoedd lawer i'w cwblhau. Nid oes unrhyw warant ynglŷn â'n cyllid gan DCMS na sicrwydd ynglŷn â maint y cyllid y bydd y Loteri Genedlaethol yn ei gynhyrchu ar ein cyfer. Gan hynny, mae'r ymddiriedolwyr wedi dyfeisio cymarebau

arweiniad ynglŷn â lefelau'r ymrwymadau sy'n weddill, arian parod ac incwm disgwylidig. Oherwydd y gwmp nad oedd modd ei rhagweld mewn incwm yn 2016–17, rhoddwyd blaenoriaeth i'r cymarebau hyn yn ein cynllunio; sefydlogodd y cwmp mewn incwm yn y blynyddoedd dilynol ac mae wedi gwrthdroi'n rhannol dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r cymarebau'n parhau'n destun adolygiad rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol i'n ffordd o weithio a'r hinsawdd allanol (gweler y tabl cymarebau isod). Mae'r rhan fwyaf o gymarebau yn nodi sefyllfa y teimlwn yn gyfforddus â hi. Mae cyfeiriad teithio ein balansau arian parod yn rhoi rheswm dros fod yn obeithiol i ni. Cynyddodd ein costau gweithredu yn sylweddol – cynnydd o 17% – yn ystod y flwyddyn wrth i ni newid ein hymdrechion yn ôl i ddsbarthu gweithgarwch y Loteri Genedlaethol. Bu'n flwyddyn anodd ar gyfer gosod cyllidebau gweinyddol a gwneud rhagamcaniadau gan fod sefydlu rhaglenni ariannu brys yn gyfan gwbl y tu hwnt i'n rheolaeth. Roedd ein henw da o fod yn rhoddwr grantiau effeithiol ac effeithlon yn golygu ein bod wedi denu arian gan lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a Gogledd Iwerddon.


Yn 2020–21, fe wnaethom atal ein rhaglenni agored arferol am y rhan fwyaf o'r flwyddyn er mwyn canolbwyntio ar ymyriadau ariannu covid cyn ail-agor yn llawn yn 2021–22. Bu i hyn olygu na phroseswyd blwyddyn arferol o alw gan arwain at ostyngiad mewn rhwymedigaethau cyffredinol ac, er gwaethaf y galw trwm am arian parod, cynnydd yn ein daliadau arian parod cyffredinol yng Nghronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Y llynedd gwelwyd galw'n dechrau adfer i lefelau disgwylidig yn erbyn y gyllideb ac rydym yn rhagweld y bydd hynny'n parhau ac yn wir yn cynyddu yn 2022–23 a 2023–24, gan ddychwelyd ein cymarebau allweddol i lefelau arferol.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, trosglwyddwyd staff sydd fel arfer yn gweithio'n gyfan gwbl ar


Cymhareb	Amrediad targed	ar 31 Mawrth 2022	ar 31 Mawrth 2021	ar 31 Mawrth 2020
Cyfanswm ymrwymadau i incwm	Uchafswm yn yr amrediad 4.4:1 i 4.6:1	<b>2.3:1</b>	2.2:1	3.0:1
Ymrwymadau net i incwm (h.y. cyfanswm ymrwymadau llai arian parod)	Uchafswm yn yr amrediad 3.0:1 i 3.2:1	<b>1.1:1</b>	1.3:1	2.1:1
Ymrwymadau caled i arian parod	Uchafswm yn yr amrediad 2.3:1 i 2.5:1	<b>1.4:1</b>	2.1:1	2.7:1
Arian parod yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	Yn yr amrediad £400 –£500miliwn	<b>£427miliwn</b>	£329miliwn	£309miliwn




**Balans cyllid yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fesul blwyddyn (£miliwn)**




**Gwerth taliadau grant fesul blwyddyn (£miliwn)**



**Prosiectau sy'n cael eu monitro fesul blwyddyn (nifer)**



**Costau gweithredu gwirioneddol vs costau chwyddedig 2003–04 fesul blwyddyn (£miliwn)**



■ Costau – costau chwyddedig 2003–04  
■ Costau – gwirioneddol

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

weithgareddau'r Loteri Genedlaethol i weithio ar y gwahanol raglenni cymorth grant ar yr un pryd â pharhau i gynnal eu portffolio o brosiectau Loteri gweithredol. O ganlyniad, roedd ein staff yn gweithio ar weithgarwch Loteri a gweithgarwch nad oedd yn gysylltiedig â'r Loteri a bu'n rhaid i ni sefydlu system i gofnodi'r amser hwn, cyfrifo ffigwr gorbenion cysylltiedig ac ail-godi'r costau ar y rhaglenni cymorth grant.

Ar adegau penodol o lwyth gwaith uchel roedd yn rhaid i ni ddod â chontractwyr allanol i mewn i gynorthwyo gyda phrosesu ceisiadau.

Cododd costau o flwyddyn i flwyddyn (wrth i ni ddychwelyd i waith sy'n canolbwyntio'n fwy ar y Loteri) ond maent yn parhau'n is na'r ffigyrau chwyddedig ar gyfer 2003–04.

Roedd nifer y prosiectau sy'n cael eu monitro (prosiectau heb eu cwblhau sydd wedi derbyn dyfarniadau) wedi codi'n sylweddol hyd at 2019. Fodd bynnag, mae'r nifer wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf wrth i'n cyllideb dyfarniadau grant ostwng. Roedd nifer y prosiectau byw ar 31 Mawrth 2022 ychydig yn is na 2,000, ond bydd y ffigwr hwn yn codi yn y blynyddoedd nesaf wrth i'n cyllidebau grant godi.

Yn ogystal ag ail-godi costau i'n gweithgareddau cymorth grant yn ystod y flwyddyn, fe elwodd ein costau gweithredu hefyd o gyfraniad gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol tuag at y gost o redeg y rhaglen Parks for People, y mae hefyd yn cyfrannu rhywfaint o gyllid grant tuag ato, gyda'i gyfraniad yn gostwng ychydig o £201,000 i £161,000. Mae hon bellach yn rhaglen gaeedig sydd â 45 o brosiectau byw yn cael eu monitro ar hyn o bryd. Bydd y cyfraniad yn dirywio dros y blynyddoedd nesaf ac rydym yn rhagweld y caiff y grant terfynol ei dalu yn 2025–26.

## Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol enw da fel dosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol effeithlon drwy Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'r bariau glas tywyll ar y siart uchod yn nodi ein costau gweithredu ym mhob un o'r blynyddoedd diwethaf. Mae'r bariau glas golau yn dangos gwerth y costau gweithredu yn ein blwyddyn waelodlin o 2003–04 – y flwyddyn lawn gyntaf i ni weithredu o ystod lawn o swyddfeydd wedi'u gwasgaru o amgylch gwledydd a rhanbarthau'r DU – mae'r swm yn cael ei gynyddu yn unol â datchwyddydd cynnyrch domestig gros (GDP)

Trysorlys EM, amcangyfrif o lefel gyffredinol chwyddiant yn economi'r DU. Mae'r cwmp mawr yn ein costau gweithredu dros y blynyddoedd diwethaf ynghyd â pherfformiad gwael yr economi yn ystod y pandemig wedi arwain at welliant enfawr ac artiffisial yn ein rhifau. Rydym wedi gweld cynnydd bach iawn yn 2021–22 ac yn rhagweld y bydd lefel y gost yn parhau i godi.

Fel y crybwyllwyd eisoes, roedd newid gweithgarwch, yn 2020–21, o fod bron yn gyfan gwbl yn ddsbarthwr cyllid sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol i ddsbarthu lefelau arwyddocaol o gymorth grant yn golygu bod lefelau cost ddsbarthu'r Loteri wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn arbennig o wir o'i gymharu â 2019–20 pan chwyddwyd ein costau gan gost ad-drefnu mewnol dan nawdd ein strategaeth gorfforaethol. Mae'r tabl isod yn dangos canran ein costau yn erbyn incwm y Loteri ac yn datgelu cwmp sylweddol am y rhesymau a roddwyd.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod na ddylai fod yn ddsbarthwr arian Loteri effeithlon gael ei gyflawni ar draul y gwasanaeth i'n cwsmeriaid. Maent yn falch o ddweud bod nifer o'n targedau yn parhau i gael eu cyrraedd er gwaethaf aflonyddwch y pandemig COVID-19. Rydym yn cydnabod bod llawer o'r targedau hyn heb newid ers nifer o flynyddoedd, ac rydym yn archwilio a fyddai dangosyddion eraill yn fwy priodol i'w datgelu yn y blynyddoedd i ddod, wedi'u haddasu'n benodol i gefnogi strategaeth newydd y Gronfa.

## Symiau taladwy

Mae CGDG yn glynu wrth y safon llywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, sy'n nodi y dylid talu pob bil dilys o fewn 30 niwrnod. Yn 2021–22 oedran gyfartalog anfonebau oedd saith diwrnod gwaith (2020–21: deng niwrnod gwaith). Talwyd dros 93% o anfonebau o fewn 30 niwrnod calendr (2020–21: 92%).

Ffordd arall o fesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr yw'r gymhareb diwrnodau credydwr – cymhareb y symiau taladwy masnachol ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth y pwrcasiadau yn y flwyddyn wedi'i mynegi yn nhermau diwrnodau calendr. Ar 31 Mawrth 2022, y ffigur oedd 35 diwrnod (2020–21: 30 niwrnod). Mae'r ffigur diwrnodau credydwr yn llawer uwch ar ddiwedd y flwyddyn nag ar amserau eraill oherwydd i ni annog cyflenwyr i gyflwyno eu hanfonebau cyn y daw'r flwyddyn i ben, ac mae hyn yn golygu y ceir ymchwydd yn nifer yr anfonebau a dderbynnir ar ddechrau mis Ebrill.

Yn 2021–22, roedd ein costau gweithredu fel cyfran o'n hincwm fel a ganlyn:

	Targed	Gwirioneddol 2021–22	Gwirioneddol 2020–21	Gwirioneddol 2019–20	Gwirioneddol 2018–19	Gwirioneddol 2017–18	Gwirioneddol 2016–17
Gwariant gweithredu fel cyfran o'r cyfanswm incwm	7.75%	5.9%	5.0%	7.7%	6.9%	6.6%	6.9%

## Polisiau amgylcheddol ac adrodd am gynladwyedd

Bu cynladwyedd yn rhan annatod o weithrediadau ac ymagwedd y Gronfa ers blynnyddoedd lawer. Mae ein Fframwaith Ariannu Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad i'w gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd ddangos effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ac roedd 'Chwarae ein rhan wrth daclo newid yn yr hinsawdd' yn un o brif ddeilliannau ein Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer y flwyddyn.

Rydym wedi mynd ymhellach yn ein hymrwymiad i ddatgarboneiddio, ac wedi gosod targed y bydd ein gweithrediad yn cyrraedd sero-net erbyn 2030. Rydym wedi comisiynu ymchwil i wella ein hadrodd amgylcheddol ac i'n helpu i sefydlu llwybr datgarboneiddio ar gyfer ein portffolio buddsoddiadau.

Mae 2021–22 wedi gweld CGDG yn cefnogi DEFRA wrth ddsbarthu £40miliwn o gyllid pellach fel rhan o'r Gronfa Her Adfer Werdd a £6miliwn ar gyfer y Gronfa Trees Call to Action er mwyn cefnogi sefydliadau i gyflawni amcanion Cynllun Gweithredu Coed Lloegr.

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Ail-agorodd ein swyddfeydd i staff ym mis Gorffennaf 2021 ac o ganlyniad rydym wedi gweld cynnydd yn y defnydd o ynni ar gyfer y flwyddyn, o'i gymharu â 2020–21. Mae defnydd ac allyriadau o ganlyniad o hynny sylweddol is o hyd o'i gymharu â 2019–20. Rydym wedi cymryd camau i ostwng ein heffaith amgylcheddol drwy ddewis swyddfeydd llai a mwy effeithlon. Rydym hefyd wedi gweld gostyngiad mawr mewn teithio busnes, wedi'i hwyluso gan welliannau mewn swyddogaethau galw dros fideo.

Mae gennym un ar ddeg o swyddfeydd i gyd, y mae wyth ohonynt wedi'u gwasanaethu. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ni gywain data defnydd cywir gan nad yw is-fesuryddion ar gael yn y mwyafrif o ofodau swyddfa, mae'r defnydd wedi'i ddsrannu gan ddefnyddio arwynebedd sgwâr. Lle bo'n bosib ac yn berthnasol, rydym wedi dosrannu defnydd o ynni mewn gofodau swyddfa cymunedol. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan landlordiaid yn gosod cyfyngiadau ar ein data. Lle mae llai o hyder yn yr

wybodaeth, rydym wedi dewis dibynnu ar allyriadau a data ynni a roddir yn y tystysgrifau perfformiad ynni (EPC). Mae data go iawn wedi'i ddefnyddio ar gyfer ein swyddfeydd yn Leeds, Birmingham, Belfast, Caerwysg, Llundain, Caergrawnt, Caerdydd, Newcastle a Nottingham. Mae amcangyfrifon yn seiliedig ar EPC wedi cael eu defnyddio ar gyfer ein swyddfeydd yng Nghaeredin a Manceinion.

Ychydig iawn o'n gofodau swyddfa sy'n defnyddio nwy naturiol ar gyfer gwresogi gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio trydan ar gyfer gwresogi ac oeri. Defnyddir nwy yn ein swyddfeydd yng Nghaeredin, Nottingham, Leeds a Llundain. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i gyrraedd ein targed o ddatgarboneiddio ein gweithrediadau erbyn 2030 trwy annog landlordiaid i newid i drydan adnewyddadwy 100%. Rydym wedi dechrau cywain data ar ynni adnewyddadwy, gyda 13% o'r trydan a ddefnyddir i bweru ein gofodau swyddfa yn dod o ffynonellau adnewyddadwy.

Yn 2021–22, bu i ni deithio dros 350,000 o filltiroedd ar draws y DU (o'i gymharu â llai na 14,000 o filltiroedd yn 2020–21). Roedd 61% o'r pellter hwn ar y rheilffyrdd, a 34% mewn ceir, byddwn yn diwygio ein polisi teithio yn y flwyddyn 2022–23 i annog y defnydd o gludiant cyhoeddus uwchben pob opsiwn a chefnogi mynediad i gerbydau trydan pan na ellir osgoi teithio ar y ffordd.

Nid ydym wedi cynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithio gartref yn ein hadroddiad gan fod y rhain ar hyn o bryd y tu hwnt i'r canllawiau adrodd. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol, er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r arfer gorau. Ar yr un pryd, rydym yn monitro defnydd amcangyfrifedig dyfeisiau o drydan, sy'n debygol o fod y cyfrannwr ychwanegol mwyaf at effaith amgylcheddol gweithio gartref, a byddwn yn defnyddio'r data hwnnw i gyfeirio caffael yn y dyfodol.

### Lleihau a rheoli gwastraff a'r Defnydd o Adnoddau Meidraidd

Er i'n swyddfeydd ailagor, rydym wedi parhau i weld lefelau isel o wastraff o'n gweithrediadau. Wrth i'n staff addasu i weithio ar-lein yn fwy rydym wedi gweld gostyngiad cyffredinol mewn defnydd, sydd wedi'i adlewyrchu yn y maint cymharol isel o bapur

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Allyriadau nwyon tŷ gwyr

		2021-22	2020-21	2019-20
Allyriadau nwyon tŷ gwyr	Allyriadau Cwmpas 1 (tCO <sub>2</sub> e)	26	14	50
	Allyriadau Cwmpas 2 (tCO <sub>2</sub> e)	44	36	203
	Allyriadau Cwmpas 3 (tCO <sub>2</sub> e)	70	9	167
	Cyfanswm allyriadau gros (tCO <sub>2</sub> e)	140	59	420
Defnydd o ynni a dŵr	Trydan (kWh)	207,051	58,301	794,149
	– o ffynonellau adnewyddadwy (kWh)	27,777		
	– o ffynonellau anadnewyddadwy (kWh)	179,274		
	Nwy (kWh)	140,457	76,429	270,794
	Dŵr (m <sup>3</sup> )	1,530	2,434	4,820
Gwariant (£'000)	Cyfleustodau (gan g. taliadau gwasanaeth)	329	278	589
	Teithio busnes (gan g. llety)	172	2	486

## Isafu a rheoli gwastraff

		2021-22	2020-21	2019-20
Gwastraff (tunelli)	Peryglus – gan g. WEEE*	–	0.3	–
	Tirlenwi	–	–	124
	Ynni o wastraff	0.77	1.4	–
	Ailgylchu cymysg	0.43	0.3	26
	Cyfanswm gwastraff	1.20	2	150
Gwariant ar wastraff (£'000)	Cyfanswm gwastraff (gan g. glanhau)	26	19	48

\* WEEE = gwastraff offer trydanol ac electronig

## Defnydd o adnoddau meidraidd

		2021-22	2020-21	2019-20
Adnoddau meidraidd	Dŵr (m <sup>3</sup> )	1,530	2,434	4,820
	Defnydd o Bapur (dalenni)	6,903	–	172,500
	Defnydd o Bapur (tCO <sub>2</sub> e)	0.73	–	0.8

a ddefnyddir o'i gymharu â 2019–20. Ar gyfer y dyfodol rydym yn adolygu nifer yr argraffyddion sydd ar gael yn ein swyddfeydd gan obeithio y gallwn barhau i leihau'r defnydd o bapur. Mae'r defnydd llai hwn hefyd wedi arwain at lai o wastraff.

Rydym wedi gweithio gyda chontractwr allanol i sefydlu Cynllun Effaith Werdd ar draws y sefydliad hwn sydd ymhlith meysydd eraill yn canolbwyntio'n allweddol ar isafu a gostwng gwastraff plastigau untro, gan gydnabod bod lleihau gwastraff yn ddibynnol ar newid diwylliant ac ymddygiad ein staff.

Mae'r defnydd o ddŵr (a ddefnyddir i wasanaethu toiledau a cheginau swyddfa) wedi cynyddu eleni. Byddwn yn gweithio gyda landlordiaid i ddiweddarau'r cyfleusterau hyn lle bo'n bosib a rhoi mesurau arbed dŵr ar waith. Mae costau dŵr wedi'u hymgorffori i gyfanswm y taliadau cyfleustodau a ddarperir uchod.

### Adfer natur a chynllunio gweithredu ar fioamrywiaeth

Gwireddir ein cyrhaeddiad a'n heffaith ar yr amgylchedd naturiol fwyaf trwy ein prosiectau tir a natur. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu i ni ddod ynghyd â'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt i

gefnogi tua 200 o brosiectau bywyd gwyllt a arweinir gan gymunedau fel etifeddiaeth o Jiwbilî Platinwm y Frenhines. Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru rydym yn darparu grantiau i gymunedau sy'n cael eu gwasanaethu i helpu trigolion i gysylltu â natur ar garreg eu drws. Drwy ein Grantiau Treftadaeth Gorwelion rydym yn cefnogi arbrawf mawr cyntaf y DU ym myd ffermio gwlyb fel rhan o'r prosiect Peatland Progress; cynnal tirwedd a bywyd gwyllt prin yn y Cairngorms; a hyrwyddo cynladwyedd morol drwy ddyblu maint gwelyau glaswellt y môr ym Mharc Morol Cenedlaethol Plymouth Sound. Gofynnwn i bob prosiect adrodd ar eu perfformiad amgylcheddol a chyhoeddwn ganllawiau manwl ar ein gwefan.

### Caffael cynaliadwy

Mae ein hymagwedd wedi'i halinio â safonau llywodraeth y DU, fodd bynnag, rydym yn bwriadu gwella ein polisiau caffael cynaliadwy ac yn cydnabod yr angen am ddarparu arweiniad caffael mwy cynaliadwy. Ein cam cyntaf fydd ymwreiddio gofynion cynladwyedd wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol ar gyfer cytundebau lesi swyddfa.

### Addasu i newid yn yr hinsawdd

Rydym wrthi'n datblygu Strategaeth Gynladwyedd, bydd ein hymagwedd a'n cynllun gweithredu yn sicrhau bod ein polisiau â goblygiadau hirdymor yn gadarn yn wyneb tywydd newidiol, digwyddiadau eithafol ac ymchwydd yn lefel y môr o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Bydd y strategaeth yn galw ar arweiniad sy'n bodoli eisoes megis Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd, Rhagamcanion Hinsawdd y DU a'r Rhaglen Addasu Genedlaethol.

### Lleihau effeithiau amgylcheddol o TG a defnyddio digidol

Mae lleihau effaith amgylcheddol y dechnoleg a ddefnyddiwn wedi'i ymwreiddio yn ein strategaeth TG newydd, rydym wedi comisiynu ymchwil yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i'n helpu i ddeall effaith amgylcheddol ein hystâd ddigidol yn well. Unwaith y bydd y waelodlin hon wedi'i sefydlu, byddwn yn gwneud gwaith pellach i leihau ei effaith yn unol â'n dyhead sero-net 2030. Bydd yr adolygiad yn ystyried polisiau cadw a dulliau storio data yn ogystal â darparu gwybodaeth a chefnogaeth i staff.

### Amcanion polisi a thargedau

Rydym yn y broses o ddatblygu ein Strategaeth Gynladwyedd a fydd yn ymgorffori'r Ymrwymïadau Llywodraeth Werdd 2021–2025 ac yn alinio i

Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenedloedd Unedig. Rydym wedi gosod targed i gyrraedd allyriadau sero-net ar gyfer ein gweithrediadau erbyn 2030. O fewn y targed hwn byddwn yn ymgorffori allyriadau cwmpas 3 ein cadwyn gyflenwi ac wedi dechrau'r broses o fesur ei effaith. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod yr allyriadau sy'n gysylltiedig â'r brosiectau yr ydym yn eu hariannu yn sylweddol, a bod hwn yn faes lle mae gennym lawer o fylchau data. Rydym yn gweithio gydag ymchwilwyr allanol i'n helpu i ddeall ôl troed carbon ein brosiectau ac i bennu targed gostwng ar sail gwyddoniaeth, sy'n cynnwys yr allyriadau hyn. Trwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith amgylcheddol y brosiectau yr ydym yn eu hariannu, rydym yn gobeithio y bydd modd i ni ddarparu cefnogaeth ac arweinyddiaeth ymarferol i gefnogi'r sector treftadaeth wrth bontio i ddyfodol cynaliadwy.


### Paratoi ardaloedd gwledig ar gyfer y dyfodol

Mae gan y Gronfa gyrhaeddiad cenedlaethol, ac mae'n cefnogi brosiectau ar draws y DU. Mae llawer o'n brosiectau mewn ardaloedd gwledig ac mae ein buddsoddiad yn helpu i greu swyddi a chefnogi cymunedau. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu, gan gynnwys, cynrychiolaeth, mynediad at gludiant cyhoeddus ac argaeledd a chydarddoldeb gwaith cyflogedig. Mae'r rhain yn feysydd yr ydym eisoes yn cefnogi ein grantion i ymdrin â nhw yn eu ceisiadau, fodd bynnag, nid yw paratoi ardaloedd gwledig ar gyfer y dyfodol yn agwedd wedi'i ffurfioli ar ein prosesau gwneud penderfyniadau. Dyma rywbeth y byddwn yn ceisio ei adolygu fel rhan o'n gwaith strategaeth ehangach o fewn y flwyddyn.

Fel sefydliad rydym yn cefnogi ein cydweithwyr i weithio ar draws y wlad ac yn disgwyl i fwy symud i weithio hybrid dros y blynyddoedd i ddod. Gallai mwy o hyblygrwydd o ran lleoliad ein staff gefnogi recriwtio gweithwyr sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig ymhellach.

### Adeiladu cynaliadwy

Fel sefydliad nid ydym yn gyfrifol am waith adeiladu newydd nac unrhyw asedau cyfalaf.



### Eilish McGuinness

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

13 Gorffennaf 2022

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Adroddiad atebolrwydd

Mae tair adran i'r adroddiad atebolrwydd:

- adroddiad llywodraethu corfforaethol – trafodaeth o'n strwythur llywodraethu a'i gyflawniadau yn y flwyddyn dan sylw
- adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff – mae hwn yn rhoi manylion tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr yn ogystal â threfniadau pensiwn i staff. At hynny, rydym yn trafod ein cyflawniadau o ran cydraddoldeb yn y gweithle ac amrywiaeth staff
- adroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol – adroddiad gan ein archwilwyr ar ganlyniadau eu harchwiliad o'n cyfrifon ar gyfer 2021–22 yn unol â safonau cyfrifyddu ac archwilio

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu'r Gronfa a sut y maent yn cefnogi cyflawni ein hamcanion.

## Adroddiad y cyfarwyddwyr

### Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG

Cadeirydd

Dr Simon Thurley CBE  
O 1 Ebrill 2021

Ymddiriedolwyr

Maria Adebawale-Schwarte <sup>1</sup>

Y Farwnes Kay Andrews OBE

Jim Dixon <sup>1</sup>

tan 30 Mehefin 2021

Dr Claire Feehily <sup>1</sup>

Sarah Flannigan

tan 15 Mai 2021

Perdita Hunt OBE DL <sup>1</sup>

tan 21 Ebrill 2021

Ray Macfarlane

Mukesh Sharma MBE DL

Dr David Stocker

Prif Weithredwr

Ros Kerslake CBE

tan 31 Rhagfyr 2021

Eilish Mc Guinness

o 1 Ionawr 2022

<sup>1</sup> Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg

Gellir dod o hyd i fanylion aelodau staff uwch eraill yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff ar dudalen 31.

Roedd y rhaniad o'n staff o ran rhywedd (gan gynnwys y rhai ar gontractau cyfnod penodol) sy'n gweithio ar weithgareddau'n ymwneud â'r Loteri Genedlaethol, a'n hymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2022, fe a ganlyn. Bu llawer o'n staff yn 2021–22 yn gweithio ar weithgareddau'r Loteri a gweithgareddau cymorth grant.

	Dynion	Menywod	Cyfanswm
Cyfarwyddwyr gweithredol	1	3	
Staff	91	258	349
Ymddiriedolwyr	3	4	7

### Cofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â'r Gronfa ac yn diarddel eu hunain o'r prosesu arfarnu, trafod a gwneud penderfyniad ar y grant perthnasol gyda'r Gronfa. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau cyfranogiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr Cronfa Goffa'r

Dreftadaeth Genedlaethol. Ceir trefniadau cyfatebol er mwyn i staff adrodd buddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posib. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – [www.heritagefund.org.uk/cy](http://www.heritagefund.org.uk/cy)

### Datblygiadau'r dyfodol

Byddwn ni'n parhau i gyflwyno ein Fframwaith Ariannu Strategol y Loteri Genedlaethol yn 2022–2023 ochr yn ochr â datblygu strategaeth ar ei newydd wedd, gan gymryd effeithiau'r pandemig i ystyriaeth ac adlewyrchu ein huchelgeisiau hirdymor ar gyfer treftadaeth dros y deng mlynedd nesaf.

Wrth i'r DU ddod allan o'r argyfwng COVID-19, byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda threftadaeth i addasu, ffynnu ac edrych at y dyfodol yn yr hyn sy'n parhau i fod yn fyd ansicr. Byddwn ni'n sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion treftadaeth y DU nawr ac yn y dyfodol, gan weithio ar y cyd i eirioli dros dreftadaeth a'i gwerth i fywyd yn y DU. Mae ein gwaith i wella defnydd y Gronfa o ddadansoddi data, tystiolaeth a mewnwleidiad wedi symud yn sylweddol dros y 18 mis diwethaf, a byddwn yn parhau i ymwreiddio hyn ar draws ein sefydliad, fel bod ein penderfyniadau yn seiliedig yn fwy ar dystiolaeth.

### Ein blaenoriaethau busnes allweddol yw:

#### 1. Datblygu strategaethau gan gynnwys ehangu cydweithio yn y sector a phartneriaethau strategol

- Cyflwyno strategaeth ar ei newydd wedd, ymgysylltu â'n hadran noddi, DCMS, rhanddeiliaid ehangach a'r cyhoedd, oll wedi'i chyfeirio gan ymchwil a mewnwleidiad.
- Gweledigaeth tymor hwy ar gyfer treftadaeth gyda chynlluniau cyflwyno tair blynedd o 2023–24 ymlaen.
- Gwaith ar y cyd gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol i ddangos effaith y Loteri Genedlaethol ar y cyd, gan ganolbwyntio ar Jiwibili Platinwm y Frenhines a Gemau'r Gymanwlad 2022.
- Treialu partneriaethau newydd er mwyn ehangu cyrhaeddiad ac effaith cyllid treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

#### 2. Cyflwyno rhaglenni'r Loteri Genedlaethol a chymorth grant gyda ffocws ar adferiad y sector treftadaeth, cydnherthedd a lle/lefelu i

### fyn gan gynnwys:

- Cyflwyno cyllid prosiectau craidd y Loteri Genedlaethol (£3,000–£10,000; £10,000–£250,000; £250,000–£5miliwn).
- Cyflwyno rhaglenni cyllid ar gyfer treftadaeth ar ran llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig.
- Buddsoddi mewn rhaglenni adfer a chydnerthedd gan gynnwys ein mentrau Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth a Chymorth Busnes a Datblygu Menter.
- Cyflwyno ein hymgyrch Casgliadau Dynamig mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Lloegr.
- Buddsoddi mewn arloesedd, gan gynnwys Cronfa Arloesi newydd a pheilot Cyllid Gwyrdd, i brofi ffyrdd newydd o gefnogi prosiectau amgylcheddol.
- Parhau â'n partneriaeth Future Parks Accelerator gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Bydd dysgu'n cael ei rannu mewn cynhadledd fawr ym mis Medi 2022, ac mae gwaith ar y gweill i archwilio sut rydym yn defnyddio'r ffyrdd newydd hyn o fuddsoddi mewn mannau gwyrdd trefol ar draws Gogledd Iwerddon, gogledd Lloegr ac yn fwy eang drwy fenter buddsoddi newydd y Gronfa sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth adeiledig a naturiol.
- Ffocws cynyddol ar ariannu strategol ar gyfer lleoedd – cydweithio â phartneriaid strategol sy'n seiliedig ar ardaloedd a Chyrff Hyd Braich eraill.

### Dyma rai o'r blaenoriaethau trawsbynciol eraill:

#### Ymwreiddio cynaladwyedd amgylcheddol yn ein buddsoddiad a'n gweithrediadau

- Cwblhau ein hymchwil i ôl troed carbon ein buddsoddiad a'n gweithrediadau mewnol.
- Defnyddio'r mewnwleidiad hwn i ddatblygu ein hymagwedd at gyrraedd Sero Net Carbon ar draws ein gweithrediadau busnes erbyn 2030.

#### Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad (EDI) yn ein buddsoddiad a'n gweithrediadau

- Adfywio ein hymagwedd at ganlyniad amrywiaeth 'ystod ehangach o bobl' presennol y Gronfa Treftadaeth, fel rhan o'n gwaith ehangach o adnewyddu'r strategaeth, wedi'i gyfeirio gan ymchwil gynhwysfawr.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

- Partneriaethau a gwaith ar y cyd i sicrhau y gall prosiectau a arweinir gan bobl a dangynrychiolir mewn treftadaeth gael mynediad i'n cyllid.
- Gweithredu camau ein Hadolygiad EDI 2021 yn barhaus, gan ymdrin â gwelliannau ar draws ein gweithlu, llywodraethu a diwylliant sefydliadol, wedi'i gefnogi trwy oruchwyliaeth a her ein Tasglu EDI annibynnol.

## Un flaenoriaeth ategol ganolog yw:

### Cwblhau ac ymwreiddio ein system rheoli buddsoddiadau newydd

- Darparu proses o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer ein system rheoli buddsoddiadau newydd, gan alluogi ein cwsmeriaid a'n pobl i weithio'n fwy effeithlon, gwella ein galluoedd adrodd data a gosod y sylfeini i greu profiad hirdymor gwell ar gyfer cwsmeriaid ynghyd â gwella ein hymagwedd at reoli'n perthynas â chwsmeriaid.
- Cau ein systemau rheoli grantiau blaenorol i lawr a symud data i'n systemau newydd.

Mae ein galluoedd data yn parhau i dyfu trwy ddatblygu ein warws data adrodd a'n gwasanaeth delweddu. Ein huchelgais yw darparu gwasanaeth mewnwelediad sy'n galluogi ein staff a'r sector treftadaeth i gyflawni newid parhaol a chadarnhaol. Y flwyddyn nesaf byddwn yn canolbwyntio ar gydweithio â Chyrff Hyd Braich eraill ar brosiectau fel Pwls Treftadaeth a thrwy ein defnydd a rennir o ddata ymgysylltu drwy'r Arolwg Cymryd Rhan dan arweiniad DCMS.

## Penodi archwilywyr

Mae Deddf 1980 yn gwneud darpariaeth i gyfrifon blynyddol CGDG gael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn estyn hwn i weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yr ymddiriedolwyr.

## Rhanddeiliaid allweddol

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid ac yn ymgynghori'n helaeth â nhw wrth ddatblygu ein fframweithiau strategol a pholisiau ac arfer gwneud grantiau. Yn eu plith mae'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, ymgeiswyr a grantion, asiantaethau strategol a chyrff treftadaeth arweiniol ynghyd â meysydd polisi eraill sy'n berthnasol i'n cyllid ar draws y DU, yn ogystal ag aelodau etholedig llywodraeth leol a chenedlaethol. Mae DCMS yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi DU gyfan (gweler

yr adran Cyfarwyddiadau Polisi tua diwedd yr adroddiad hwn) ac yn rheoli Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol sy'n buddsoddi'r arian a dderbynnir gan y Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraeth Yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi hefyd.

## Ychwanegedd

Yn unol â chyfarwyddyd ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, mae'n ofynnol i holl ddsbarthwyr y Loteri Genedlaethol roi ystyriaeth i egwyddorion ychwanegedd. Ein gofyniad ar gyfer grantiau'r Loteri Genedlaethol yw y dylai ein cyllid fod yn ychwanegol at y cyllid sydd ar gael gan y llywodraeth yn hytrach na'i ddisodli. Ni fyddwn yn rhoi grantiau i brosiectau y tybiwn yr oedd cyllid gan y llywodraeth ar gael ar adeg y penderfyniad. Fel rhan o'n hasesiad grant rydym yn gofyn i ymgeiswyr wneud achos clir dros fuddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol gan gynnwys dweud wrthym ba ffynonellau ariannu eraill sydd wedi cael eu hystyried.

## Data personol

Cafodd CGDG ddau ddigwyddiad lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), nid oedd yr un o'r digwyddiadau hyn yn gofyn am adrodd i'r ICO. Mae gwersi wedi'u dysgu ac mae camau adferol wedi'u cymryd i leihau'r posibilrwydd y bydd hyn yn digwydd eto. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi ac ymdrin ag unrhyw wendidau a sicrhau gwelliant parhaus ei systemau.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 35(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gyda chydysyniad Trysorlys EM. Paratoyr cyfrifon ar sail cronladau ac mae'n rhaid iddynt ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i hincwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â llawlyfr adrodd ariannol y llywodraeth (LIAA) ac yn benodol:



1. glynu wrth y cyfarwyddyd cyfrifyddu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu priodol yn gyson
2. ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol
3. datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u hamlinellir yn LIAA wedi'u dilyn, a datgan ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol
4. paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol i dybio y bydd y Gronfa'n parhau i weithredu

Penododd prif Swyddog Cyfrifyddu DCMS yr uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa.

Mae eu cyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys eu cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros ddiogelu asedau'r Gronfa a thros gadw cofnodion priodol, wedi'u disgrifio yn yr adran sydd â'r teitl 'Swyddogion Cyfrifyddu' yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n cadarnhau bod yr adroddiad a chyfrifon blynyddol yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac mai hi sy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad a chyfrifon blynyddol a'r farn y mae ei hangen i bennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol.

## Datganiad llywodraethu

### Rhagair

Fe'm penodwyd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ar 1 Ionawr 2022 Cyn hynny, Ros Kerslake oedd y Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu nes iddi ymddeol ar 31 Rhagfyr 2021. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau yn effeithiol.

Rwy'n gwbl ymwybodol o fy atebolrwydd a fy nghyfrifoldebau fel y nodir yn fy llythyr penodi,

Rheoli Arian Cyhoeddus etc. Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd rhagarweiniol gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) ac archwilwyr mewnol y Gronfa (BDO). Fe wnes i hefyd gynnal cyfarfodydd rhagarweiniol gyda DCMS ac rwyf wedi dilyn y rhai gyda chyfarfodydd anffurfiol â DCMS yn ogystal ag adolygiadau chwarterol ffurfiol gyda DCMS.

### Cyflwyniad

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn grynoded o'r trefniadau ar gyfer stiwardiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, gan gynnwys sut rydym yn rheoli risg a sut rydym yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Da Trysorlys EM ar gyfer Llywodraeth Ganolog.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, mae'n ofynnol i mi yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm – cymorth grant a chyllid gan y Loteri Genedlaethol. Rwy'n atebol hefyd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisiau, nodau ac amcanion CGDG, ac ar yr un pryd diogelu'r cyllid ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol yn bersonol amdanynt. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gweithredu fel endid unigol gan i mi gredu bod hyn yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gan hynny, dim ond un strwythur llywodraethu sydd yn y datganiad hwn, y mae'n cwmpasu dosbarthu dyfarniadau cymorth grant a grantiau'r Loteri Genedlaethol. Er i ni weithredu un strwythur llywodraethu cyffredinol rydym wedi addasu ac ystwytho ein llywodraethiant i ddiwallu gofynion ein rhaglenni cymorth grant. Bu hyn drwy ddefnyddio paneli bach o ymddiriedolwyr a darparu hyblygrwydd i rai o'n dirprwyaethau gwneud penderfyniadau.

### Y pandemig COVID-19

Mae'r pandemig COVID-19 wedi parhau i gael effaith sylweddol arnom yn ystod 2021–22.

Mae'r pandemig hefyd wedi cael effaith barhaus ar y sector treftadaeth gan gynnwys:

- colli incwm o ganlyniad i gyfyngiadau iechyd cyhoeddus, gan effeithio ar nifer yr ymwelwyr, canslo aelodaeth, incwm masnachol
- llai o nawdd a/neu gyllid partneriaeth

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

- oedi i brosiectau gael eu cyflwyno
- cynnydd mewn costau prosiect
- effeithiau andwyol ar gyflwyno prosiectau – rhoi staff ar ffyrlo, yr angen am ailgyfeirio ac ail-flaenoriaethu adnoddau
- cydnerthedd y sector, yn enwedig mewn sefydliadau dan arweiniad gwirfoddolwyr/ sefydliadau dibynnol
- dileu cefnogaeth a noddur gan lywodraeth fel darpariaethau ffyrlo
- yr angen am gryfhau cronfeydd er cydnerthedd tymor hwy
- argaeledd sgiliau a staffio allweddol
- yr angen am addasu i ffyrdd digidol o weithio

Bu ein hamgylchedd gweithredu'n heriol ac yn ymdrechgar, effeithiwyd ar ein sefydliad ein hunain gan gyfyngiadau iechyd cyhoeddus ac ar yr un pryd bu'n rhaid i ni barhau i ymateb i'r sector a chefnogi treftadaeth ar draws y DU. Rydym wedi datblygu partneriaethau newydd a gweithio gyda gwahanol adrannau llywodraeth y DU, ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Fe wnaethom barhau i gyflwyno ein rhaglenni cymorth grant – y rhai cyffredinol a'r rhaglenni ymateb COVID-19 penodol. Fe wnaethom hefyd ail-agor ein rhaglenni Loteri Genedlaethol agored yn llawn yn 2021–22 gan ganolbwyntio'n benodol ar adferiad a chydnerthedd.

Parhaodd llif arian a hylifedd i fod yn allweddol i iechyd a goroesiad y sector treftadaeth. Bu modd i ni gyfrannu buddsoddiad er mwyn cynnal cefnogaeth i brosiectau, helpu cymunedau, diogelu swyddi a sicrhau goroesiad rhannau helaeth o'r sector efallai na fyddent wedi llwyddo i ymdopi â'r argyfwng fel arall. Roedd modd hefyd i ni ddarparu dros £25 miliwn mewn cymorth penodol i dalu am gynnydd mewn grantiau i brosiectau presennol er mwyn helpu i ymdrin â phwysau ar gostau, er enghraifft, methiant cyflenwyr a phwysau ar gostau yn y gadwyn gyflenwi.

Mae'n bleser gennyf adrodd bod ein trefniadau llywodraethu wedi caniatáu i ni nid yn unig weithredu drwy'r argyfwng ond i ddarparu ystod o ymatebion ar draws y DU sydd wedi chwarae rhan ganolog wrth ddiogelu'r sector treftadaeth.

Yn ystod y flwyddyn bu i ni gomisiynu adolygiad penodol o'n Cynlluniau Parhad Busnes ein hunain

a sut y cânt eu rhoi ar waith o fewn gweithrediadau'r Gronfa. Daeth hyn i'r casgliad y bu ein gweithredu'n dra effeithiol ac wedi'u gweithredu'n dda a byddwn yn bwrw ymlaen i'r camau gweithredu mewn cynlluniau a dadansoddiadau effaith ar eu newydd wedd yn 2022–23.

Mae llywodraethu'r Gronfa wedi parhau i fod yn gydnherth ac yn hyblyg drwy gydol y flwyddyn gyfan.

## Y cytundeb fframwaith rhwng DCMS a CGDG

Yn ystod y flwyddyn cytunodd y Gronfa ar Gytundeb Fframwaith drafft gyda DCMS yn nodi ein trefniadau llywodraethu fel Corff Hyd Braich (CHB) o'r adran, ein dirprwyaethau, mesurau rheoli gwariant a threfniadau gweithredu ehangach. Rydym yn disgwyl i hyn gael ei gwblhau yn 2022–23.


## Adolygiad llywodraethu

Fel yr amlinellir yn y datganiad hwn, bu i ni gomisiynu adolygiad annibynnol o'n llywodraethu mewnol yn 2019–20. Mynegodd y Bwrdd gefnogaeth dros ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad, a pharatôdd y tîm Cyfreithiol a Llywodraethu gynllun gweithredu ar gyfer y prif argymhellion. Rydym bellach wedi cwblhau gweithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion ac mae gennym gynlluniau parhaus ar gyfer cwblhau'r argymhellion i gyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Symud i nifer llai o ymddiriedolwyr yn ymarferol (9 neu 10)**  
Mae hyn bellach ar y gweill, mae rhai ymddiriedolwr wedi ymddeol, rhai wedi'u hailbenodi.
- **Penodi ymddiriedolwyr ychwanegol i gadeirio pwyllgorau ardal Lloegr**  
Rydym yn aros am yr apwyntiadau hyn gyda'r nod o ddarparu apwyntiadau neu ail-apwyntiadau tebyg i gwmpasu pwyllgorau Cymru a'r Alban.
- **Datblygu matricesau sgiliau ar gyfer ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor sy'n cwmpasu sgiliau busnes, llywodraethu corfforaethol a threftadaeth**  
Mae'r rhain wedi'u cwblhau ac maent wedi'u defnyddio yn ein hymgyrchoedd recriwtio ein hunain a'r rhai a arweinir gan DCMS.
- **Cau'r Pwyllgor Cyllid, Staffio ac Adnoddau i lawr**  
Mae hyn wedi'i gwblhau ac rydym wedi symud ei swyddogaethau i'r Bwrdd a'r Weithrediaeth.

## Strwythur llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu CGDG yn ystod 2021–22 wedi'i ddisgrifio yn y diagram isod. Mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau fel y disgrifir, ochr yn ochr â'r Weithrediaeth a'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad.



### Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- ddarparu arweiniad a chyfarwyddyd strategol
- cymeradwyo mecanweithiau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus
- cymeradwyo cyllidebau buddsoddi a gweinyddu
- goruchwyllo rheolaeth gyffredinol gweithgareddau CGDG
- adrodd ar stiwardiaeth cyllid cyhoeddus

Cynhaliodd y Bwrdd, sy'n gweithredu fel grŵp, saith cyfarfod yn ystod y flwyddyn i bennu polisiau CGDG a gwneud penderfyniadau'n unol â'r polisi hwnnw. Mynychir y cyfarfodydd hyn gan y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr gweithredol. Roedd yr holl gyfarfodydd Bwrdd a gynhaliwyd yn 2021–22 yn ffurfio cworwm.

Dr Simon Thurley CBE yw Cadeirydd y Gronfa a thrwy gydol y flwyddyn cynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhyngddo ef, y Prif Weithredwr ac uwch staff. Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi'n gyfreithiol hyd at uchafswm o 15 o ymddiriedolwyr gan gynnwys y Cadeirydd. Penodwyd tri ymddiriedolwr newydd ac ymddeolodd tri ymddiriedolwr yn 2021–22.

Cyfradd bresenoldeb gyffredinol ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 94%. Mae ymddiriedolwyr wedi dirprwyo rhai o'u tasgau i'r ddau bwyllgor a ddangosir uchod hefyd – mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwyllo gweithgareddau rheolwyr ac yn darparu arweiniad a chefnogaeth i staff uwch. Mae cofnodion cyfarfodydd pwyllgor yn eitemau sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae cadeiryddion pwyllgorau'n darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau hefyd.

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd trwy gydol 2021–22 fel a ganlyn:

Ymddiriedolwyr	Cyfarfodydd cymwys	Presenoldeb
Dr Simon Thurley CBE o 1 Ebrill 2021	7	7
Maria Adebawale-Schwarte	7	7
Y Farwnes Kay Andrews OBE	7	6
Jim Dixon tan 30 Mehefin 2021	2	2
Dr Claire Feehily	7	7
Sarah Flannigan tan 15 Mai 2021	1	1
Perdita Hunt OBE DL tan 21 Ebrill 2021	0	0
Ray Macfarlane	7	7
Mukesh Sharma MBE DL o 31 Awst 2020	7	6
Dr David Stocker	7	6

Yn ystod rhan o 2021–22 roedd cyn-gadeiryddion pwyllgorau ardal Lloegr hefyd yn bresennol yn y Bwrdd fel arsylwyr.

Ym mis Mai 2022 cadarnhawyd y byddai tri ymddiriedolwr newydd yn ymuno â'r Bwrdd – Julian Glover, Taryn Nixon a Carol Pyrah.

### Cyfansoddiad y Bwrdd

O'r 10 o ymddiriedolwyr a fynychodd y Bwrdd trwy gydol y flwyddyn, roedd 60% yn fenywaidd a 40% yn wrywaidd. Roedd dau (20%) o gefndiroedd lleiafrifol ethnig.

### Gwrthdaro buddiannau'r Bwrdd

Mae ymddiriedolwyr a staff yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir eu cofnodion yn y Gofrestr Buddiannau a'u bod yn cael eu diweddarau fel y bo angen. Mae'r tîm Cyfreithiol a Llywodraethu'n goruchwyllo proses i sicrhau bod y cofnodion hyn yn cael eu diweddarau bob blwyddyn. Ar ddechrau pob cyfarfod o'r Bwrdd, gofynnir i'r holl Ymddiriedolwyr a staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posib. Nodir y rhain yn y cofnodion pan bennir bod y mater yn gyfystyr â gwrthdaro a bydd ymddiriedolwyr a staff yn tynnu allan o drafodaethau'r Bwrdd ar y materion hynny.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfarfu'r pwyllgor ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn a bu cworwm ym mhob cyfarfod. Fe'i cadeirir gan ymddiriedolwr.

Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod Pwyllgor gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyflwyno Busnes a Gwasanaethau Busnes ac mae staff uwch eraill yn bresennol fel y bo angen. Cefnogir a gwasanaethir y Pwyllgor gan dîm

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Cyfreithiol a Llywodraethu'r Gronfa. Mae archwilwyr allanol (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol) ac archwilwyr mewnol (BDO) y Gronfa'n mynychu'r cyfarfodydd hefyd. Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau in-camera eu hunain cyn cyfarfodydd a hefyd trafodaethau preifat gyda'r archwilwyr cyn y cyfarfodydd.

Yn ychwanegol at ymddiriedolwyr, mae aelodau annibynnol anweithredol yn aelodau o'r pwyllgor hefyd – sef David Michael a Carole Murray. Bydd y ddau aelod yn ymdeol o'u swyddi ar 30 Mehefin 2022 a bydd aelodau newydd yn cymryd eu lle yn weithredol o 1 Gorffennaf 2022.

Cytunodd y Pwyllgor ar strategaeth archwilio dros nifer o flynyddoedd gyda BDO pan gawsant eu penodi ac roedd yr adolygiadau a gyflawnwyd yn 2021–22 ac a adroddwyd i'r pwyllgor yn cyfateb i'r ymagwedd strategol honno. Cymeradwyir cynllun un flwyddyn manwl o adolygiadau archwilio mewnol bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Pwyllgor ar argymhelliad y Weithrediaeth i ymestyn y cytundeb gyda BDO, sydd o ganlyniad wedi cael eu hailbenodi'n archwilwyr mewnol. Cytunwyd ar gynllun strategol ar ei newydd wedd ar gyfer archwilio mewnol o fewn y flwyddyn yn ogystal â'r rhaglen waith un flwyddyn ar gyfer 2022–23.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ar:

- ddiwylliant
- y system rheoli buddsoddiadau
- sicrwydd ynghylch y risg o dwyll
- gweithredu'r adolygiad llywodraethu
- y system adnoddau dynol
- dyfarnu grantiau
- y gyflogres

Mae cofnodion cyfarfod y Pwyllgor, ac adroddiadau cryno yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd ac mae Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi diweddariad ar lafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r Pwyllgor. Derbyniodd y Pwyllgor adolygiadau rheoli mewnol o gynlluniau parhad busnes a seiberddiogelwch yn ystod y flwyddyn hefyd.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri

Genedlaethol hefyd. Yn ystod 2021–22, yn ychwanegol at yr adroddiadau a chyfrifon uchod, ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- y trefniadau ar gyfer rheoli risg a pharhad busnes yn ystod yr argyfwng
- adroddiadau pellach ar y System Rheoli Buddsoddiadau
- achosion o dwyll a thwyll honedig gan gynnwys asesiad risg manwl o dwyll ac asesiad ôl-werthuso ar gyfer ein rhaglenni cymorth grant yn ystod yr argyfwng
- trefniadau caffael gan gynnwys unrhyw eithriadau i dendrau caffael arferol

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd Pwyllgor trwy gydol 2021–22 fel a ganlyn:

Ymddiriedolwr	Cyfarfodydd cymwys	Presenoldeb
Claire Feehily Cadeirydd	4	4
Maria Adebowale-Schwarte	4	2
Jim Dixon tan 30 Mehefin 2021	2	2
Perdita Hunt OBE DL tan 21 Ebrill 2021	1	0
David Michael	4	4
Carole Murray	4	4

Bu'r Pwyllgor hefyd yn cynnal ymarfer hunan-asesu ar ei effeithiolrwydd gan lunio rhestr fer o welliannau er enghraifft defnyddio mwy o ymchwiliadau manwl i risg, gwell ymgynffwrdd i aelodau newydd etc. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu gweithredu'n ymarferol yn 2022–23.

Yn 2021–22, gwnaethom hunan-asesiad o'n cydymffurfiaeth yn erbyn Safonau Gweithredol Swyddfa'r Cabinet. Adroddwyd hyn i DCMS, bu i ni feincnodi ein hunain yn anffurfiol yn erbyn Dosbarthwyr Loteri eraill a darparwyd asesiad cyffredinol i'r Pwyllgor.

O'r 11 o Safonau Swyddogaethol sy'n berthnasol i'r Gronfa bu i ni asesu ein hunain (yn erbyn yr asesiad cyfartalog) fel:

- Gorau yn erbyn 2 safon
- Gwell yn erbyn 4 safon
- Da yn erbyn 3 safon
- Datblygu yn erbyn 2 safon

Roedd y safonau datblygu'n ymwneud â dadansoddi a chyfathrebu. Bydd gwelliannau'n cael eu cynnwys yn ein cynlluniau busnes ar gyfer 2022–23.

Cyflwynwyd cyfres newydd o fesurau rheoli gwariant a sicrhodd y Gronfa ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r rhain, ac adroddir unrhyw eithriadau i'r pwyllgor.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn mynychu Fforwm Cadeiryddion Archwilio DCMS gan roi adborth a sicrwydd pellach i'r Swyddog Cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn.

### **Pwyllgor Enwebiadau a Thâl Cydnabyddiaeth**

Ni wnaeth y Pwyllgor gyfarfod yn 2021–22.

### **Dirprwyo gwneud penderfyniadau ar grantiau**

Yn 2021–22 dirprwyodd y Bwrdd rai penderfyniadau ar grantiau i is-set o ymddiriedolwyr sy'n gweithredu fel paneli'r Bwrdd. Roedd hyn yn ymdrin â phenderfyniadau ar gyfer y rhaglenni canlynol:

- Cyllid ymateb i COVID-19 a rhaglenni cymorth grant eraill a ariennir gan DCMS, DEFRA, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau ynghylch gwneud penderfyniadau am grantiau ar gyfer rhai mathau a gwerthoedd o ddyfarniadau Loteri i'r gwledydd ac i ardaloedd o Loegr. Yn dilyn ein haidrefnu mewnol a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2019, mae chwech o'r pwyllgorau hyn (tair gwlad a thair ardal o Loegr) ac mae pob un yn cynnwys ymddiriedolwr. Yn ychwanegol at wneud penderfyniadau grant, mae'r pwyllgorau hyn yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau yn eu hardal ac yn gweithredu fel eiriolwyr dros waith y sefydliad fel corff dosbarthu'r Loteri. Cyfarfu cadeiryddion y Pwyllgorau Gwlad ac Ardal â Chadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr, ynghyd â staff uwch yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol (Cyflwyno Busnes) yn mynychu pob pwyllgor ar gyfer pob gwlad ac ardal o Loegr trwy gydol y flwyddyn.

Hefyd, mae'r ymddiriedolwyr wedi dirprwyo gwneud penderfyniadau am grantiau o dan £250,000 i staff, yn benodol Cyfarwyddwyr Gwlad ac Ardal yn y Gwledydd ac mewn ardaloedd o Loegr. Cyflwynir adroddiad blynyddol am effaith grantiau wedi'u dirprwyo ar draws yr holl bwyllgorau i'r Bwrdd. Adroddir yr holl benderfyniadau a wneir gan bwyllgorau a staff i'r Bwrdd.

### **Gweithrediaeth a Grŵp Strategaeth a Pherfformiad (GSP)**

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr.

Daeth Gweithrediaeth sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a thri Chyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer pob adran i rym yn 2019 ac mae hynny wedi parhau. Mae'r Weithrediaeth hon yn gyfrifol am faterion rheoli strategol ehangach a'r ddarpariaeth fusnes yn y Gronfa. Mae'r Weithrediaeth yn cwrdd bob wythnos neu bob pythefnos yn ôl angen busnes.

Mae'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad yn cynnwys uwch gyfarwyddwyr a staff ar draws y tair adran ac mae ganddo gyfrifoldeb dros sganio'r gorwel, rheoli perfformiad o ddydd i ddydd a chynllunio corfforaethol. Cyfarfu'r GSP yn rheolaidd ac mewn nifer o'r cyfarfodydd hyn roedd y Weithrediaeth hefyd yn bresennol.

Mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn darparu adroddiad i'r Bwrdd ar weithgareddau a materion sydd o fewn eu cylch gwaith.

Yn ogystal, ar ddechrau bob blwyddyn, rwy'n cyhoeddi Llythyr o Gyfrifoldeb i bob Cyfarwyddwr Gweithredol yn nodi eu cyfrifoldebau a'r angen am weithredu o fewn arweiniad a rheolau'r Gronfa, Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM. Ar ddiwedd bob blwyddyn derbynaf Memoranda Sicrwydd wedi'u llofnodi gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol yn cadarnhau eu cydymffurfiaeth neu nodi unrhyw dor rheolau. Adroddwyd cydymffurfiaeth lawn yn 2021–22.

Rwyf hefyd yn mynychu Fforwm y Loteri (grŵp o holl Brif Weithredwyr Dosbarthwyr y Loteri). Mae hyn yn cynnwys cyswllt â DCMS a Chomisiwn y Loteri Genedlaethol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol (Gwasanaethau Busnes) hefyd yn mynychu'r fforwm cyfatebol ar gyfer cyfarwyddwyr cyllid yn ogystal â chyfarfodydd cyfarwyddwr cyllid DCMS. Darperir adborth a sicrwydd i mi drwy'r llwybrau hynny. Rydym hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda thîm noddi DCMS.

### **Trefniadau parhad busnes**

Ym mis Mawrth 2020 fe wnaethom ddefnyddio ein cynlluniau parhad busnes wrth ymateb i'r argyfwng COVID-19. Cyfarfu'r Weithrediaeth fel Tîm Rheoli Argyfwng ddwywaith yr wythnos i oruchwylio ymateb y Gronfa, rhyngweithio â rhanddeiliaid a llywodraethau ar draws y DU, yn ogystal â chefnogi'r Bwrdd.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Cyfarfu'r Tîm Parhad Busnes ddwywaith yr wythnos, o fis Ebrill i fis Mehefin, i weithredu agweddau gweithredol manwl y busnes a'n cynllun ymateb. Roedd cyfansoddiad y tîm hwn yn adlewyrchu'r gwahanol dimau ar draws yr adran ac anghenion gwahanol yng nghampau cynnar y pandemig.

Gweithiodd ein trefniadau parhad busnes yn unol â'r bwriad ac ni fu unrhyw aflonyddwch i unrhyw ran o fusnes drwy gydol y flwyddyn.

Parhaodd yr arferion hyn tan fis Chwefror 2022 pan safwyd yr holl gynlluniau a threfniadau parhad busnes i lawr yn ffurfiol.

## Dyluniad a strwythur y sefydliad

Yn ystod y flwyddyn, fel Prif Weithredwr, gweithredais strwythur o dair adran, sef:

- Arloesedd a Mewnwelediad Busnes (strategaeth, polisi, data a mewnwelediad ynghyd â marchnata a chyfathrebu)
- Cyflwyno Busnes (cyflwyniad gweithredol)
- Gwasanaethau Busnes (swyddogaethau cefnogi)

Datblygir y cynllun gweithredu blynyddol – y Cynllun Busnes – bob blwyddyn ochr yn ochr â chynllunio cyllidebau ariannol a rhaglenni buddsoddi. Fel yn y blynyddoedd blaenorol bu i ni integreiddio rheoli risgiau'n agos i'r broses cynllunio busnes. Trafodir y Cynllun Busnes gyda'n hadran noddi, DCMS.

Mae DCMS hefyd yn pennu cyfarwyddiadau polisi a chyfarwyddiadau ariannol DU, yr ydym wedi cydymffurfio â nhw yn ein gweithgareddau Loteri. Mae Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi cyhoeddi rhai cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â gweithgareddau'r Loteri yn y gwledydd hynny hefyd ac rydym wedi cydymffurfio â nhw. Mae gennym hefyd gyfarwyddiadau polisi gan DCMS dros Loegr.

Bu i ni weithredu yn unol â'n Cytundeb Fframwaith drafft (fel y cytunwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol) a'r Memorandwm Ariannol rhyngom ni a DCMS. Ategir hyn gan gyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion DCMS a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol. Saif y blaenoriaethau a nodir yn y ddogfen fframwaith ddrafft ochr yn ochr â Chyfarwyddiadau Polisi'r DU a'r gwledydd.

## Fframwaith Ariannol Strategol

Lansiwyd ein Fframwaith Ariannol Strategol yn 2019. Mae'r fframwaith newydd hwn, sydd mewn grym tan 2024, yn cynrychioli datganoliad gwneud penderfyniadau sylweddol ar draws y DU gyfan fel rhan o'n cynigion i ddsbarthu mwy nag £1biliwn o arian y Loteri Genedlaethol i dreftadaeth y DU.

Mae penderfyniadau ar dros 80% o holl grantiau Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gwneud yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ac yn yr ardaloedd o Loegr. Yn ystod y flwyddyn roedd gennym ffocws penodol ar:

- ddangos ac eirioli dros effeithiau economaidd, cymdeithasol a chymunedol treftadaeth
- dod â sefydliadau sy'n gweithio ar draws treftadaeth ynghyd i rannu gwybodaeth ac adnoddau
- annog ac arwain gwell arloesedd a chyfleoedd cynhyrchu incwm newydd ar gyfer treftadaeth

Mae ein hymagwedd gyffredinol yn cynnwys:

- ffocws sylweddol ar natur, cymunedau a sicrhau y gall pawb fwynhau treftadaeth – tair blaenoriaeth bennaf y bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad
- modelau buddsoddi newydd, gan symud y tu hwnt i grantiau i gynnwys benthyciadau a phartneriaethau, sydd wedi'u dylunio i ddenu eraill i fuddsoddi arian ochr yn ochr â'r Loteri Genedlaethol
- mwy o gefnogaeth ar gyfer dulliau masnachol, cynaliadwy o daclo treftadaeth sydd mewn perygl o gael eu colli
- buddsoddiad a chefnogaeth i helpu sefydliadau treftadaeth i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol
- gofyniad i bob prosiect treftadaeth sy'n derbyn cyllid fod yn amgylcheddol gynaliadwy
- prosesau ariannol symlach, mwy effeithlon ac wedi'u rhesymoli
- ymgysylltiad a chefnogaeth mewn cymunedau sydd wedi bod yn llai llwyddiannus wrth sicrhau cyllid yn y gorffennol
- cefnogaeth barhaus ar gyfer prosiectau eiconig, graddfa fawr dros £5miliwn

Mae ein portffolio buddsoddi bellach yn symlach ac yn haws cael mynediad iddo, ac mae'n cynnwys:

- Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – rhaglenni agored ar gyfer unrhyw fath o brosiect treftadaeth rhwng £3,000 a £5 miliwn
- ymgyrchoedd a ariennir ac ymgyrchoedd eraill a ddylunnir i ddiwallu anghenion strategol neu fylchau mewn ariannu
- cyllid ar y cyd i gyflwyno mentrau strategol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis y bartneriaeth Future Parks Accelerator gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- buddsoddiadau cymdeithasol fel cronfeydd effaith a benthyciadau

Mae'r ymagwedd a phortffolio cyffredinol yn adlewyrchu'r ymarfer ymgynghori cynhwysfawr a gyflawnwyd gennym gyda chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a rhanddeiliaid allweddol ar draws y sectorau treftadaeth cyn i'r Fframwaith Ariannu Strategol gael ei lansio.

Yn gynnar yn 2020–21, fe wnaethom y penderfyniad anodd i atal y rhaglenni agored. Gwnaed hyn i'n galluogi i ddatblygu ac yna cyflwyno ein hymateb a ariennir gan y Loteri i'r argyfwng ac i ddarparu gallu wedyn i gyflwyno ein rhaglenni cymorth grant yn ein rhinwedd fel Cronfa Goffa. Fe wnaethom ail-agor y rhaglenni hyn ym mis Chwefror 2021, ac maent wedi rhedeg am flwyddyn gyfan yn 2021–22. Roedd gan y rhain bwyslais penodol ar y canlynol:

- rhoi hwb i economïau lleol
- creu swyddi ac annog datblygu sgiliau
- cefnogi iechyd a llesiant lleol
- cryfhau cydnherthedd sefydliadau ym maes treftadaeth
- sicrhau y gall lleoedd a chymunedau lleol ffynnu

Yn 2022–23 rydym yn disgwyl dechrau ar y gwaith o adnewyddu ein Fframwaith Ariannu Strategol gyda'r bwriad o weithredu ymagwedd strategol newydd at ein buddsoddiad yn 2023 a thu hwnt.

### Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Dylunnir ein system rheoli risg a rheoli mewnol i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach na dileu risg i bolisiau, nodau ac amcanion – gan hynny ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol nid sicrwydd llwyr. Yn benodol, rwy'n glir y dylai rheoli risg gydbwysu arloesedd neu newidiadau i'r busnes pan fydd angen hynny. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus y mae ei nod yw nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion a gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r

risgiau hynny a'r effaith pe bai'r gwireddiad hynny'n digwydd.

Cyfeirir pennu'r holl bolisiau a gwneud penderfyniadau grant gan ddiwylliant ac ymagwedd rheoli risg CGDG. Ychydig flynyddoedd yn ôl bu i ni ddiwygio ein hymagwedd rheoli risg fel rhan o ymarfer sicrwydd ehangach ar draws CGDG. Rydym wedi parhau i weithredu'r ymagwedd hon yn 2021–22, er i ni ei haddasu i weddu i anghenion yr argyfwng.

Mae'r cofrestri/asesiadau risg a'r broses sylfaenol yn aseinio perchennog risg sy'n atebol i'r Prif Weithredwr am reoli'r risg honno yn effeithiol. Mae'r cofrestri hefyd yn nodi risgiau cysylltiedig fel bod unrhyw 'effaith luosi' yn cael ei hystyried. Mae'n gwahaniaethu hefyd rhwng y lefel risg 'gynhenid' (effaith a thebygolrwydd) a'r lefel risg 'weddilliol' fel ei fod yn bosib barnu'r effeithiolrwydd mesurau rheoli a'r mecanwaith sydd eisoes yn bodoli ar gyfer lliniaru'r risg. Mae hynny hefyd yn galluogi perchennog y risg i adnabod mesurau pellach y mae eu hangen i ddod â'r risg o fewn yr awydd a'r dyddiadau penodol ar gyfer y camau hynny. Yn ystod yr argyfwng rydym wedi addasu ein dulliau adrodd ar risg i'r Bwrdd ac i'r Pwyllgor Archwilio a Risg er mwyn adlewyrchu natur ddeinamig risgiau, y risgiau allanol a mewnol o ganlyniad i'r argyfwng, tueddiadau, patrymau a rhagamcanion ymlaen o risgiau.

Adolygodd y Bwrdd ei Awydd am Risg ar gyfer 2021–22 a pharhaodd i adlewyrchu awydd cynyddol am newid y busnes a'r angen am fod yn ymatebol i'r risgiau a gyflwynwyd gan y pandemig.

Rydym yn cydnabod hefyd y dylid annog cymryd risgiau ac arloesedd a ystyrir yn drylwyr i gyflawni amcanion CGDG. Credaf fod y Gronfa'n dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau grant ac nad yw'n fodloni ar wneud penderfyniadau sy'n rhydd rhag risg yn unig Mewn cyfnod o argyfwng roedd hi'n bwysicach nag erioed i sicrhau bod ein buddsoddiad yn cyrraedd mor eang i'r gymuned â phosib boed hynny drwy grantiau'r Loteri Genedlaethol neu gyllid cymorth grant.

I'r perwyl hwn rydym yn barod i dderbyn na fydd rhai o'r sefydliadau yr ydym yn rhoi grantiau iddynt yn y pen draw yn dangos cymhwysedd llawn wrth weinyddu'r grant hwnnw. Rydym yn dysgu ein gwersi, gwella ein prosesau ac, mewn rhai amgylchiadau anghyffredin, yn diddymu'r grant. Mewn achosion pan fyddwn yn amau twyll neu ymddygiad amhriodol byddwn yn adrodd yr achos i'r heddlu am ymchwiliad pellach. Rwy'n cymeradwyo

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

pob diddymiad ac mae hyn yn fy galluogi i'w fonitro bob blwyddyn er mwyn darparu sicrwydd ar ein gweithdrefnau asesu a monitro.

Fel y gellir ei weld o'r nodyn perthnasol i'r cyfrifon, mae lefel y grantiau a ddiddymir yn fach iawn o'i gymharu â lefel y grantiau rydym yn ei ddosbarthu bob blwyddyn. Ar y llaw arall, mae'r lefel uchel o foddhad a ddangosir mewn arolygon annibynnol yn awgrymu nad yw ein harferion gweithio'n ormod o faich ar ymgeiswyr. O ganlyniad i hyn, gallaf ddod i'r casgliad nad oes unrhyw achos pryder ynglŷn â lefel y risg sy'n rhan ymhlyg o'n prosesau rhoi grantiau.

Yn 2021–22 ystyriodd Ymddiriedolwyr CGDG mai'r canlynol oedd y meysydd risg mwyaf arwyddocaol:

- rheoli incwm y Loteri drwy'r argyfwng ochr yn ochr â'n amlygiad hylifedd, rhagamcaniadau cyllid hirdymor a'r gallu i ariannu'r rhain a sicrhau bod ein dangosyddion perfformiad allweddol ariannol yn parhau o fewn ein goddefgarwch risg o ran y galw am ddyfarniadau, ymrwmiadau (rhwymedigaethau) ac ymrwmiadau posib (rhwymedigaethau amodol) ac arian parod a ddelir, fel y dangosir yn y Dadansoddiad o Berfformiad ar dudalen 10
- nad yw'r costau sy'n gysylltiedig â'n gwaith cymorth grant yn mynd yn sefydlog nac yn cael effaith andwyol ar ein sylfaen gostau strategol yn y dyfodol
- ein gallu i ddarparu buddsoddiad tymor byr a thymor hwy ar unwaith i'r sector cyn cynlluniau cymorth llywodraethol ehangach (fel benthyciadau busnes, ffyrlo etc.) a rhaglenni buddsoddi cymorth grant
- gallu a chydnerthedd o fewn y sector i ganiatáu i'r fath ymyriadau fod yn effeithiol
- cynllunio a gweithredu parhad busnes
- lles ac iechyd meddwl ein timau
- yr heriau a achosir gan yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol
- datblygu'r systemau rheoli buddsoddiadau newydd
- ymdrin ag ansicrwydd economaidd i'n prosiectau o ran costau, chwyddiant, cadwyni cyflenwi, etc
- ymdrin â risg wleidyddol ledled y DU

- rheoli'r effeithiau ar risgiau economaidd (chwyddiant, sefydlogrwydd cadwynau cyflenwi) etc ar draws ein portffolio buddsoddi
- sicrhau y defnyddir ein data a mewnwelediad er effaith optimaidd
- sicrhau ein bod yn cyflawni newidiadau diwylliannol ar draws y Gronfa i gefnogi'r newidiadau y mae'n rhaid i ni eu cyflwyno

Mae gan bob un o'r risgiau hyn berchennog risg ar lefel y Weithrediaeth sydd â'r dasg o reoli'r risg a sicrhau yr ymgymeryd â chamau lliniaru priodol. Credaf ein bod wedi rheoli'r risgiau hynny'n effeithiol trwy gydol 2021–22.

## Ymagwedd at risgiau twyll a gwybodaeth

Mae gan Ymddiriedolwyr CGDG bolisi twyll sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae holl staff CGDG yn ymgymryd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth Twyll, cafodd hyn ei adnewyddu ar gyfer staff allweddol yn 2021–22. Mae hyn yn canolbwyntio ar risgiau twyll wrth roi grantiau ac ymwybyddiaeth o dwyll yn gyffredinol.

Mae'r hyfforddiant yn adnabod meysydd sydd â risg o dwyll ar gyfer CGDG hefyd, sut y gellir adnabod y rhain a mynd i'r afael â nhw i ostwng y risg o dwyll.

Dros flynyddoedd diweddar rydym wedi gwella ymwybyddiaeth o risg a threfniadau cywain gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol a pharhaom â hyn y llynedd trwy rannu gwybodaeth yn well, cyfuno adnoddau ac ystyried defnyddio trydydd partion arbenigol i adnabod y risg o dwyll. Rydym yn parhau i adrodd pob achos posib o dwyll i'r heddlu ac yn cysylltu â nhw'n weithredol gyda'r fath achosion i sicrhau ymchwiliad effeithiol.

Yn 2019–20, bu i ni ymgymryd ystod y flwyddyn â gwaith arwyddocaol i adnewyddu ein gwaith yn y maes hwn ac i alinio â safon Swyddogaethol y Llywodraeth ar Dwyll (GovS013: Gwrth-dwyll). Rydym wedi gwella arweiniad a pholisi mewn meysydd megis:

- polisi a chynllun ymateb i dwyll, llwgrwobrwyfaeth a llygredigaeth
- strategaeth gwrth-dwyll
- asesiad o risg twll
- sicrwydd ar ôl y digwyddiad



- ein cynllun gweithredu blynyddol

Gwelwyd bod hyn wedi cael ei ymwreiddio ymhellach yn 2021–22. Fel y nodwyd y llynedd, bu i ni gydnabod a deall yng nghymau cynnar iawn yr argyfwng, y rheidrwydd gan lywodraethau ar draws y DU i sicrhau ymyriadau cynnar effeithiol ac yn enwedig buddsoddiadau arian parod i'r sectorau diwylliannol a threftadaeth ehangach. Rydym hefyd yn cydnabod yr awydd ehangach am risg y tu hwnt i'r Gronfa ac yn gweithio ochr yn ochr â DCMS, DEFRA ac ati i ddiwallu eu gofynion yn hyn o beth.

Fe wnaethom hefyd gydnabod ac rydym yn parhau i gydnabod y risg uwch o dwyll a chamgymeriad a grëwyd gan yr argyfwng COVID-19. Rydym wedi parhau i ddefnyddio ein trefniadau gwrth-dwyll cadarn presennol ac wedi adeiladu arnynt gydag offer a gwasanaethau newydd gan Swyddfa'r Cabinet.

Roedd pob rhaglen fuddsoddi (Loteri Genedlaethol neu gymorth grant) yn destun Asesiad Risg Twyll newydd neu wedi'i adnewyddu a gwblhawyd gan y Gronfa ac a ddilyswyd gan DCMS. Bu i bob rhaglen hefyd gynnal ei hadolygiad Sicrwydd Ar Ôl y Digwyddiad ei hun (wedi'i ddiweddarau fel y bo angen). Mae'r gwaith twyll ac ar ôl y digwyddiad wedi cael ei adolygu'n annibynnol drosom gan ein partneriaid archwilio mewnol yn BDO. Mae adborth gan DCMS a Swyddfa'r Cabinet ar ein gwaith wedi bod yn gadarnhaol ac wedi rhoi sicrwydd ychwanegol.

Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth hefyd sy'n cydymffurfio ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet a'r Fframwaith Polisi Diogelwch. Mae'r holl staff newydd yn derbyn arweiniad mewn diogeledd gwybodaeth, diogelu data a Rhyddid Gwybodaeth fel rhan o'u hymgynefino.

Ym mis Chwefror 2022 bu i ni dderbyn achrediad Cyber Security Plus unwaith eto.

### Modelau hollbwysig i fusnes

Rwy'n ystyried ein bod mewn cydymffurfriad â'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Macpherson, Rwy'n barnu ein bod yn defnyddio un model sy'n hanfodol i'r busnes – y rhagamcaniad llif arian a ddefnyddir i bennu cyllidebau grant blynyddol allan o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn anelu at sicrhau ein bod yn dyfarnu'r swm mwyaf posib o ran lefel y grantiau heb beri'r risg o redeg allan o arian parod neu or-estyn ein hunain. Crëwyd y model tua 10 mlynedd yn ôl ac

mae'n parhau'n bennaf ar ei ffurf wreiddiol ar wahân i estyn ei gylch bywyd. Mae'r model wedi cael ei ddefnyddio yn erbyn sefyllfaoedd o lefelau gwahanol o incwm gan y Loteri, cyfraniadau untro i'r Gemau Olympaidd, a rhaglenni grant arwyddocaol newydd ac rydym wedi gweld ei fod yn darparu rhagamcaniad rhesymol o'n cynladwyedd ariannol.

Fe wnaethom hefyd ddatblygu model llif arian parod atodol yn 2020–21 i helpu i gynllunio a rheoli risgiau llif arian parod a hylifedd y Loteri drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn wedi gweithio'n dda iawn ac wedi bod yn effeithiol wrth reoli risgiau ac rydym wedi defnyddio'r model atodol hwn yn 2021–22, rydym yn disgwyl sefyll hwn i lawr y flwyddyn nesaf wrth i'r risg busnes ddod i ben.

Yn 2014–15, ar sail y prif fodel, creodd y Bwrdd Fframwaith Ariannol a ddisgrifiodd gymarebau grantiau a fu'n gysylltiedig â'r cyfanswm lefel ymrwymadau, rhwymedigaethau cymeradwy gwirioneddol, incwm gan y Loteri Genedlaethol a'n balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG). Gan hynny rydym o'r gred bod y model a'r Fframwaith Ariannol yn darparu sail gadarn i ni dros roi grantiau. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r ymagwedd hon yn 2021–22 ac yn wir fe'i defnyddiwyd wrth fodelu ar gyfer ein sefyllfaoedd a thybiaethau cynllunio Incwm Loteri. Gwnaethom adolygu'r cymarebau allweddol yn 2021–22 ac addasu'r rhain ar gyfer y tymor hwy. Bydd y rhain yn parhau i fod o dan adolygiad.

### Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Y gweithgaredd mwyaf arwyddocaol i'r Bwrdd fu goruchwyllo ymateb y Gronfa i'r argyfwng parhaus o safbwynt y Loteri Genedlaethol a chymorth grant. Mae'r Bwrdd wedi derbyn diweddiadau manwl a rheolaidd ar bob ymyriad ac mae is-setiau o'r ymddiriedolwyr wedi gweithredu fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y rhaglenni a ariennir gan gymorth grant yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ni ddeilliodd unrhyw beth sy'n peri pryder o unrhyw un o'r pwyllgorau sy'n cefnogi'r Bwrdd. Roedd canfyddiadau adroddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd wedi'i fodloni ei fod yn parhau i gyflawni gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol Trysorlys EM.

Nid oedd unrhyw faterion gan yr archwilwyr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Bwrdd a barodd unrhyw destun pryder iddo. O ganlyniad i hyn, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar yr wybodaeth a sicrwydd a ddarperir gan reolwyr o ran y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

Mae pob ymddiriedolwr a benodir o'r newydd yn derbyn ymgynffwrdd ar adeg eu penodiad sy'n disgrifio eu rhwymedigaethau a dyletswyddau fel ymddiriedolwr, gwaith CGDG a'i systemau/prosesau, gan helpu nhw i wneud cyfraniad llawn at weithrediad y Bwrdd. Parheir â'r rhaglen ymgynffwrdd ffurfiol hon trwy'r raglen barhaus o ddiwyddiadau a chyfleoedd hyfforddiant eraill i ymddiriedolwyr. Arfarnir effeithiolrwydd ymddiriedolwyr gan y cadeirydd ar sail reolaidd. Mae perfformiad y Cadeirydd yn cael ei oruchwylio ar hyn o bryd gan yr uwch ymddiriedolwr annibynnol.

## Y flwyddyn lywodraethu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol. Cyfeirir fy adolygiad gan waith yr archwilwyr mewnol (BDO) ac uwch reolwyr o fewn CGDG sy'n gyfrifol am sicrhau cynnal a chadw a gweithredu'r fframwaith rheoli mewnol yn effeithiol ochr yn ochr â sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Pennir cytundebau perfformiad i'r holl staff ar ddechrau'r flwyddyn sy'n disgrifio eu hamcanion personol a chorfforaethol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhain wedi'u cysylltu â'r Cynllun Busnes a'n strategaeth. Adolygir y rhain yn ffurfiol mewn adolygiadau hanner ffordd trwy'r flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn. Rwy'n cynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda chyfarwyddwyr gweithredol ar sail un i un trwy gydol y flwyddyn hefyd. Fel a nodwyd, mae'r Weithrediaeth a thimau'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad yn cwrdd yn rheolaidd.

Rwyf wedi gweld y Llythyr Rheoli a baratowyd gan yr archwilwyr allanol gan ddilyn eu hadolygiad o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

O ganlyniad i'w rhaglen waith mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu barn a thystysgrif sicrwydd flynyddol mewn perthynas â digonolrwydd systemau a gweithrediad mesurau rheoli mewnol CGDG. Mae'r farn hon yn ardystio bod system ddigonol ac effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn bodoli i ymdrin â'r risg na chaiff amcanion rheolwyr eu cyflawni'n llawn.

Wrth gael eu penodi, cynhyrchodd yr archwilwyr mewnol strategaeth archwilio gyffredinol. Y

llynedd oedd trydedd flwyddyn y cyfnod hwn a chyflawnwyd a chwblhawyd pob adolygiad cynlluniedig ar amser. Tynnir y cynllun blynyddol allan o'r strategaeth archwilio ac fe'i cysylltir i mewn i'r gofrestr risgiau a'r awydd am risg.

Gyda BDO fe gyflwynom gyfarfodydd cyswllt chwarterol newydd gyda'r archwilwyr mewnol i helpu monitro cynnydd yn erbyn y cynllun ac ailgyfeirio adnoddau i risgiau sy'n dechrau dod i'r amlwg. Parhawyd i ddefnyddio'r rhain i fonitro cynnydd a chyflawniadau'r rhaglen. Cyflwynwyd mesurau rheoli newydd rai blynyddoedd yn ôl hefyd i wella atebolrwydd ar adolygiadau archwilio a gweithredu argymhellion archwilio mewnol. Parhawyd â'r rhain yn 2021–22 ac mae'r argymhellion a oedd i fod i gael eu gweithredu yn 2021–22 wedi'u rhoi ar waith yn foddhaol neu mae rheswm dilys dros oedi sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Trafodir holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg gydag aelodau staff uwch yn bresennol, gan gynnwys y rhai yr adroddwyd ar eu hadrannau – mae hyn yn rhoi cyfle i mi a'r Pwyllgor drafod y canfyddiadau, argymhellion a chymau gweithredu arfaethedig i reolwyr yn fanwl. Pan dderbynnir argymhellion i wella neu gywiro, bu'n rhaid i gyfarwyddwyr ddarparu ymateb gweithredu ac amserlen ar gyfer pob argymhelliad hefyd. Mae gweithrediad yr argymhellion hyn yn cael ei dracio a'i fonitro gan yr Adran Gwasanaethau Busnes a'r archwilwyr mewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried bod y rhestr reoli honno'n eitem sefydlog hefyd.

Cyflwynwyd ein Cod Ymddygiad newydd i staff a chontractwyr yn 2018, gan gynnwys meysydd fel:


- egwyddorion gwasanaeth mewn bywyd cyhoeddus
- gwrthdaro buddiannau
- rhoddion a lletygarwch
- datgelu camarfer

Hysbyswyd yr holl staff am y Côt ac fe'i rhoddwyd ar ein mewnwrwyd. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi adnewyddu'r arweiniad ar wrthdaro o fewn y cod a'r flwyddyn nesaf byddwn yn diweddarau pob rhan o'r cod. Fe wnaethom hefyd adnewyddu ein Polisi Datgelu Camarfer yn y flwyddyn. Fel y nodwyd uchod, cyflwynwyd Llythyr Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol – sy'n disgrifio eu hawdurdodau

dirprwyedig (cyllid, caffael etc.) i'w gytuno ar ddechrau'r flwyddyn i ategu'r memorandwm ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r cylch hwn wedi'i gwblhau yn 2021–22.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli'r Gronfa'n darparu'r lefel sicrwydd i mi sy'n ofynnol gennyf. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n peri i mi gredu nad yw ein prosesau ar gyfer datgelu ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a datgelu twyll ac ar gyfer isafu colledion cymorth grant a grantiau Loteri yn effeithiol.

Yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin rydym wedi sicrhau nad oes gennym unrhyw risgiau i'n cadwyni cyflenwi a bod ein buddsoddiadau (gwaddol) yn cydymffurfio â pholisïau Llywodraeth y DU ar Rwsia ac yn cydymffurfio â'r trefniadau sancsiynau.



**Eilish McGuinness**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

13 Gorffennaf 2022

## Adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

### Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr

Roedd gan bob ymddiriedolwr hawl i dderbyn cyflog blynyddol am yr amser a dreuliodd ar weithgareddau'r Gronfa. At hynny, mae'r Gronfa'n ad-dalu treuliau teithio ymddiriedolwyr penodol wrth iddynt deithio o'u cartrefi i'w swyddfa gyflogaeth yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast – er, roedd y swyddfeydd ar gau am rannau o 2021–22. Darparodd y Gronfa brydau bwyd i ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau gwlad ac ardal hefyd pan gynhaliwyd cyfarfodydd yn eu manau cyflogaeth. Y Gronfa fu'n atebol am y rhwymedigaeth dreth ar y treuliau hyn.

Argymhellodd ein Hadolygiad Llywodraethu yn 2019 newidiadau i'n taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer ymddiriedolwyr ac aelodau ar ein pwyllgorau gwlad ac ardal. Roedd hyn er mwyn gwella pa mor atyniadol oedd y rolau, i gefnogi ein hymgyrch i arallgyfeirio cyfansoddiad ein Bwrdd a'n pwyllgorau ac i gysoni'r tâl cydnabyddiaeth â rolau cyfatebol mewn Cyrff Hyd Braich eraill. Yn 2020, fe wnaeth DCMS hefyd gytuno i newidiadau i dâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr. Parhaodd yr holl drefniadau hyn drwy gydol 2021–22.

Mae tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth arnynt, yn cyfateb i'r amrediadau yn y tabl isod. Penodir yr holl ymddiriedolwyr gan y Prif Weinidog.

Penodir Ymddiriedolwyr am dair blynedd, gyda'r potensial o'u hadnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaeth y Gronfa unrhyw gyfraniadau i gynllun pensiwn ar ran yr ymddiriedolwyr.

### Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Dyrannwyd tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar sail 1%:99%. Y cyfanswm tâl cydnabyddiaeth i ymddiriedolwyr yn 2021–22 oedd £154,418 (2020–21:£110,468). Trafodir a phennir tâl a chontractau ymddiriedolwyr gan DCMS. Nid yw eu contractau'n cynnwys unrhyw gymalau bonws. Ni thalwyd unrhyw fuddiannau mewn da neu elfennau anariannol i ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr gweithredol.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

## Tâl cydnabyddiaeth cyflogeion (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Disgrifir tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn y ddau dabl isod.

	Cyflog 2021-22 £'000	Cyflog 2020-21 £'000	Buddiannau pensiwn a gronnyd yn ystod 2021-22 £'000	Buddiannau pensiwn a gronnyd yn ystod 2020-21 £'000	Cyfanswm 2021-22 £'000	Cyfanswm 2020-21 £'000
Ros Kerslake CBE Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu tan 31 Rhagfyr 2021	<b>110-115*</b>	145-150	<b>44</b>	57	<b>150-155</b>	200-205
Eilish McGuinness Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu o 1 Ionawr 2022 Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes tan 31 Rhagfyr 2021	<b>115-120</b>	115-120	<b>92</b>	54	<b>205-210</b>	170-175
Colin Bailey Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes	<b>110-115</b>	120-125	<b>41</b>	45	<b>150-155</b>	165-170
Isabel Hunt Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes	<b>120-125</b>	125-130	<b>47</b>	47	<b>165-170</b>	170-175
Anne Jenkins Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes o 10 Ionawr 2022	<b>20-25**</b>	0	<b>61</b>	0	<b>80-85</b>	0

\* Roedd swm cyfwerth blwyddyn lawn cyflog Ros Kerslake yn 2021-22 yn yr amrediad £145,000 i £150,000

\*\*Roedd swm cyfwerth blwyddyn lawn cyflog Anne Jenkin yn 2021-22 yn yr amrediad £105,000 i £110,000

	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfundaliad £'000	Cyfanswm pensiwn cronedig ar oedran pensiynadwy a chyfundaliad £'000	Gwerth Trosglwyddo Cywerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/03/22 £'000	CETV ar 31/03/21 £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV a ariennir gan CGDG £'000
Ros Kerslake CBE Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu tan 31 Rhagfyr 2021	2.5-5	15-20	<b>317</b>	277	36
Eilish McGuinness Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu o 1 Ionawr 2022 Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes tan 31 Rhagfyr 2021	2.5-5 a chyfundaliad 5-7.5	45-50 a chyfundaliad 130-135	<b>1,096</b>	958	77
Colin Bailey Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes	0-2.5	15-20	<b>288</b>	243	25
Isabel Hunt Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes	2.5-5	5-10	<b>92</b>	53	29
Anne Jenkins Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes o 10 Ionawr 2022	2.5-5 a chyfundaliad 5-7.5	35-40 a chyfundaliad 80-85	<b>775</b>	712	57

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl ymadael â'r cynllun fel aelod gweithredol os ydynt eisoes ar oedran pensiwn neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos a 65 neu'r oedran pensiwn gwladol p'un bynnag sydd uchaf ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer cyfarwyddwyr yn dangos pensiwn a enillir yn PGPGS neu alpha fel y bo'n briodol. Pan fydd gan y cyfarwyddwr fuddiannau mewn PGPGS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunedig ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond dylid nodi y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedranau gwahanol.

Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr	2021–22 £'000	2020–21 £'000
René Olivier Cadeirydd Dros Dro o 1 Ionawr 2020 i 31 Mawrth 2021	0	5–10
Dr Simon Thurley Cadeirydd o 1 Ebrill 2021	40–45	0
Maria Adebowale-Schwarte	10–15	5–10
Y Farwnes Kay Andrews OBE	20–25	20–25
Jim Dixon tan 30 Mehefin 2021	0–5	5–10
Dr Claire Feehily	15–20	5–10
Sarah Flannigan tan 15 Mai 2021	0–5	5–10
Perdita Hunt OBE DL tan 21 Ebrill 2021	0–5	5–10
Ray Macfarlane	20–25	20–25
Mukesh Sharma MBE DL	20–25	10–15
Dr David Stocker	10–15	5–10

Ni thalwyd unrhyw fonysau i uwch reolwyr yn y flwyddyn dan sylw nag yn y flwyddyn gymharol.

### Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV)

CETV yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn a aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y buddiannau a brisiwyd yw buddiannau cronedig yr aelod a phensiwn unrhyw briod dibynnol a delir o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniad pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniad pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi'n unig.

Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib mewn budd-daliadau o ganlyniad i dreth lwfans gydol oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddiannau pensiwn.

### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan yr holl staff uwch gontractau cyflogaeth parhaol ac roeddent oll yn aelodau cyffredin Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) neu alpha. Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a CGDG ar sail 99%:1% (2020–21: 99%:1%).

### Cymhareb tâl cydnabyddiaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Un o ddeilliannau Adolygiad Tâl Teg Hutton yw ei fod yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol sydd â'r tâl uchaf (gan gynnwys y Prif Weithredwr) a thâl cydnabyddiaeth canolrif ein gweithlu.

Roedd band tâl cydnabyddiaeth blyneddol y cyfarwyddwr gweithredol ar y cyflog uchaf yn 2021–22 yn £145,000 i £150,000 ac yn 2020–21 roedd yn £145,000 i £150,000. Roedd hyn tua 4.5 gwaith (2020–21: 4 gwaith) tâl cydnabyddiaeth canolrif y gweithlu, sef £31,126 (2020–21: £36,828). Nid oedd unrhyw gyflogeion a dderbyniodd dâl cydnabyddiaeth uwch na'r cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl uchaf. Amrywiodd tâl cydnabyddiaeth o £5,800 i amrediad o £145,000 i £150,000 (2020–21: £18,180 i amrediad o £145,000– £150,000).

Yn unol â'r cylch gwaith cyflogau, derbyniodd pob cydweithiwr oedd yn ennill llai na £24,000 y flwyddyn ddyfarniad o £250 eleni. Roedd hyn wedi'i gyfuno a'i ychwanegu at eu cyflog arferol.

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tal ar sail perfformiad anghyfunedig a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Mae'n ofynnol hefyd i ni ddatgelu cymhareb cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr o'i gymharu â 25ain, 50ain a 75ain canradd tâl cyfwerth ag amser llawn staff. Datgelir yr wybodaeth hon isod.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

	£	Cymhareb
25ain canradd	<b>41,265</b>	<b>3.4</b>
50ain canradd	<b>31,126</b>	<b>4.5</b>
75ain canradd	<b>23,551</b>	<b>5.9</b>

## Pecynnau ymadael (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Yn unol â gofynion Swyddfa'r Cabinet, mae'n ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi manylion pob pecyn ymadael a gytunwyd yn y flwyddyn ariannol dan sylw. Yr hyn sy'n dod o dan ddiffiniad pecynnau ymadael yw diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeol yn gynnar, iawndal am golli swydd a thaliadau ex-gratia.

Ni thalodd y Gronfa unrhyw becynnau o'r fath yn 2021–22 (2020–21: dim byd).

## Costau a niferoedd staff (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

	2021–22 £'000	2020–21 £'000
Cyflogau	<b>10,300</b>	8,323
Taliadau YG y Cyflogwr	<b>1,006</b>	736
Taliadau i'r cynllun pensiwn	<b>2,693</b>	2,168
Costau staff dros dro	<b>187</b>	360
	<b>14,186</b>	11,587

Oherwydd y ffordd y mae ein systemau'n gweithredu, ni allwn ddarparu dadansoddiad o gostau rhwng staff ar contractau parhaol a'r rhai ar contractau cyfnod penodol.

Mae nifer cyfartalog y cyflogeion a fu'n gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel a ganlyn:

2021–22	Cyflwyno Busnes	Gwasanaethau Busnes	Arloesedd Busnes	Cyfanswm
Staff parhaol	<b>154</b>	<b>40</b>	<b>40</b>	<b>234</b>
Secondeion, staff contract a phrentisiaid	<b>21</b>	<b>15</b>	<b>7</b>	<b>42</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>175</b>	<b>55</b>	<b>47</b>	<b>276</b>

2020–21	Cyflwyno Busnes	Gwasanaethau Busnes	Arloesedd Busnes	Cyfanswm
Staff parhaol	105	48	38	191
Secondeion, staff contract a phrentisiaid 17	2	1	20	
<b>Cyfanswm</b>	122	50	39	211

Nid yw staff dros dro ac asiantaeth wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod gan nad yw ein systemau'n caniatáu cywain a chyfrifo ffigur cyfwerth ag amser llawn.

## Pensiynau

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. O fis Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrra gydag oedran pensiwn sy'n cyfateb i oedran pensiwn gwladol yr aelod (neu 65 oed os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil newydd ei benodi a'r mwyafrif o'r rhai a fu eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, cymerodd gweision sifil ran mewn PGPGS, sydd â phedair adran: tri sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium a classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail gyrra gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, telir costau'r buddiannau gan gyllid a bleidleisir gan senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn codi'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Parhaodd aelodau presennol PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i fod yn rhan o PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai yr oeddent rhwng 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddiannau'r holl aelodau sy'n newid i PGPGS yn cael eu bancio, a bydd y rhai sydd â buddiannau cynharach mewn un o adrannau cyflog terfynol PGPGS yn gweld bod y buddiannau hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniad buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad prynu arian gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% o enillion pensiynadwy yn achos aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premiwm yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic,

nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas mae Classic Plus yn gynllun cymysg, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelodau'n cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillir yr aelod yn cael ei gredu gyda 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau.

Mae buddiannau mewn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos ond mae'r gyfradd gronni'n 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniad pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £27,779 (2020–21: £19,275) i banel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae CGDG yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Yn ystod 2018–19, lleihawyd y panel i un cyflenwr, Legal & General.

Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ar hyn o bryd mae pedwar aelod staff yn gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol sydd â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ar gael yn [www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk). Er eu bod yn gynlluniau buddiant diffiniedig, mae atebolrwydd am dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar PGPGS neu alpha. Mae adrannau, asiantaethau a chyrrff eraill sy'n dod o dan PGPGS ac alpha yn talu cost y pensiwn a ddarperir ar gyfer y staff y maent yn eu cyflogi ar ffurf taliadau a gyfrifir ar sail gronedig. Ar gyfer 2021–22, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £2,665,564 (2020–21: £2,148,789), ac

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu


eithrio symiau a dalwyd i gynlluniau pensiwn partneriaeth, i PGPGS ac alpha ar y cyfraddau a ddisgrifir fel a ganlyn:

Cyflog yn 2021–22	% yn 2021–22
£23,000 a llai	26.6%
£23,001–£45,500	27.1%
£45,501–£77,000	27.9%
£77,001 ac yn uwch	30.3%

## Rheoli absenoldeb

Gostyngodd lefelau absenoldeb salwch ar draws y Gronfa i 2.1% yn y flwyddyn. Mae hyn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ac yn parhau i fod yn is na meincnod tebyg ar gyfer sector cyhoeddus y DU o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

## Lefelau absenoldeb



Y lefel meincnod DU a ddyfynnir yn y siart uchod yw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Sifil a gymerwyd o Swyddfa Ystadegau Gwladol Llywodraeth y DU.

Gellid priodoli rhan o'r cynnydd hwn i nifer fach o absenoldebau hirdymor ac mae rhan hefyd i'w phriodoli i heintiau o donau COVID-19 yn ogystal ag achosion afiechyd cyffredinol.

Fel rhan o'n hymateb i'r argyfwng Covid fe wnaethom gyflwyno rhaglen iechyd meddwl a lles gynhwysfawr i staff, ac roedd hyn yn parhau yn 2021–22 fel y gwnaeth darparu brechiadau fflwi i'r holl staff, a oedd hefyd yn cael eu hannog i gymryd y brechiadau a pigladau atgyfnerthu COVID-19.

## Ennyn diddordeb cyflogeion ac ymgynghori â nhw

Rydym yn parhau i ddarparu gwybodaeth i'n staff yn rheolaidd a'u cynnwys mewn trafodaethau ar ein cyfeiriad strategol a materion gweithredol. Mae'r holl staff yn derbyn crynodebau newyddion dyddiol, cylchlythyron wythnosol ac erthyglau ar y mewnwrwyd i ddiweddarau nhw ac mae gennym grwpiau trafod bywiog a phoblogaidd ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Gronfa'n cwrdd yn ffurfiol bob mis gyda'n partneriaid undeb llafur (FDA a PCS) hefyd. Mae rhagor o wybodaeth am ein gweithgarwch undebau llafur yn yr adran 'Rheoliadau'r Undeb Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017'.

Rydym wedi parhau i gynnal Arolygon Gwirio-i-Mewn drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod staff yn gallu rhoi adborth ar ein hymateb i'r pandemig, gan sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt a chefnogaeth gan reolwyr.

Roedd gan y rhain gyfraddau cyfranogiad cryf ac roedd yr adborth gan y staff yn gadarnhaol iawn o ran y gefnogaeth a help oedd ar gael. Dewison ni beidio â chynnal arolwg llawn yn y flwyddyn oherwydd yr argyfwng, a byddwn yn hytrach yn rhedeg hynny eto yn haf 2022.

At hynny, rydym wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd Holl Staff, a gynhelir yn rhithwir, drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion busnes, ein rhaglenni grantiau a'n hymatebion allanol a mewnol i'r argyfwng. Bu i nifer fawr o staff fynychu'r rhain; i gyd-fynd â'r cyfarfodydd hyn, bu i ni gynnal holiaduron agored hefyd er mwyn i staff ofyn cwestiynau neu godi materion o flaen ac yn y cyfarfodydd staff. Mae'r rhain wedi profi'n llwyddiannus.

## Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017

O dan yr offeryn statudol hwn, mae'n ofynnol i ni ddatgelu gwybodaeth am amser cyfleuster undebau llafur a gwariant perthnasol cyflogeion ar gyfer y flwyddyn 2021–22. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys ein gweithgareddau cymorth grant a dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.



## Amser Cyfleuster Undebau Llafur

Mae'r Gronfa'n cydnabod dau Undeb Llafur, PCS a FDA, y mae'n cynnal cyfarfodydd chwarterol ffurfiol a chyfarfodydd misol anffurfiol â nhw. Rydym yn credu mewn gwaith partneriaeth ac yn cefnogi aelodaeth o Undebau Llafur. Mae'r holl gynrychiolwyr Undeb Llafur yn chwarae rolau gwerthfawr yn y gweithle ac mae ganddynt hawl statudol i amser rhesymol i ffwrdd â thâl yn ystod oriau gwaith arferol i gwblhau dyletswyddau undeb, yn unol â'u rôl yn yr Undeb Llafur ac i ymgymryd â gweithgareddau Undeb Llafur. Mae'n ofyniad statudol arnom hefyd i ddatgelu gwybodaeth am Amser Cyfleuster Undebau Llafur a gwariant perthnasol.

## Cynrychiolwyr undeb llafur a chyfwerth ag amser llawn

	Nifer y cynrychiolwyr
Cynrychiolwyr undeb llafur	<b>18</b>
Cynrychiolwyr undeb llafur CaALI	<b>16.21</b>

## Canran o oriau gwaith a dreuliwyd ar amser cyfleuster

Canran o oriau gwaith	Nifer y cynrychiolwyr
0%	<b>0</b>
1–50%	<b>18</b>
51%–99%	<b>0</b>
100%	<b>0</b>

## Cyfanswm bil tâl a chostau amser cyfleuster

Cyfanswm cost yr amser cyfleuster	£26,065
Cyfanswm bil tâl	£14,236,727
Canran y tâl a dreuliwyd ar amser cyfleuster	<b>0.18%</b>

## Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Oriau a dreuliwyd ar amser cyfleuster â thâl	1,043
Canran y cyfanswm amser cyfleuster â thâl a dreuliwyd ar weithgareddau ULI â thâl	<b>7.0%</b>

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth a monitro cyflogaeth

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad (EDI) yn rhan annatod o'n gwaith o roi grantiau ac yn greiddiol i'n llywodraethu a'n gweithlu. Maent hefyd yn greiddiol i'n gwerthoedd ac i'n hymddygiad.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom barhau i gyflwyno a gweithredu ein Cynllun Gweithredu Amrywiaeth y Gweithlu a luniwyd gennym yn 2019–20 a hefyd ein Cynllun Gweithredu Anabledd parhaus.

Fel rhan o'i hymrwymiad i EDI, mae'r Gronfa'n croesawu ac yn hyrwyddo ceisiadau am rolau gan bobl sydd ag anabledd. Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac yn hyrwyddo hyn yn ein pyrth a'n deunyddiau recriwtio. Gwnaethom gynnal ein fframweithiau, polisiau a gweithdrefnau recriwtio ar ddiwedd 2020–21 ac roedd y rhain yn adlewyrchu ein hymrwymiad EDI ehangach gan gynnwys ymrwymiad i ymgeiswyr a chydweithwyr anabl. Rydym yn gwneud addasiadau rhesymol i bob ymgeisydd yn y cyfweiliad ac yn y broses ddethol.

I ymgeiswyr sy'n llwyddiannus ac yn ymuno â ni a hefyd i weithwyr presennol, rydym yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer gweithio yn y Gronfa gan gynnwys y rolau, amgylchedd gwaith, addasiadau arbenigol etc. Mae'r Gronfa yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

At hynny, mae'r Gronfa hefyd yn defnyddio system atgyfeirio iechyd galwedigaethol arbenigol a chontractwr arbenigol i ddarparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth fanwl i bob aelod o staff. Yn ogystal, mae'r Gronfa hefyd yn darparu Rhaglen Cymorth i Weithwyr sydd ar gael i'r holl staff 365 diwrnod y flwyddyn, 24 awr y dydd. Mae'r Gronfa wedi bod yn ymwybodol iawn o'r heriau i iechyd meddwl a lles staff drwy gydol yr argyfwng COVID-19 a pheryglon 'anableddau cudd' fel y'u gelwir.


Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom barhau â'n partneriaeth â Leonard Cheshire yn eu rhaglen Change 100. Change 100 yw eu rhaglen flaenllaw o leoliadau gwaith haf â thâl, datblygu proffesiynol a mentora. Ei nod yw dileu'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu profi yn y gweithle, er mwyn iddynt gyflawni eu potensial.

Parhawyd â'n partneriaeth strategol â Chymrodoriaeth Windsor a chrëwyd mwy o swyddi i raddedigion weithio gyda ni am flwyddyn a datblygu cyfleoedd gyrfa mewn treftadaeth. Dechreuodd ein hail garfan o gymrodorion yn y flwyddyn.


Bu i ni ffurfio partneriaeth gyda 2027 yn Yr Alban hefyd. Dyma raglen sy'n para am flwyddyn gyda rolau ar gyflog llawn a datblygiad proffesiynol cyflogedig i helpu pobl o gefndiroedd amrywiol i ddechrau gyrfa gyda sefydliadau sy'n rhoi grantiau.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu


## Amrywiaeth ethnig: Staff BAME yn y gweithlu




## Amrywiaeth o ran rhywedd: Menywod yn y gweithlu



## Amrywiaeth o ran anabledd: Anabledd yn y gweithlu



## Amrywiaeth o ran tueddfryd rhywiol: LHDTC+ yn y gweithlu



Mae'r ffigurau Meincnod DU a ddyfynnir yn y siartiau uchod yn lefelau cenedlaethol sy'n allanol i'r Gronfa. Mae'r data wedi'i gymryd o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a ffynonellau tebyg eraill.

Gwerth	Ffocws Amrywiaeth y Gweithlu
<b>Cynhwysol:</b> o bob agwedd ar dreftadaeth a buddiannau'r holl bobl a chymunedau	Rydym yn dathlu ein hamgylchedd gwaith cynhwysol sy'n hyrwyddo treftadaeth, tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn cydnabod bod angen gefeillio ein nodau allanol i sbarduno cynhwysiad mewn treftadaeth gyda chamau mewnol i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu.
<b>Uchelgeisiol:</b> ac yn fentrus ar gyfer ein pobl, ein cymunedau a'n sector	Rydym yn cydnabod yr angen am gamau a strategaethau newydd a rhagweithiol i wella amrywiaeth ein gweithlu yn y dyfodol – gan edrych yn allanol drwy ailffocysu camau recriwtio ond hefyd yn fewnol trwy reoli doniau a chynllunio olyniaeth.
<b>Cydweithredol:</b> trwy weithio mewn partneriaethau a dysgu ganddynt	Rydym yn cydnabod pŵer harneisio gweithlu amrywiol sy'n gweithio ar y cyd tuag at ein nodau craidd. Rydym yn gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol a chyfraniadau pawb a gyda'n gilydd rydym yn gryfach o'i herwydd.
<b>Ymddiriedir ynom:</b> am ein cyfanrwydd, ein barn a'n harbenigedd	Mae'n hanfodol bod ein pobl, cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn ymddiried yn ein gweledigaeth a phrosesau. Rydym yn cefnogi tegwch, urddas a pharch i bawb. Rydym yn deall bod yn rhaid i recriwtio, datblygu gyrfa, dysgu a chefnogaeth fod yn deg ac yn wrthrychol.

Fe wnaethom hefyd lansio Grwpiau Rhwydwaith Staff yn 2021–22 ar gyfer amrywiaeth o staff sydd â gwahanol ddiddordebau ym maes amrywiaeth, mae pob un o'r rhain wedi'i noddi gan uwch arweinydd o bob rhan o'r Gronfa.

Rydym hefyd yn cydnabod y gallwn fod yn well yn y maes hwn hefyd fel rhan o weithgareddau parhaus.

## Dadansoddiad amrywiaeth y gweithlu

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y siartiau uchod yn dangos darlun amrywiaeth ein gweithlu ar draws y Gronfa, gan edrych trwy lensys ar wahân ar gyfer ethnigrwydd, tueddfryd rhywiol ac anabledd. Dangosir data meincnod cymharol hefyd (yn seiliedig ar lefelau poblogaeth weithio'r DU).

Rydym yn parhau i gydnabod nad yw ein gweithlu mor amrywiol mewn rhai meysydd o'i gymharu â lefelau cenedlaethol ac yn cydnabod bod rhai grwpiau staff sydd wedi'u tangynrychioli. Rydym hefyd yn cydnabod tueddiadau a rhwystrau ehangach i fynediad i'r sector treftadaeth, boed anymwybodol neu ymwybodol, y maent oll yn effeithio ar siâp ein gweithlu. O ganlyniad, rydym wedi parhau i wella ein system gwybodaeth rheoli Adnoddau Dynol i gynorthwyo yn y gwaith hwn a chaniatáu mynediad uniongyrchol i staff at eu data personol i annog datgelu gwybodaeth yn llawn.

Rydym wedi parhau gyda'n prosesau a'n system recriwtio newydd yn seiliedig ar ein gwerthoedd a'r polisi cysylltiedig i gefnogi hyn, gyda chanllawiau newydd ar ymwreiddio EDI yn ein recriwtio yn enwedig sianeli recriwtio.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar weithio tuag at ein chwe nod craidd:

**Nod 1:** Gwella amrywiaeth mewn recriwtio

**Nod 2:** Gwella rheoli amrywiaeth y gweithlu

**Nod 3:** Gwella datblygiad gyrfaoel staff a dangynrychiolir

**Nod 4:** Gwella cynhwysiad trwy wella cefnogaeth i staff

**Nod 5:** Gwella amrywiaeth trwy brentisiaethau a lleoliadau gwaith

**Nod 6:** Gwella llywodraethu amrywiaeth yn y gweithlu

Mae'r Gronfa'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'n dyletswyddau statudol o dan Adran 75

Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Rydym yn parhau i ddal y wobr Hyderus o ran Anabledd ar gyfer recriwtio.

## Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Newidiodd yr argyfwng COVID-19 ein hymagwedd at iechyd a diogelwch yn arwyddocaol trwy gydol y flwyddyn. Ein prif amcan oedd cadw ein holl staff yn ddiogel. Yn ffodus, rydym wedi parhau i weld lefelau cymharol gymedrol o'r haint ar draws y Gronfa. Trwy gydol y flwyddyn, bu i ni ddarparu diweddariadau a chwestiynau cyffredin i staff yn unol â'r arweiniad iechyd cyhoeddus a oedd yn berthnasol ar draws pob rhan o'r DU, ac adnewyddwyd hyn yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Bu i ni ddarparu deunyddiau cymorth ychwanegol i reolwyr llinell i helpu i ofalu am eu timau a pharhawyd â thros 30 o fentrau iechyd meddwl a lles i staff yn ystod y flwyddyn.

Ail-agorodd swyddfeydd y Gronfa yn haf 2021, a gwelsom ddychweliad fesul cam yn nifer y staff a fu'n gweithio mewn swyddfeydd a gweithleoedd tan y gaeaf. Ataliwyd hyn gan yr achosion o Omicron dros ran o'r gaeaf a'r rheoliadau iechyd cyhoeddus a weithredwyd yn eu sgil. Wedi hynny rydym wedi codi'r holl gyfyngiadau ar gyfer ein swyddfeydd ac mae ein staff wedi aildechrau dychwelyd i swyddfeydd a gweithleoedd. Parhawyd i gwrdd â gofynion DSE ar gyfer yr holl staff sydd wedi gweithio gartref yn ystod y flwyddyn gan gynnwys hyfforddiant parhaus.

Bu i'r Gronfa hefyd ddarparu brechiadau fflw i'r holl staff fel rhan o'n hymrwymiad i les ac iechyd ehangach.

## Rheoli cyfalaf dynol

Mae gan y Gronfa bolisi cytunedig gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig. Mae gwobrwyo a chydabyddiaeth am faterion cyflog yn gweithredu o fewn y fframwaith hwnnw. Roedd y dyfarniad cyflog ar gyfer 2021 hefyd yn cydymffurfio â Chylch Gwaith Cyflog y Gwasanaeth Sifil perthnasol ar gyfer y flwyddyn honno ac fe'i cymeradwywyd gan ein hadran noddi, DCMS. Datblygodd y Gronfa fframwaith rheoli perfformiad newydd i'r holl staff yn 2020–21 a pharhaodd hyn drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf.

At hynny, parhaodd y Gronfa hefyd i gyflwyno ein Strategaeth Datblygu'r Gweithlu ar gyfer yr holl

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

staff, rheolwyr llinell ac arweinwyr yn y flwyddyn, a dechreuwyd ei chyflwyno yn 2020–21; gan gynnwys 108 o sesiynau hyfforddi a gynigiwyd dros 65 diwrnod gwaith gyda thros 1,240 o fynychwyr yn y digwyddiadau hynny. Cynhaliwyd pum digwyddiad ymgynefino corfforaethol gyda sgôr asesu o 100% gan fynychwyr y digwyddiadau hynny, a ddywedodd eu bod yn 'ddefnyddiol iawn' neu'n 'ddefnyddiol'. Manteisiodd staff o 16 o fodiwlau dysgu 'learning bite' hefyd.

## Trosiant staff

Yn 2021–22 bu i 54 o staff adael y Gronfa; mae hyn ychydig dros 16% o'n lefelau staffio cyfartalog yn ystod y flwyddyn. Mae'r gyfradd hon o drosiant yn uwch na'r cyfartaledd tymor hwy o tua 15% ac mae'n adlewyrchu'r lefelau uwch o staffio drwy'r flwyddyn oherwydd y staff ychwanegol a gyflogwyd i ymdrin â'n gwaith cymorth grant, yr oedd llawer ohonynt ar gontractau cyfnod penodol.

Roedd yr ymadawiadau cyfatebol yn 2020–21 yn 26 (9%) – roedd hynny'n cynrychioli ffigwr is na'r arfer oherwydd yr argyfwng COVID-19. Mae'r Gronfa yn cydnabod y cydbwysedd rhwng cyfraddau cadw staff iach a dod â doniau a phobl newydd i mewn i'r Gronfa.

## Gwariant ar ymgynghoriaeth

Gwariodd CGDG £96,000 ar ymgynghorwyr yn 2021–22 (2020–21: £447,000) fel rhan o'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae CGDG wedi defnyddio'r diffiniadau o ymgynghoriaeth fel y'u ceir yn y fersiwn ddiweddaraf o Fesurau Rheoli Gwariant a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet.

## Datgelu camarfer

Mae gan y Gronfa Bolisi Datgelu Camarfer clir a hygyrch sydd wedi'i ddylunio i alluogi staff i godi pryderon a datgelu gwybodaeth y mae'r unigolyn yn tybio ei bod yn dangos camarfer neu amhriodoldeb. Mae hyn yn cynnwys materion sydd er lles y cyhoedd ac yn cynnwys y materion (anghynhwysol) a ganlyn:

- camarfer neu amhriodoldeb neu dwyll o ran cyllid
- methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth neu statudau cyfreithiol

- peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd
- gweithgarwch troseddol
- ymddygiad amhriodol neu anfoesegol
- ymgeisiau i guddio unrhyw un o'r uchod

Doedd dim achosion o ddatgelu camarfer yn y flwyddyn.


## Trefniadau treth cyflogeion sector cyhoeddus

Mae Trysorlys EM yn mynnu bod yr holl gyrff llywodraeth ganolog yn adrodd ar statws treth uwch reolwyr a chontractwyr tymor hir. Yn benodol mae Trysorlys EM yn mynnu bod yr holl uwch reolwyr ar y gyflogres ac yn talu treth o dan y cynllun PAYE.

Mae'r holl staff uwch, ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor gwlad ac ardal ar gyflogres CGDG ac felly yn talu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol trwy'r llwybr PAYE. Mae'r Gronfa'n cydymffurfio â gofynion IR35. Mae'r holl weithwyr ar y gyflogres ac eithrio staff a gyflogir yn uniongyrchol trwy asiantaethau; wedi'u secondio dros dro i'r Gronfa a'u talu trwy gyflogres eu cyflogwr; neu mewn nifer bach iawn o achosion fel contractwyr unigol sydd y tu allan i IR35. (Penodir y rhain dim ond yn dilyn archwiliad agos a datganiad a wneir o dan y ddeddfwriaeth hon).

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r Gronfa'n gwneud cyfraniadau at gynlluniau pensiwn staff. Ar wahân i wneud y taliadau hyn nid oes gan y Gronfa unrhyw rwymedigaethau pensiwn.



**Eilish McGuinness**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

13 Gorffennaf 2022

## Adroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol

### Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ Senedd y DU

#### Barn am ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol gweithgareddau dosbarthu Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan Weithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol:

- Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad o Incwm Cynhwysfawr Net, Datganiad Llifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiedir gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2022 ac am ei gwaged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac maent
- wedi eu paratoi yn briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd oddi tani.

#### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r incwm a gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

#### Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs UK), cyfraith berthnasol a Nodyn Arfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol 2019 diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol'. Rwyf hefyd wedi dewis i gymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwy'n annibynol i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

#### Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol;

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol mewn perthynas â digwyddiadau neu gyflyrau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuan sylweddol ar allu Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadwyd y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wrth ystyried y gofynion a nodir yng Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol nag ychwaith fy nhystysgrif ac adroddiad archwilydd. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad ynghylch sicrwydd mewn perthynas â hi, ac eithrio i'r graddau a nodir yn echblyg fel arall yn fy nhystysgrif.

Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth y daethpwyd o hyd iddi yn yr archwiliad neu sydd fel arall i'w gweld yn cael ei chamddatgan yn faterol.

Os byddaf yn nodi'r cyfryw anghysondebau materol neu gamddatganiadau materol tybiedig, mae'n ofynnol i mi bennu p'un a yw hyn yn achosi camddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, bod camddatgan materol o'r wybodaeth arall hon yn bodoli, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1993.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau

ariannol ar ei chyfer yn cydweddu â'r datganiadau ariannol ac yn cyfateb i'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a dealltwriaeth o Weithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi adnabod camddatganiadau materol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol neu nad yw dychweliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn cyfateb i'r cofnodion a dychweliadau cyfrifyddu; neu
- nad yw datgeliadau penodol o dâl cydnabyddiaeth a bennir gan Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM wedi'u gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio yn cydweddu â'r cofnodion a dychweliadau cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaid â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi barn wir a theg;

- sicrhau bod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- mesurau rheoli mewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n pennu eu bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiad ariannol sy'n rhydd rhag gamddatgan materol, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaetholi barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Weithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Fy amcanion yw dod o hyd i sicrwydd rhesymol ynglŷn â pha un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag camddatgan materol, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad, ai beidio, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gyflawnir yn unol â SARh (Deyrnas Unedig) bob amser yn datgelu camddatganiad materol pan fydd yn bodoli. Camddatganiadau Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn faterol os, yn unigol neu ar y cyd, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### I ba raddau yr ystyriwyd y gallai'r archwiliad ganfod methiant i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Dyluniai weithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae fy gweithdrefnau yn gallu canfod methiant i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Nodi ac asesu risgiau posib sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatgan materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, ystyriwyd y canlynol:

- natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisiau cyfrifyddu Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys caffael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mewn perthynas â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, drwgdybiedig neu honedig; a'r
  - mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys mesurau rheoli Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mewn perthynas â chydymffurfiaeth Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Rheoli Arian Cyhoeddus.
- trafodaeth ymysg y tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posib o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer twyll gan nodi'r potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: postio siwrnalau anarferol, trafodion cymhleth, a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â'r holl

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

archwiliadau o dan SRhA (DU), mae hefyd yn ofynnol i mi berfformio gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru mesurau rheoli.

Cefais ddealltwriaeth hefyd o fframwaith awdurdod Gweithgareddau Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio eraill y mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny yr oedd ganddynt effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau materol yn y datganiadau ariannol neu yr oedd ganddynt effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, Rheoli Arian Cyhoeddus, cyfraith cyflogaeth berthnasol a deddfwriaeth treth

## Ymateb archwilio i risg a nodwyd

O ganlyniad i berfformio'r uchod, roedd y gweithdrefnau a weithredais i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holi rheolwyr, a'r Pwyllgor Archwilio ynghylch ymgysylltu a hawliadau gwirioneddol a photensial;
- darllen ac adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ac adroddiadau'r Bwrdd ac archwilio mewnol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll o ganlyniad i reolwyr ddiystyru mesurau rheoli, profi priodoldeb cofnodion siwrnal ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a lunnir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosib; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r cwrs busnes arferol; a

Chyfathrebais cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu hefyd, a pharheais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu fethu â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol wedi'i leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy nhystysgrif.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a gwariant yr adroddir amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwysu i'r dibenion yn unol â bwriad Senedd y DU a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â gofal llywodraethu mewn perthynas â, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

## Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

14 Gorffennaf 2022

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol  
157–197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
Llundain SW1W 9SP



# Y datganiadau ariannol

# Y datganiadau ariannol

## Datganiad o incwm cynhwysfawr net

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Nodiadau	£'000	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Enillion o'r Loteri Genedlaethol	10	<b>361,550</b>		362,755
Incwm buddsoddi o CDLG	10	<b>512</b>		212
			<b>362,062</b>	362,967
Llog derbyniadwy	3	<b>0</b>		16
Mân incwm	2	<b>29</b>		111
<b>Cyfanswm incwm</b>			<b>362,091</b>	363,094
Dyfarniadau grant newydd	12	<b>(163,145)</b>		(176,155)
Dyfarniadau a ddadymrwymwyd	12	<b>9,055</b>		6,882
Darpariaeth yn erbyn benthyciadau i sefydliadau treftadaeth		<b>0</b>		(900)
			<b>(154,090)</b>	(170,173)
Costau staff	20	<b>(14,186)</b>		(11,587)
Dibrisio ac amorteiddio	6, 7 ac 8	<b>(1,388)</b>		(1,189)
Taliadau gweithredu eraill		<b>(5,882)</b>		(5,496)
<b>Cyfanswm costau gweinyddu</b>			<b>(21,456)</b>	(18,272)
<b>Cyfanswm gwariant</b>			<b>(175,546)</b>	(188,445)
<b>Gwarged gweithredu</b>			<b>186,545</b>	174,649
<b>Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022</b>			<b>186,545</b>	174,649

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 66 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o newidiadau mewn ecwiti

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Cyfrifincwm a gwariant £'000
Balans ar 31 Mawrth 2020	(526,648)
Newidiadau mewn ecwiti yn 2020–21	
Gwarged argadwedig	174,649
Balans ar 31 Mawrth 2021	(351,999)

### Newidiadau mewn ecwiti yn 2021–22

Gwarged argadwedig	186,545
<b>Balans ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>(165,454)</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 66 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Y datganiadau ariannol

## Datganiad o sefyllfa ariannol

ar 31 Mawrth 2022

	Nodiadau	2021-22 £'000	2020-21 £'000
<b>Asedau anghyfredol</b>			
Asedau anniriaethol sefydlog	6	<b>1,190</b>	1,158
Hawl i ddefnyddio	8	<b>305</b>	807
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	7	<b>396</b>	1,015
Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth	9	<b>168</b>	50
		<b>2,059</b>	3,030
<b>Asedau cyfredol</b>			
Buddsoddiadau – balans yn CDLG	10	<b>427,088</b>	328,748
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	9	<b>14,975</b>	13,259
Arian parod a chyfwerth ag arian parod		<b>10,008</b>	4,537
		<b>452,071</b>	346,544
<b>Cyfanswm asedau</b>		<b>454,130</b>	349,574
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
Rhwymedigaethau gweinyddol	11	<b>(3,309)</b>	(4,798)
Rhwymedigaethau grant sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	12	<b>(214,173)</b>	(263,946)
<b>Asedau anghyfredol plws asedau cyfredol net</b>		<b>236,648</b>	80,830
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol</b>			
Rhwymedigaethau gweinyddol	11	<b>0</b>	(318)
Rhwymedigaethau grant sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy nag un flwyddyn	12	<b>(402,102)</b>	(432,511)
<b>Asedau llai rhwymedigaethau</b>		<b>(165,454)</b>	(351,999)
<b>Cynrychiolir gan:</b>			
Cyfrif incwm a gwariant a ddygwyd ymlaen		<b>(351,999)</b>	(526,648)
Symudiad yn ystod y flwyddyn		<b>186,454</b>	174,649
Cyfrif incwm a gwariant a gariwyd ymlaen		<b>(165,454)</b>	(351,999)


Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 66 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Newidiwyd cymharydd i adlewyrchu adnabod benthyciadau hirdymor ar wahân.



**Dr Simon Thurley CBE**

Cadeirydd



**Eilish McGuinness**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

13 Gorffennaf 2022

## Datganiad o lifoedd arian parod

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Nodiadau	2021-22 £'000	2020-21 £'000
<b>Gweithgareddau gweithredu</b>			
Arian parod a dynnwyd i lawr o CDLG	10	<b>263,722</b>	343,183
Arian parod o ffynonellau eraill gan gynnwys ad-dalu benthyciadau	2	<b>29</b>	111
Arian parod o Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol		<b>14,450</b>	0
Arian parod a dalwyd i gyflogeion ac ar eu rhan		<b>(17,649)</b>	(16,126)
Llog a dderbyniwyd ar gyfrifon banc		<b>0</b>	16
Arian parod a dalwyd i gyflenwyr		<b>(8,192)</b>	(9,671)
Arian parod a dalwyd i dderbynyddion grant a benthyciad	9 a 12	<b>(246,081)</b>	(315,422)
<b>Mewnlfif arian parod net o weithgareddau gweithredu</b>			
	15a	<b>6,279</b>	2,001
<b>Gweithgareddau buddsoddi</b>			
Gwariant cyfalaf a gweithgareddau buddsoddi	15b	<b>(299)</b>	(530)
Gweithgareddau cyllido	15c	<b>(509)</b>	(487)
<b>Cynnydd mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod</b>			
		<b>5,471</b>	984

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 66 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Cysoniad y llif arian parod net â'r symudiad mewn cyllid net

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Nodiadau	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Cynnydd mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod		<b>5,471</b>	984
<b>Newidiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod</b>			
	15d	<b>5,471</b>	984
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar 1 Ebrill		<b>4,537</b>	3,553
<b>Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth</b>			
		<b>10,008</b>	4,537

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 66 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Y datganiadau ariannol

## Nodiadau i'r cyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

### 1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Nid oes unrhyw safonau a dehongliadau a gyhoeddir, nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto, y mae'r ymddiriedolwyr yn disgwyl y byddant yn cael effaith faterol ar incwm ac asedau net adroddedig CGDG neu ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

#### a) Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u llunio ar ffurf a gyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ac wedi'i chymeradwyo gan Drysorlys EM. Maent yn cael eu paratoi o dan y confensiwn costau hanesyddol diwygiedig. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni'r gofynion cyfrifyddu a datgelu sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cwmnïau 2006 a'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (LIAA) i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol, a'r cyfarwyddiadau ar gyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS ym mis Ebrill 2019.

Mae'r triniaethau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y LIAA yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddasir neu ddehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Mae cyfarwyddyd cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS yn benodol yn eithrio paratoi cyfrifon cyfunol.

Gellir cael copïau o'r dosbarthiad Loteri Genedlaethol a chyfarwyddiadau cyfrifon cymorth grant gan Ysgrifennydd y Bwrdd, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Mezzanine Floor, International House, 1 St Katharine's Way, Llundain, E1W 1UN.

Pan fydd y LIAA yn caniatáu dewis, dewisir y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol CGDG at ddiben darparu barn wir a theg. Mae'r polisiau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG wedi'u disgrifio o fewn y datganiad hwn. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon.

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol gan nad oes gan CGDG unrhyw reswm dros gredu bod gan DCMS gynlluniau i newid trefniadau

dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth ac felly mae'r ymddiriedolwyr yn tybio y byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan y Loteri Genedlaethol.

Cefnogir y farn hon gan ymddiriedolwyr gan iddynt gael eu hysbysu gan DCMS, yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth. At hynny, cododd DCMS y gyfran dreftadaeth o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012. Yn olaf, ni wnaeth yr Adolygiad wedi'i Deilwra yn 2017 unrhyw argymhellion i newid canran yr arian Loteri Genedlaethol a dderbynnir gan CGDG.

Yn ychwanegol at yr uchod, oherwydd yr argyfwng COVID-19 rydym wedi parhau i dracio incwm gan y loteri, taliadau allan a'n hymrwymiaidau parhaus. Yn amodol ar ddigwyddiadau sydd eto i ddod rydym yn hyderus y bydd ein mesurau perfformiad allweddol a pha mor agored i risg yr ydym yn y maes hwn yn parhau o fewn yr ystod dderbyniol a'n hawydd am risg – gan weddu i sail busnes gweithredol.

#### b) Asedau anghyfredol

Diffinnir asedau anghyfredol fel yr eitemau hynny a brynir at ddefnydd tymor hir CGDG a'i weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol a phan fydd y cyfanswm cost dros £2,000. Darperir dibrisio ar sail llinol ar bob ased anghyfredol, gan gynnwys y rhai a ddelir o dan lesi ar gyfraddau y cyfrifir y byddant yn diddymu cost neu brisiad pob ased dros ei fywyd defnyddiol disgwylledig. Mae'r bywydau hyn fel a ganlyn:

Eiddo prydlles fer	– bywyd y les
Ased hawl i ddefnyddio	– lesi eiddo
Offer swyddfa	– 4–10 mlynedd
Ffitiadau swyddfa	– 4–10 mlynedd
Meddalwedd asesu grantiau	a meddalwedd arall
	– hyd at 5 mlynedd

O dan yr amgylchiadau hynny pan fo gweddill bywyd les ar eiddo'n llai na phedair blynedd, bydd unrhyw adnewyddiad neu gyfarpar na ellir ei symud yn cael ei ddibrisio dros weddill cyfnod y les.

Ni chyfalafir unrhyw gostau a gynhyrchir yn fewnol. Mae dibrisio'n dechrau yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

### c) Dyrannu costau ac adrodd cylchrannol

---

Mae IFRS 8 yn mynnu y darperir gwybodaeth am adrodd cylchrannol pan fydd hyn yn berthnasol i weithgareddau'r sefydliad. Pan fo'n berthnasol, byddai uwch reolwyr yn adnabod ffrydiau gweithgarwch ar wahân ac aseinio costau gweithredu iddynt pro rata yn seiliedig ar lefel y grant a ddyfarnwyd. Mewn achosion priodol pa fu gwahaniaeth arwyddocaol yn y modd y proseswyd ceisiadau, byddai dulliau amgen yn cael eu defnyddio.

Mae CGDG yn cyfrif ar wahân am ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, y mae'n ofynnol i'w wneud o dan ei chyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol. Mae'r cyfrifon ar gyfer CGDG yn cynnwys nodyn sy'n darparu gwybodaeth ariannol am wahanu ein gwasanaethau dosbarthu cymorth grant safonol o'n dosbarthiad cyllid argyfwng COVID-19.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol sy'n cael eu rhannu rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r dosraniad costau hwn yn ceisio adlewyrchu'r gyfran benodol o amser a threuliau a ymrwymir i bob gweithgaredd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y gyfran o gostau ar y cyd a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd 99% (2020–21: 99%).

### ch) Trethiant

---

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod CGDG wedi'i heithrio'n statudol o dan adran 507 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988. Ni all CGDG adfer Treth ar Werth (TAW) a godir arni, ac mae'r gost gan gynnwys TAW wedi'i chynnwys o dan y disgrifiadau gwariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

### d) Pensiwn

---

Codir y gost reolaidd o ddarparu buddiannau i'r datganiad o incwm cynhwysfawr net dros fywydau gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae bron pob un o'n staff yn aelodau o PGPGS neu alpha (y cynllun a ddilynodd PGPGS) ac mae'r ganran o dâl pensiynadwy yn cael ei hysbysu gan Swyddfa'r Cabinet cyn dechrau bob

blwyddyn ariannol. Gweler yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff am fanylion pellach.

### dd) Lesi

---

Yn dilyn cyflwyno Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 ar lesi, mae lesi gweithredol bellach yn cael eu trin yn yr un modd â lesi cyllid. Cyfalafir lesi tymor hir sylweddol (mwy na blwyddyn eu hyd) ar eu cost amcangyfrifedig ac eithrio unrhyw log tybiedig a godir gan y leswr. Codir taliadau llog sy'n ddyledus o dan delerau'r cytundeb lesio i'r datganiad o wariant cynhwysfawr net ar ddyddiad pob taliad a wneir o dan y les. Datgelir lesi wedi'u cyfalafu ar y datganiad o sefyllfa ariannol.

Codir y rhenti blynyddol ar unrhyw lesi sydd y tu hwnt i'r diffiniad sy'n ofynnol yn ôl IFRS 16 i'r datganiad o incwm cynhwysfawr net ar sail llinol dros gyfnod y les. Mae lesi am beiriannau ffrancio a llungopio wedi'u cynnwys yn y categori hwn.

### e) Balansau yn CDLG

---

Mae balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau i fod o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS ac nid oes gan ymddiriedolwyr ddylanwad dros sut mae'r symiau hyn yn cael eu buddsoddi. Mae cyfran y balansau hyn y gellir eu priodoli i Ymddiriedolwyr CGDG fel a ddangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) eu bod ar gael i'w dosbarthu gan ymddiriedolwyr mewn perthynas â'n hymrwymiaid cyfredol a'r rhai yn y dyfodol. Crëir ac addasir swm wrth gefn gwerth teg os bydd unrhyw enillion neu golled ar ailbrisiad y balans CDLG a adroddir i ni gan DCMS. Byddai unrhyw addasiad yn cael ei ddatgelu yn y datganiad newidiadau mewn ecwiti. Ychwanegir unrhyw elw neu golled a geir gan CDLG wrth waredu asedau at werth CDLG.

### f) Penderfyniadau am grantiau

---

Cydnabyddir dyfarniadau grant fel rhwymedigaethau yn y datganiad o sefyllfa ariannol. Pan nad oes angen cydnabod rhwymedigaethau mwyach, gan nad yw'r prosiect sy'n cael ei ariannu yn gofyn am yr holl arian a neilltuwyd ar ei gyfer o dan y contract grant, rydym yn lleihau gwerth y rhwymedigaethau sy'n

# Y datganiadau ariannol

weddill. Mae'r holl rwymedigaethau grant yn daladwy ar unwaith wrth dderbyn ceisiadau dilys am daliad.

Mae'r ymrwymadau fel a ddiffinnir gan gyfarwyddyd cyfrifon cynharach yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002 gan nad yw'r cyfarwyddyd cyfrifon cyfredol yn diffinio nhw. Mae'r ymrwymadau'n cynrychioli cytundeb mewn egwyddor yr ymddiriedolwyr i ariannu prosiect treftadaeth. Rydym yn trin nhw fel rhwymedigaeth amodol yn nodyn 13 oherwydd eu bod yn cynrychioli rhwymedigaeth arwyddocaol botensial y mae'n rhaid ei chymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ar lefel yr adnoddau sydd ar gael. Mae dau fath o ymrwymiad:

1. pan wnaed y penderfyniad terfynol i ddyfarnu grant ond nid oes contract wedi'i lofnodi eto gyda'r granti. Pan ystyrir bod contract grant yn ei le, mae'r ymrwymiad yn cael ei drin fel rhwymedigaeth lawn.
2. pan roddir pas rownd gyntaf i brosiect treftadaeth. O dan yr amgylchiadau hyn, er bod cyllid yn amodol ar ail benderfyniad, mae'r ail benderfyniad hwn yn llawer mwy tebygol o fod yn gadarnhaol neu beidio ac felly rydym yn teimlo ei fod yn ochelgar i gydnabod y pas rownd gyntaf fel ymrwymiad ar yr adeg honno.

Ceir dadymrwymadau ar rwymedigaethau amodol pan na thrawsnewidir ymrwymiad i rwymedigaeth lawn. Fel arfer mae hyn yn digwydd oherwydd i'r granti benderfynu i beidio ag ymgymryd â'i brosiect neu oherwydd y teimla'r ymddiriedolwyr na allant ariannu'r holl geisiadau rownd dau o ganlyniad i'r angen am gynnal cyllid wrth gefn digonol.

## ff) Benthyciadau

Mae gan ymddiriedolwyr yr hawl i wneud benthyciadau i gyrff treftadaeth o dan gyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS. Mae'r cyfraddau llog a thelerau ad-dalu yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu gwneud fel rhan o'n cylch gwaith i wella a diogelu treftadaeth y DU ac nid i gasglu llifoedd arian contract neu i'w hailwerthu. Gan hynny, o dan IFRS 9, Offerynnau Ariannol, bydd benthyciadau'n cael eu prisio ar werth teg pan

fydd unrhyw addasiad yn faterol, gyda'r addasiad yn mynd trwy'r datganiad o incwm cynhwysfawr net. Pan godir llog, byddwn yn cydnabod y llog yn y flwyddyn y caiff ei gronni er gwaetha'r ffaith y caiff ei dderbyn mewn blwyddyn ddiweddarach o dan delerau'r cytundeb benthyciad.

## g) Cynlluniau grant ar y cyd

Pan fydd CGDG yn gweithredu cynllun grant ar y cyd yn rhannol ar ran sefydliadau eraill (ar hyn o bryd Parks for People gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol; y rhaglen Great Place gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr) nid ydym yn cydnabod symiau a dderbynnir gan y cyrff hyn fel incwm. I bob pwrpas, mae'r cyllid a dderbynnir gan y cyrff hyn yn cael ei drosglwyddo i grantion neu gyflenwyr. Gan hynny nid ydym ond wedi cynnwys cyfran CGDG o daliadau grant y cynlluniau yn y cyfrifon hyn gan i ni drosglwyddo cyfran y sefydliadau eraill ymlaen at y granti. Yn yr un modd nid ydym ond wedi datgelu cyfran CGDG o wariant gweithredu ar gyfer y cynlluniau hyn ac wedi trosglwyddo unrhyw gyllid ar gyfer gwariant gweithredu o'r sefydliadau eraill i gyflenwyr.

Rydym yn diffinio cynlluniau grant ar y cyd fel rhaglenni lle mae gan fwy nag un parti ran yn y broses benderfynu ar gyfer gwneud dyfarniad. Yn achos y rhaglen Parks for People, mae cynrychiolwyr CGDG a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ill dau'n penderfynu i bwy y dylid dyfarnu grantiau. Yn y sefyllfaoedd hynny pan roddir cyllid i ni heb unrhyw gyfranogiad yn y penderfyniad terfynol ar y dyfarniad, rydym yn trin y symiau hyn fel rhoddion. Os yw'r symiau a roddwyd yn deillio o'r Loteri Genedlaethol, yna mae'r rhodd yn cael ei rhoi i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol; fel arall, trinnir y cyllid fel rhodd i CGDG hyd yn oed os cânt eu haseinio i brosiectau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn y pen draw.

## ng) Ardoll Brentisiaethau

Cyflwynwyd yr ardoll brentisiaethau yn 2017–18. Er bod y symiau a dalwn ar gael yn ddamcaniaethol i ariannu cost y cyrsiau yr ymgymerydd â hwy gan ein prentisiaid yn rhannol, ar hyn o bryd mae'n annhebygol y bydd modd i ni ddefnyddio'r symiau hyn yn llawn. Gan hynny, ein polisi yw diddymu'r ardoll yn y cyfnod y gwnaed y taliad oni bai bod sicrwydd y caiff y swm ei ddefnyddio – h.y. mae'r prentis yn ei le ac mae'r cwrs wedi'i neilltuo.



## h) Cydnabod incwm gan y Loteri Genedlaethol

Mae'r incwm a dderbynnir gan y Loteri Genedlaethol fel y cynghorir i ni gan DCMS, sy'n rheoli Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol – y gronfa y telir yr holl gyllid perthnasol gan y Loteri Genedlaethol iddi gan Camelot a'r gronfa yr ydym yn tynnu symiau i lawr ohoni yr ydym eu hangen ar gyfer taliadau grant a thaliadau gweinyddu. Mae DCMS yn darparu adroddiadau misol i ni ar lifoedd arian y Loteri sy'n ddyledus i ni ynghyd â thystysgrif flynyddol i'n galluogi i gynhyrchu rhifau diwedd blwyddyn ar sail croniadau.

## i) Amcangyfrif ansicrwydd

Mae paratoi'r cyfrifon hyn yn mynnu bod uwch reolwyr yn gwneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau a all effeithio ar fesur incwm a adroddwyd, treuliau, asedau, rhwymedigaethau a datgelu rhwymedigaethau amodol. Gall hefyd effeithio ar y dyraniad costau rhwng ein cymorth grant a'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri.

Os yw'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau hyn, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau uwch reolwyr ar ddyddiad y datganiadau ariannol, yn gwyro oddi wrth amgylchiadau gwirioneddol yn y dyfodol, bydd yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau gwreiddiol yn cael eu diweddarau yn y cyfnod pan fydd yr amgylchiadau'n newid.

Caiff ein hamcangyfrifon eu gwerthuso'n barhaus ac maent yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

### Darpariaeth ar rwymedigaethau grant

Bob blwyddyn rydym yn gwneud darpariaeth yn erbyn rhwymedigaethau grant a gydnabyddir yn y cyfrifon. Mae hyn yn cynnwys:

- dad-ymrwmiadau y gwyddys amdanynt ar ôl diwedd y flwyddyn
- gall rhwymedigaethau fod yn farw h.y. heb gael taliadau grant na chyswllt ers blynyddoedd
- prosiectau lle mae'r taliad terfynol wedi ei wneud ond nid yw'r prosiect wedi'i gau
- mae darpariaeth gyffredinol hefyd yn cael ei chymhwyso i brosiectau segur nad ydynt wedi cael taliadau na dyfarniadau ers tro

## Dyrannu costau rhwng ein dau brif weithgaredd

Oherwydd y cyflymder y bu'n rhaid i ni gyflwyno ein rhaglenni argyfwng ein hunain a'r rhai ar ran adrannau llywodraeth, bu'n rhaid diwygio'r dull arferol a ddefnyddiwn i ddyrannu costau rhwng ein dau weithgaredd – dosbarthu cymorth grant a dosbarthu arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol. Bu i ni greu system cofnodi amser er mwyn i staff ddangos pa raglenni yr oeddent yn gweithio arnynt a seiliwyd ail-godi costau ar y data hwnnw. Roedd gofyn i staff amcangyfrif faint o amser yr oeddent wedi'i dreulio ar bob rhaglen yn ystod y mis diwethaf.

Ar ben hynny, roedd cymhlethdodau a newydd-deb y system hon yn golygu bod rhai amcangyfrifon yn cael eu defnyddio gan y cyd-grynhwyr i wella ansawdd a chywirdeb tybiedig y data. Ar gyfer y blynyddoedd dilynol, rydym wedi gwella fformat y gronfa ddata i gynyddu derbyn a defnyddio.

Gweler nodyn 9 i gael mwy o wybodaeth am log ar y benthyciad a'r ddarpariaeth ar ei gyfer.

## 2. Mân incwm

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Ad-dalu grantiau	28	101
Mân incwm	1	10
	29	111

## 3. Llog derbyniadwy

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Llog a dderbyniwyd gan fanciau	0	16
Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth	0	0
Mân eitemau	0	0
Darpariaeth yn erbyn derbyn llog ar fenthyciadau	0	0
	0	16

# Y datganiadau ariannol

## 4. Gwarged gweithredu

Mae'r gwarged gweithredu wedi'i ddatgan ar ôl codi'r taliadau a ganlyn:

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Tâl cydnabyddiaeth yr archwilydd	<b>41</b>	41
Taliadau o dan lesi gweithredol – hurio cyfarpar swyddfa	<b>40</b>	24

Ni thalwyd unrhyw ffioedd nad ydynt yn ymwneud ag archwilio i'r archwilwyr allanol. Mae dadansoddiad o daliadau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Llety	<b>602</b>	209
Post a ffonau	<b>272</b>	268
Nwyddau swyddfa, argraffu a deunydd papur	<b>33</b>	17
Teithio, cynhaliath a lletygarwch – ymddiriedolwyr	<b>27</b>	3
– staff	<b>219</b>	11
Ffioedd proffesiynol – cysylltiedig â grantiau	<b>1,647</b>	1,714
– ddim yn gysylltiedig â grantiau	<b>2,609</b>	2,443
Cyfathrebiadau	<b>132</b>	379
Cyfarpar swyddfa	<b>213</b>	143
Hyfforddiant staff	<b>25</b>	211
Mân dreuliau	<b>103</b>	98
	<b>5,882</b>	5,496

## 5. Costau a ailgodir

Fel y crybwyllwyd yn nodyn 1, mae'n ofynnol i CGDG ddatgelu ar wahân ei weithgareddau'r Loteri Genedlaethol yn ei gyfrifon dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Bu llawer o'r costau cyffredinol a gafwyd yn y brif swyddfa yn Llundain o fudd i'n gweithgareddau cymorth grant a dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y gyfran o gostau ar y cyd a ddosrannwyd i ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd 99% (2020-21: 99%). Cynhaliwyd yr holl weithgareddau cymorth grant yn y brif swyddfa, St. Katharine Docks, Llundain. Ailgodir costau gweithredu'r holl swyddfeydd eraill yn llawn i'r dosbarthiad Loteri Genedlaethol.

Yn ystod 2021-22, parhaodd CGDG i ddosbarthu symiau mawr o arian gan wahanol sefydliadau llywodraeth ganolog wrth ymateb i'r pandemig COVID-19. Er mwyn cyflawni'r dasg enfawr hon, cyfetholwyd llawer o staff a oedd fel arfer yn delio'n gyfan gwbl â dosbarthu cronfeydd y Loteri Genedlaethol i weithio'n gyflym i ddarparu'r rhaglenni hyn. Yn hytrach nag ail-gyfrifo'r rhaniad 99%:1% ar gyfer yr hyn a fydd ond yn ychydig flynyddoedd o weithgarwch gwyllt, gwnaethom nodi cyfran y gwaith a wnaed gan y staff hyn ar weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri; cyfrifwyd eu gwerth gan gyfeirio at ein graddfeydd cyflog ac fe'u hail-godwyd ar y gwahanol raglenni a gefnogir gan gymorth grant. Fe wnaethom hefyd gyfrifo dyraniad gorbenion cysylltiedig fel rhan o'r dasg hon o ailgodi costau.

Cyfanswm gwerth yr costau hyn a ailgodwyd yn 2021-22 oedd £5.0miliwn.

Wedi'i gynnwys yn y costau hyn a ailgodwyd oedd cryn dipyn o ddibrisiant ar asedau sy'n eiddo i'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri – oherwydd i'n hasedau sefydlog helpu i ddarparu'r rhaglenni brys.

Nid yw'r swm hwn a ailgodir wedi'i adlewyrchu yn y nodiadau i'r cyfrifon sy'n ymwneud ag asedau sefydlog (nodiadau 6, 7 ac 8) oherwydd byddai'n llwyr ystumio'r naratif yng nghyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (h.y. byddai'r tâl dibrisiant yn uwch o lawer na gwerth asedau sefydlog). O ganlyniad, rhoddwyd yr addasiad i godau cost eraill.

## 6. Asedau anniriaethol sefydlog

	Gwefan		Technoleg gwybodaeth		Cyfanswm	
	2021-22 £'000	2020-21 £'000	2021-22 £'000	2020-21 £'000	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Cost ar ddechrau'r flwyddyn	582	582	3,313	2,793	3,895	3,375
Ychwanegiadau	0	0	329	524	329	524
Gwarediadau	0	0	0	(4)	0	(4)
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>582</b>	<b>582</b>	<b>3,642</b>	<b>3,313</b>	<b>4,224</b>	<b>3,895</b>
Amorteiddio ar ddechrau'r flwyddyn	512	486	2,225	2,185	2,737	2,671
Tâl ar gyfer y flwyddyn	25	26	272	40	297	66
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>537</b>	<b>512</b>	<b>2,497</b>	<b>2,225</b>	<b>3,034</b>	<b>2,737</b>
Llyfrwerth net						
Ar ddechrau'r flwyddyn	70	96	1,088	608	1,158	704
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>45</b>	<b>70</b>	<b>1,145</b>	<b>1,088</b>	<b>1,190</b>	<b>1,158</b>

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth yn cynrychioli datblygu ffurflenni cais electronig a system rheoli asesu ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli costau a anfonebir i CGDG gan ddatblygwyr meddalwedd. Ni chyfalafwyd unrhyw gostau a gynhyrchwyd yn fewnol.

Ni ddatgelodd adolygiad o werthoedd cost cyfredol asedau anniriaethol sefydlog ar 31 Mawrth 2022 unrhyw wahaniaeth materol i werthoedd cost hanesyddol. Gan hynny, ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol asedau anniriaethol sefydlog.

## 7. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

	Eiddo prydes fer		TG a chyfarpar arall		Ffitiadau swyddfa		Cyfanswm	
	2021-22 £'000	2020-21 £'000	2021-22 £'000	2020-21 £'000	2021-22 £'000	2020-21 £'000	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Cost ar ddechrau'r flwyddyn	1,152	1,152	1,093	1,093	59	59	2,304	2,304
Ychwanegiadau	0	0	8	0	0	0	6	0
Gwarediadau	(0)	(0)	(2)	(0)	(0)	(0)	(0)	(0)
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>1,152</b>	<b>1,152</b>	<b>1,099</b>	<b>1,093</b>	<b>59</b>	<b>59</b>	<b>2,310</b>	<b>2,304</b>
Dibrisio ar ddechrau'r flwyddyn	741	481	519	175	29	10	1,289	666
Tâl ar gyfer y flwyddyn	260	260	346	344	19	19	625	623
Addasiad wrth waredu	(0)	(0)	(0)	(0)	(0)	(0)	(0)	(0)
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>1,001</b>	<b>741</b>	<b>865</b>	<b>519</b>	<b>48</b>	<b>29</b>	<b>1,914</b>	<b>1,289</b>
Llyfrwerth net								
Ar ddechrau'r flwyddyn	411	671	574	918	30	49	1,015	1,638
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>151</b>	<b>411</b>	<b>234</b>	<b>574</b>	<b>11</b>	<b>30</b>	<b>396</b>	<b>1,015</b>

Mae eiddo prydes fer yn cynrychioli cost adnewyddu eiddo rydym yn ei lesio. Gweler cyfalafiad lesi gweithredol o dan IFRS 16 yn nodyn 8.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau a chyfarpar. Ni ddatgelodd adolygiad o werthoedd cost cyfredol ar 31 Mawrth 2022 unrhyw wahaniaeth materol i werthoedd cost hanesyddol.

Gan hynny, ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau a chyfarpar. Mae gwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ar hyn o bryd y rhaniad hwn yw 99% Loteri ac 1% gymorth grant (gweler nodyn 5).

# Y datganiadau ariannol

## 8. Ased hawl i ddefnyddio (IFRS 16)

Mabwysiadwyd Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 (Lesi) o fis Ebrill 2019. Disodlodd y safon hon Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 17 ac mae'n disgrifio'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu lesi. Mabwysiadwyd IFRS 16 gan ddefnyddio'r dull ôl-weithredol diwygiedig, nad yw'n gofyn am ailddatgan gwybodaeth gymharol. Mae IFRS 16 yn cyflwyno model cyfrifyddu lesai unigol ac yn mynnu i lesai gydnabod asedau a rhwymedigaethau pob les sydd â chyfnod dros ddeuddeg mis oni bai bod gan yr ased sylfaenol werth isel. Mae'n gofyn am gydnabod ased hawl i ddefnyddio ar y datganiad o sefyllfa ariannol gan gynrychioli'r hawl i ddefnyddio'r ased sylfaenol ar les ynghyd â rhwymedigaeth les gyfatebol sy'n cynrychioli'r rhwymedigaeth i wneud taliadau les yn y dyfodol.

Mesurwyd yr asedau hawl i ddefnyddio ar gydnabyddiaeth ar 1 Ebrill 2019 ar swm sy'n hafal i'r rhwymedigaeth les. Mesurwyd yr ased hawl i ddefnyddio a'r rhwymedigaeth les a gydnabuwyd yn y datganiad o sefyllfa ariannol yn y lle cyntaf ar werth presennol taliadau les yn y dyfodol. Mae dibrisio asedau hawl i ddefnyddio a llog ar rhwymedigaethau les wedi'i gydnabod yn y datganiad o wariant cynhwysfawr net. Yn flaenorol, codwyd rhenti o dan lesau gweithredu i'r datganiad o incwm cynhwysfawr net ar sail llinol.

Ym mis Ebrill 2019, ymgwymerom â les weithredu ar gyfer rhan o International House ym mwrdeistref Tower Hamlets, Llundain. Roedd tair blynedd a hanner yn weddill ar y les ar y pwynt hwnnw. Roedd gennym lesi, â mwy na blwyddyn yn weddill arnynt, ar gyfer ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Newcastle a Nottingham. Fel gyda gorbenion ar y cyd eraill, mae cyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn adlewyrchu 1% o gost St. Katherine's Docks gyda'r 99% arall yn cael ei ddatgelu o fewn ein cyfrifon dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Mae IFRS 16 wedi arwain at greu ased hawl i ddefnyddio sy'n adlewyrchu ein hawl cytundebol i feddiannu safleoedd yn St. Katharine Docks yn Llundain a swyddfeydd yng Nghaerdydd, Newcastle a Nottingham.

Ased hawl i ddefnyddio:

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	807	1,297
Creu ased hawl i ddefnyddio	22	10
Gostyngiad yr ased hawl i ddefnyddio	(58)	0
Amorteiddiad	(466)	(500)
Balans ar ddiwedd y flwyddyn	305	807

## 9. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	2,653	2,972
Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth	413	50
Symiau derbyniadwy eraill	12,075	10,284
Blaendaliadau i staff	2	3
	15,143	13,309

Doedd dim symiau yn ddyledus ymhen mwy na blwyddyn heblaw am y benthyciadau. O'r balans o £413,000, mae £168,000 (2020-21: £50,000) yn ddyledus yn hwyrach nag un flwyddyn.

O'r symiau uchod, roedd £14,083,000 yn ddyledus gan gyrff llywodraeth ganolog. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gan ddau aelod o staff flaensymiau cyflogres sy'n weddill (ar 31 Mawrth 2021 roedd pedwar).

### Manylion benthyciadau

#### Lakeland Arts

Dyma fenthyciad di-log i'w ad-dalu mewn symiau sy'n gyfwerth â 50% o'r llif arian dros ben £100,000 y flwyddyn hyd nes yr ad-delir y swm llawn; gyda'r ad-daliad cyntaf yn ddyledus ar 23 Ebrill 2024. Daeth yn amlwg yn fuan fod y problemau yr oedd derbynnydd y benthyciad yn eu dioddef a barodd iddo ymgeisio am y benthyciad yn rhai parhaus. Gan hynny, roeddem yn ystyried ei fod yn ochelgar i wneud darpariaeth 100% yn erbyn ad-dalu. Nid yw'r pandemig wedi ein harwain i newid ein barn. Byddwn yn parhau i gydweithio â derbynnydd y benthyciad i'w helpu i greu'r canlyniad gorau posib ar gyfer eu prosiect er mwyn caffael ad-dalu'r benthyciad o dan delerau'r cytundeb benthyciad.

#### Silverstone Heritage

Dyma ddau fenthyciad ar wahân (£1.3 miliwn a £500,000) i Silverstone Heritage Limited ar gyfer Profiad Treftadaeth a Chanolfan Casgliadau ac

Ymchwil Silverstone. Denodd y ddau fenthyciad gyfradd llog o 5%. Mae Silverstone mewn trafferthion ar hyn o bryd oherwydd colli incwm o ganlyniad i'r cyfnod clo COVID-19. Mae wedi bod ar gau neu'n gweithredu ar lai o gapasiti ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan ac mae'r incwm y mae wedi'i ennill wedi'i leihau'n sylweddol. O ganlyniad, nid oedd yn gallu gwneud y rhandaliad cyntaf o'r dyddiad cau o £500,000 erbyn y terfyn amser ym mis Chwefror 2021. Cytunodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 18 Mawrth 2021 i ohirio ad-dalu'r benthyciad tan 2024. Cytunwyd i leihau'r gyfradd llog i 0%, felly mae'r llog a gronwyd wedi'i ddileu. Yn amodol ar oresgyn yr argyfwng, ailstrwythuro ad-daliadau taliadau dyledion a chynyddu nifer yr ymwelwyr, mae'n bosib y bydd modd diwygio swm y benthyciad i fyny ac ad-dalu cyfran ohono. Gan hynny, rydym wedi penderfynu gwneud darpariaeth 100% yn erbyn y benthyciad hwn.

### Dickens House

Dyma fenthyciad di-log i ymddiriedolwyr Dickens House a Chronfa Dickens House. Y swm oedd £100,000 i helpu'r derbynydd i gwblhau prosiect yr oeddem wedi dyfarnu grant iddo. Mae'r benthyciad yn ad-daladwy mewn dwy gyfran o £50,000; derbyniwyd y cyntaf o'r rhain ar amser yn 2018–19 a derbyniwyd yr ail daliad yn 2022–23. Nid oes gennym unrhyw reswm dros gredu na chaiff y swm hwn ei dalu ac felly ni ystyrir y bydd angen darpariaeth.

### Ymddiriedolaeth Elusenol Wicksteed

Benthyciad di-log yw hwn i ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Elusenol Wicksteed. Talwyd swm o £169,000 tuag at reoli'r rhwymedigaethau TAW tymor byr oedd yn deillio o dalu gwariant cyfalaf. Mae'r benthyciad yn ad-daladwy mewn un cyfandaliad ym mis Gorffennaf 2022. Nid oes gennym unrhyw reswm dros gredu na chaiff y swm hwn ei dalu ac felly ni ystyrir y bydd angen darpariaeth.

### The Florence Institute Trust Ltd

Benthyciad di-log yw hwn i ymddiriedolwyr The Florence Institute Trust Ltd. Nod y swm o £93,500 oedd helpu'r Ymddiriedolaeth i ymadfer o effaith y pandemig COVID-19 a chefnogi ei chydnerthedd hirdymor. Mae'r benthyciad yn ad-daladwy mewn rhandaliadau dros 5 mlynedd o ddyddiad y taliad, a wnaed ym mis Ionawr 2022. Nid oes gennym unrhyw reswm dros gredu na chaiff y swm hwn ei dalu ac felly ni ystyrir y bydd angen darpariaeth.

### The Aln Valley Railway Trust

Benthyciad di-log yw hwn i ymddiriedolwyr The Aln Valley Railway Trust. Nod y swm o £100,000 oedd helpu'r Ymddiriedolaeth i ymadfer o effaith y pandemig COVID-19 a chefnogi ei chydnerthedd hirdymor. Mae'r benthyciad yn ad-daladwy mewn rhandaliadau dros 5 mlynedd o ddyddiad y taliad, a wnaed ym mis Rhagfyr 2021. Nid oes gennym unrhyw reswm dros gredu na chaiff y swm hwn ei dalu ac felly ni ystyrir y bydd angen darpariaeth.

Benthyciadau	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Benthyciadau ar ddechrau'r flwyddyn	50	972
Benthyciadau newydd	363	0
Ad-daliadau benthyciadau	0	0
Llog cronedig a ychwanegwyd at y benthyciad	0	0
Darpariaeth yn erbyn benthyciadau	0	(900)
Dileu llog ar fenthyciad	0	(22)
Darpariaeth yn erbyn llog cronedig	0	0
<b>Benthyciadau ar ôl y ddarpariaeth</b>	<b>413</b>	50

Nid yw'r benthyciadau a ganlyn, a ddyfarnwyd yn rhan olaf mis Mawrth 2021, wedi'u talu eto gan nad yw'r cytundeb sicrwydd angenrheidiol wedi'i gwblhau. Fe gânt eu talu unwaith y caiff hyn ei gwblhau.

Strathspey Railway Company Limited	£139,300
Tyne and Wear Building Preservation Trust	£120,000
Ymddiriedolaeth Natur Llundain	£86,200
Kielder Observatory and Astronomical Society	£50,500

## 10. Buddsoddiadau

Symudiad mewn balansau yng Nghronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG):

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Cost gyfredol ar ddechrau'r flwyddyn	328,748	308,964
Incwm a dderbyniwyd gan y Loteri Genedlaethol	361,550	362,755
Cyllid a dynnwyd i lawr o CDLG	(63,722)	(343,183)
Enillion o fuddsoddiadau CDLG	512	212
<b>Cost gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>427,088</b>	328,748

## Y datganiadau ariannol

Nid oes unrhyw rwymedigaeth dreth ar enillion a wireddir gan CGDG. Cyflawnir buddsoddiad yr arian hwn gan DCMS, sy'n dirprwyo rheolaeth i'r Comisiynwyr dros Ostwng y Ddyled Genedlaethol, sy'n ychwanegu eu henillion at y balans cyffredinol a ddelir. Nid oes gan ymddiriedolwyr CGDG unrhyw reolaeth dros bolisi buddsoddi. Mae'r datganiad o bolisiau cyfrifyddu'n cynnwys gwybodaeth bellach am y mater hwn.

Mae gwybodaeth ychwanegol am yr asedau uchod i'w gweld yn nodyn 17 (Offerynnau ariannol).

### 11. Symiau taladwy

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Symiau gweithredu taladwy	921	822
Symiau taladwy eraill gan gynnwys treth a nawdd cymdeithasol	665	635
Croniadau ac incwm gohiriedig	1,723	3,659
	<b>3,309</b>	5,116

Nid oedd unrhyw un o rwymedigaethau CGDG wedi'i warantu O'r symiau a ddatgelwyd uchod, roedd £0 (2019-20: £318,000) yn ymwneud â symiau taladwy tymor hir.

Gellir dadansoddi'r balansau gweithredu a symiau taladwy eraill fel a ganlyn:

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog	721	635
Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol	0	0
Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus	0	0
Balansau sy'n allanol i lywodraeth	865	822
	<b>1,586</b>	1,457

### 12. Rhwymedigaethau grant

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Dygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn	696,457	842,606
Rhwymedigaethau newydd a grëwyd yn y flwyddyn	163,145	176,155
Rhwymedigaethau nad ydynt yn cael eu cydnabod bellach	(9,055)	(6,882)
Taliadau grant	<b>(234,272)</b>	(315,422)
<b>Dygwyd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>616,275</b>	696,457

Yn ystod y flwyddyn, bu i ni ddsbarthu grantiau brys Covid ar ran ein hadran noddi, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), yn ogystal ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon sydd wedi'u cynnwys o fewn rhwymedigaethau grant y Gronfa Goffa. Felly mae rhwymedigaethau grant y loteri wedi lleihau'n sylweddol eleni oherwydd y ffocws cynyddol ar ddsbarthu cronfeydd grant brys.

Mae balans y rhwymedigaethau grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n debygol o gael eu talu i ymgeiswyr yn y cyfnodau a ganlyn:

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Ymhen un flwyddyn	214,173	263,946
Ymhen dwy flynedd	144,467	182,626
Ymhen tair blynedd	86,791	110,233
Ymhen pedair blynedd	45,738	59,623
Ymhen pum mlynedd	23,492	30,684
Ymhen mwy na phum mlynedd	101,614	49,345
	<b>616,275</b>	696,457

Mae rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus fel a ganlyn:

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Balansau sy'n ddyledus i lywodraeth ganolog	47,194	64,526
Balansau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol	259,798	304,676
Balansau sy'n ddyledus i gorfforaethau cyhoeddus	636	763
Balansau sy'n ddyledus i ymddiriedolaethau GIG	29	29
Balansau sy'n allanol i lywodraeth	308,618	326,463
	<b>616,275</b>	<b>696,457</b>

Ar 31 Mawrth 2022, roedd y rhifau uchod yn cynnwys darpariaeth o £6.7miliwn (31 Mawrth 2021: £4.4miliwn) am symiau yr ydym yn eu rhagweld efallai na chânt eu talu yn y blynyddoedd i ddod. Byddwn yn cydweithio â'n grantïon i'w helpu i gyflwyno eu prosiectau.

### 13. Rhwymedigaethau amodol

#### Ymrwymadau

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Dygydd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn	115,811	218,861
Ymrwymadau a wnaed	150,805	5,733
Dadymrwymadau	(5,010)	(15,562)
Rhwymedigaethau newydd	(60,613)	(93,221)
<b>Balans a ddygydd ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>200,993</b>	<b>115,811</b>

Mae rhwymedigaethau amodol yn cynrychioli ymrwymadau sy'n cyfateb i werth pasys rownd-un a roddir gan ymddiriedolwyr. Pan fydd ymgeisydd yn dychwelyd gyda'r cais rownd dau, bydd yr eitemau hyn naill ai'n mynd yn ddyfarniadau grant (rhwymedigaeth grant) neu'n cael eu gwrthod.

Mae'r balans rhwymedigaethau amodol wedi cynyddu yn 2021-22 ar ôl gostwng yn sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, wedi'i waethgu gan y pandemig. Nawr bod rhaglen agored y loteri yn dechrau dychwelyd i lefelau arferol, rydym wedi gweld cynnydd mewn rhwymedigaethau amodol.

### 14. Ymrwymadau les

Datgelir lefel y taliadau les weithredu dan gcontract yn y dyfodol fel nodyn i'r cyfrifon fel arfer. Fodd bynnag, ar ôl gweithredu IFRS 16, mae bron yr holl lesi gweithredol bellach wedi cael eu cyfalafu ac yn ymddangos ar y datganiad o sefyllfa ariannol.

Mae lesi ar gyfer ein swyddfeydd yn Llundain, Caerdydd, Nottingham a Newcastle wedi cael eu cyfalafu fel asedau hawl i ddefnyddio (gweler nodyn 8). Mae ein swyddfeydd eraill i gyd mewn adeiladau a wasanaethir.

Nid ydym yn cyfalafu ein holl lesau gan fod IFRS 16 yn caniatáu eithriadau ar gyfer lesi bach a lesi tymor byr. Ar gyfer yr eitemau hynny rydym yn datgelu isafswm taliadau les y dyfodol i'w talu gan weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG fel a ganlyn:

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
<b>Eiddo prydles fer</b>		
Ddim yn hwyrach nag un flwyddyn	0	25
Yn hwyrach nag un flwyddyn ond ddim yn hwyrach na phum mlynedd	0	0
Yn hwyrach na phum mlynedd	0	0
	<b>0</b>	<b>25</b>
	2021-22 £'000	2020-21 £'000
<b>Lesi eraill</b>		
Ddim yn hwyrach nag un flwyddyn	16	21
Yn hwyrach nag un flwyddyn ond ddim yn hwyrach na phum mlynedd	0	4
Yn hwyrach na phum mlynedd	0	0
	<b>16</b>	<b>25</b>

Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 17 yn mynnu rhannu lesi eiddo rhwng eu helfennau tir ac adeiladau. Nid oes unrhyw raniad wedi cael ei wneud yn y ffigurau uchod gan fod maint y tir o dan y lesi'n ddibwys.

Mae lesi eraill yn cyfeirio at beiriannau llungopio a ffrancio.

Nid oes gan CGDG unrhyw ymrwymadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer neu ymrwymadau cyfalaf a gymeradwywyd nas contractiwyd ar eu cyfer.

# Y datganiadau ariannol

## 15. Nodiadau i'r datganiad o lifoedd arian parod

### a) Cysoni gwaged gweithredu i fewnlif arian parod o weithgareddau gweithredu

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Gwaged/(diffyg) gweithredu	<b>186,545</b>	174,649
Ychwanegu eitemau anariannol yn ôl:		
– dibrisio ac amorteiddio	<b>1,388</b>	1,189
– colled wrth waredu asedau anniriaethol sefydlog ac eiddo, peiriannau a chyfarpar	<b>0</b>	0
– symudiad yn y swm wrth gefn gwerth teg	<b>0</b>	0
– gostyngiad yn y swm rhwymedigaethau grant wrth gefn	<b>(80,182)</b>	(146,149)
– gostyngiad / (cynnydd) yn y balans CDLG	<b>(98,340)</b>	(19,784)
Cynnydd mewn symiau taladwy di-log	<b>(1,834)</b>	(6,836)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy nad ydynt yn gyfalaf	<b>(1,298)</b>	(1,068)
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu	<b>6,279</b>	2,001

### b) Gwariant cyfalaf a gweithgareddau buddsoddi

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol	<b>293</b>	530
Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar	<b>6</b>	0
	<b>299</b>	530

### c) Gweithgareddau cyllido

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Rhwymedigaethau lesio	<b>509</b>	487

### ch) Dadansoddi newidiadau mewn cronfeydd net

	Ar 1 Ebrill 2021 £'000	Llifoedd arian parod £'000	Ar 31 Mawrth 2022 £'000
Arian parod yn y banc	4,537	5,471	<b>10,008</b>

## 16. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan DCMS. Ystyrir bod DCMS yn gorff cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol) drafodion materol amrywiol, ar wahân i ddyfarniadau grant, gyda DCMS ei hun a gyda phum endid yr ystyrir mai DCMS yw'r adran noddï ar eu cyfer – Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sport England, UK Sport, Historic England a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Fel y nodir yn y cyfrifon hyn, mae CGDG wedi dosbarthu arian ar ran gwahanol sefydliadau llywodraethol; Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Am wybodaeth bellach, gweler cyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gan nad arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol mo hwn.

Yn ystod 2021-22, fe wnaethom ildio ein les ar gyfer swyddfa Birmingham gan DCMS ac o ganlyniad i hyn mae'r trafodiad wedi dod i ben.

Cyfrannodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol at y grantiau a wnaed o dan ein rhaglen Parks for People a hefyd tuag at gostau gweithredu'r rhaglen. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd ar Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol £1,681,000 i CGDG, gan gynnrychioli £49,000 ar gyfer costau gweithredu Parks for People a £1,632,000 ar gyfer ei chyfran o'r taliadau grant Parks for People. Roedd swm pellach yn ddyledus ar gyfer secondio aelod o'n staff i'r Fforwm Loteri. Fe wnaethom hefyd dalu Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am ddarparu gwasanaethau cyfreithiol a chaffael. Fe dalom tua £12,000 iddynt yn ystod y flwyddyn ac roedd arnom £8,000 ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwnaeth Cyngor Celfyddydau Lloegr ad-daliad i ni ar gyfer taliadau grant y rhaglen Great Place ar y cyd a wnaed gennym ar eu rhan. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd arnynt £492,000 i ni (£491,000 ar gyfer taliadau grant a £1,000 ar gyfer costau monitro ar y cyd ar gyfer prosiect).

Bu trafodiad gwerth £15,000 gyda Historic England gan gynnrychioli secondiad un aelod o'n staff. Doedd dim byd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.



Bu trafodiad gwerth £12,000 gyda Sport England a £4,000 gyda UK Sport gan gynrychioli secondiad aelod o'n staff i Fforwm y Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ar Sport England £3,000 i ni.

Y tu allan i'r teulu DCMS o gyrff a noddir gan Lywodraeth Ganolog, bu trafodion materol hefyd gyda Swyddfa'r Cabinet gwerth £8,000 am wahanol faterion gweinyddol; nid oedd unrhyw beth yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Bu i ni ailgodi costau monitro a mentora prosiectau penodol a oedd wedi derbyn cymorth grant i ganghennau Llywodraeth Yr Alban (Creative Scotland a Historic Environment Scotland). Cyfanswm y biliau oedd £4,000 yn y flwyddyn ac roedd £1,500 yn ddyledus ganddynt ar ddiwedd y flwyddyn.

Fel y nodir ar y tudalennau isod, roedd gan Ymddiriedolwyr CGDG fuddiannau mewn cyrff y gwnaeth CGDG grantiau Loteri Genedlaethol iddynt. Yn yr un modd, roedd gan aelodau pwyllgorau gwlad ac ardal fuddiannau mewn prosiectau yr oedd eu pwyllgor wedi gwneud grantiau Loteri Genedlaethol iddynt neu ddarparu sylwadau ac argymhellion arnynt i'r Bwrdd. Mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor gynnal cofrestr o fuddiannau mewn cyrff treftadaeth, a ddiwedderir bob blwyddyn mewn cydweithrediad â'n tîm Cyfreithiol a Llywodraethu. Ar ddechrau pob cyfarfod pwyllgor neu Fwrdd, mae ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor yn datgan unrhyw gysylltiad ag ymgeiswyr ac yn tynnu allan o unrhyw ran o'r cyfarfod pan drafodir y cais hwnnw am grant. Nid ydynt yn cymryd rhan yn y drafodaeth ynglŷn â pha un a ddyfernir grant ai beidio ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw drafodaeth ynglŷn â'r prosiect hwnnw cyn neu ar ôl y penderfyniad grant ychwaith. Mae rheolau llym hefyd o ran yr amgylchiadau pan all ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor dderbyn gwaith â thâl gan grantï. Gan hynny, mae'r ymddiriedolwyr wedi'u bodloni na fu unrhyw achos pan gafodd unigolion ddylanwad ar y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer y prosiectau hynny y mae ganddynt gysylltiad â hwy.

Yn 2021–22 cafwyd trafodion cyrff cysylltiedig, ar ffurf taliadau grant, mewn perthynas â dyfarniadau a wnaed ac a ddatgelwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gan y datgelwyd y trafodion cyrff cysylltiedig hynny yn flaenorol, ni chânt eu hailadrodd yma.

## **Roedd saith ar hugain o ddyfarniadau lle datganodd aelod o bwllgor gwlad neu ardal fuddiant:**

**Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)**  
Grant Datblygu o £80,000 a grant cyflwyno posib o £720,000 – Rathlin Acting for Tomorrow

Datganodd Olive Hill fuddiant gan ei bod yn Gomisiynydd Irish Lights (CIL) sy'n lesio'r tir i'r Grŵp (RSPB).

## **Prifysgol Aberystwyth**

Grant o £1,378,700 i wneud cyfanswm grant o £11,111,000 – 12 Bywyd Newydd i'r Hen Goleg

Datganodd Abigail Tweed wrthdaro buddiannau gan ei bod wedi gweithio ar y prosiect o'i gamau cynnar fel cyn-weithiwr i Aberystwyth.

## **Churches Conservation Trust**

Grant o £747,900 – The Canny Space yn y Drindod Sanctaidd, Sunderland

Datganodd Humphrey Welfare wrthdaro buddiannau gan ei fod yn gyn-ymddiriedolwr CCT ac yn cadeirio cyfarfod cynghori a oedd yn gwneud sylwadau ar agweddau cadwraeth cyfnod cynnar prosiect The Canny Space.

## **National Museums Liverpool**

Grant Datblygu gwerth £2,958,900 a Grant Cyflwyno Posib o £6,971,100 – HHA2019 International Slavery Museum: Igniting Ideas and Action

Datganodd Stephen Welsh wrthdaro buddiannau. Fel gweithiwr llawrydd fe gyflwynodd sawl gweithdy a lluniodd adroddiad ar gyfer NML yn gynharach eleni.

## **Dudley Resourcing Churches Trust**

Grant o £524,100 – Renewing Top Church for the People of Dudley

Datganodd Marion Blockley wrthdaro buddiannau gan ei bod yn rhan o gam cynnar o'r cais hwn tua dwy flynedd yn ôl.

## **Cyngor Swydd Norfolk**

Cynnydd mewn grant o £1,372,100 i wneud cyfanswm grant o £10,128,900 – Castell Norwich: Gateway to Medieval England

Datganodd Helen Wilson wrthdaro buddiannau gan ei bod ar Fwrdd Amgueddfeydd Norfolk sy'n cynnwys Castell Norwich.

# Y datganiadau ariannol

## Cyngor Dinas Plymouth

Grant Datblygu gwerth £921,500 a Grant Cyflwyno posib gwerth £8,660,600 – Parc Morol Cenedlaethol Plymouth Sound

Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gweithio i Gyngor Cernyw, sy'n berchen yn rhannol ar un o'r safleoedd a fyddai'n elwa o'r dyfarniad.

## Redruth Revival CIC

Grant Datblygu o £54,952 a grant Cyflwyno posib o £2,500,017 – Menter Dreftadaeth – Redruth Buttermarket: Rediscovering the Market Town

Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan ei bod hi'n gweithio i'r tîm yng Nghyngor Cernyw sy'n ymwneud ag ailddatblygu'r Buttermarket.

## Cyngor Dosbarth South Hams

Grant Datblygu gwerth £220,900 a grant cyflwyno posib o £2,092,400 – Life on the Edge

Datganodd Caroline Kay wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n bartner yn y cais.

## RSPB Yr Alban

Grant Datblygu gwerth £175,670 a Grant Cyflwyno posib o £948,752 – Climate FORTH (Furthering our Resilience through Heritage)

Datganodd Fiona McLean wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgylchedd Hanesyddol Yr Alban sydd ar Fwrdd y Prosiect a'r Grŵp Llywio ac yn darparu cefnogaeth ychwanegol i'r prosiect. Er nad yw Fiona wedi bod â rhan uniongyrchol yn y prosiect, oherwydd cyfraniad sylweddol Amgylchedd Hanesyddol Yr Alban ystyriwyd bod hyn yn cynrychioli gwrthdaro buddiannau.

Datganodd Stuart Housden wrthdaro buddiannau gan ei fod yn Gyfarwyddwr RSPB Yr Alban tan 2017 ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol RSPB ar draws y DU tan fis Hydref 2017.

## AoHNE Cernyw

Grant Cyflwyno o £489,700 – A Monumental Improvement: Cornwall through 4,000 years

Datganodd Caroline Kay wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n bartner yn y cais.

## Cyngor Bournemouth, Christchurch a Poole (fel olynydd i Gyngor Bwrdeistref Poole)

Cynnydd mewn grant o £230,000 i wneud cyfanswm grant o £1,584,200, a newid mewn canran grant o 71% i 67% – The Discovery Project at Upton Country Park

Datganodd Caroline Kay wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n bartner yn y Future Parks Accelerator (y mae Cyngor BCP yn bartner ynddo).

## Cyngor Swydd Renfrew

Grant o £1,123,200 – Paisley Museum Re-imagined

Datganodd Fiona McLean wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgylchedd Hanesyddol Yr Alban, a wnaeth benderfyniad ar y prosiect ar y pryd.

## Abingdon Studios

Dyfarniad o £10,000 – We're Still Here!

Datganodd Catherine Mugonyi wrthdaro buddiannau gan ei bod yn gyfarwyddwr sefydliad (Aunty Social CIC) sydd ar hyn o bryd yn talu Abingdon Studios am waith prosiect tymor byr. Mae hi hefyd yn rhagweld rhywfaint o gysylltiad personol â'r prosiect gan fod ganddi nifer o eitemau archif LHDTC+ sy'n gysylltiedig ag Arfordir Fylde.

## Winchester Poetry Festival

Dyfarniad o £9,100 – Poet on the High Street: a community heritage project for Winchester

Datganodd Stephen Boyce wrthdaro buddiannau gan y bu'n gyd-sylfaenydd Winchester Poetry Festival yn 2013 ac mae'n dal i fod yn ymddiriedolwr.

## St Just and District Trust CIO

Dyfarniad o £15,000 – St Just Ordinalia 2021

Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan fod ei chyflogwr, Cyngor Cernyw, wedi rhoi grant tuag at y project hwn.

## Cyngor Cernyw

Dyfarniad o £149,900 – G7 Kernow – Rhaglen Ddiwylliannol

Datganodd Tamsin Daniel wrthdaro buddiannau gan iddi gael ei chyflogi gan Gyngor Cernyw.

### The Friends of Hardwick

Dyfarniad o £8,000 – Hardwick Park Sedgfield – Bath & Banqueting Houses Restoration Revision 2 – Arolygon Archeolegol

Datganodd Niall Hammond wrthdaro buddiannau gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr yr elusen ymgeiswyr, Friends of Hardwick Park.

### Glasgow Building Preservation Trust

Dyfarniad o £58,600 – My Historic Neighbourhood

Datganodd Liz Davidson wrthdaro buddiannau gan ei bod yn aelod o Fwrdd Glasgow Building Preservation Trust.

### Pandit Ram Sahai Sangit Vidyalaya (PRSSV)

Dyfarniad o £97,100 – NEW HORIZONS: Accredited training opportunities to sustain a legacy for World Music heritage

Datganodd Neena Sohal wrthdaro buddiannau gan ei bod yn ymgynghorydd prosiect a'r prif gyswllt ar gyfer y prosiect hwn.

### Natural History Society of Northumbria

Dyfarniad o £48,875 – How to be a Young North East Naturalist

Datganodd Jim Cokill wrthdaro buddiannau gan ei fod yn aelod o'r Gymdeithas.

### Scottish Environment LINK

Dyfarniad o £159,049 – Nature for All

Datganodd Stuart Housden wrthdaro buddiannau gan ei fod yn gymrawd o Scottish Environment LINK.

### Cumbria Wildlife Trust Limited

Dyfarniad o £250,000 – Cynllun Buddsoddi Strategol ar gyfer Adfer Natur ar draws Gogledd Lloegr

Datganodd Jim Cokill wrthdaro buddiannau wrth iddo fynychu rhai cyfarfodydd cynnar pan sefydlwyd Nature North.

### National Centre for Writing Project

Dyfarniad o £34,045 – Rooted

Datganodd Helen Wilson wrthdaro buddiannau gan ei bod ar Fwrdd National Centre for Writing.

### Arboretum Coffa Cenedlaethol

Dyfarniad o £249,210 – Lockdown Landscapes

Datganodd John Everitt wrthdaro buddiannau gan ei fod yn rhan o gwmni sy'n fuddiolwr i'r prosiect.

### Herschel House Trust

Dyfarniad o £60,710 – Herschel 200

Datganodd Caroline Kay wrthdaro buddiannau gan ei bod yn Brif Weithredwr blaenorol Bath Preservation Trust/ Herschel House Trust (gadawodd Ebrill 2021).

### Cyngor Blackpool

Cynnydd mewn grant o £249,999 i wneud cyfanswm grant o £4,249,999 – Prosiect Amgueddfa Blackpool

Datganodd Catherine Mugonyi wrthdaro buddiannau gan iddi wneud rhywfaint o waith ymgynghori ar gyfer y prosiect ym mis Ionawr 2022.

## 17. Offerynnau ariannol

### Offerynnau ariannol

Mae IFRS 7, 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' yn mynnu datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u cael yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni'i weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl lawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risgiau ar gyfer CGDG na'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan CGDG y pŵer i fenthyg arian ac ni all ond fuddsoddi arian sy'n deillio o gymorth grant.

Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael eu cadw i newid y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

### Risg hylifedd

Yn 2021–22, deilliodd £362 miliwn (99%) o incwm dosbarthu Loteri Genedlaethol CGDG o'r Loteri Genedlaethol. Mae'r incwm sy'n weddill yn deillio o enillion buddsoddi ar y balans a gedwir gyda CDLG o £512,000 (0.1%) ynghyd â swm bach o ad-daliadau grant.

# Y datganiadau ariannol

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod y bu eu rhwymedigaethau grant a symiau taladwy eraill yn sylweddol uwch na gwerth yr arian yn CDLG ar 31 Mawrth 2022. Er hynny, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried nad yw eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt adnoddau hylif digonol o fewn CDLG a'r banc i dalu pob cais tebygol am daliad grant dros y blynyddoedd i ddod. Hysbyswyd yr ymddiriedolwyr gan DCMS, yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2014, nad oedd ganddo unrhyw gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth. Yn wir, cododd DCMS y gyfran dreftadaeth o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol i 20% o fis Ebrill 2012. Mae'r ymddiriedolwyr wedi pennu strategaeth dyfarnu grantiau tymor hir i sicrhau bod rhwymedigaethau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn cydweddu â'r asedau, ac y gall yr ymddiriedolwyr fodloni eu rhwymedigaethau'n llawn. Gan hynny, hyd yn oed os bu dirywiad tymor hir mewn incwm gan y Loteri Genedlaethol, byddai'n dasg syml i'r ymddiriedolwyr addasu cyllidebau grant i wneud iawn am hynny. Ni fu effaith y pandemig ar incwm gan y Loteri Genedlaethol yn arwyddocaol. Awgryma arwyddion cynnar o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol yn 2022–23 y bydd yr incwm ar lefelau boddhaol. Cydnabyddwn mai cyfnod bach yw hwn i ddod i gasgliadau, ond nid yw'n awgrymu bod angen i ni addasu ein gwaith cynllunio. Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

## Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Buddsoddir asedau ariannol gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn CDLG, sy'n buddsoddi o fewn amrediad cul o asedau risg isel megis bondiau ac arian parod y llywodraeth. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddiad y cyllid hwn. Am y ddau reswm hwn, nid ydym wedi cyflawni dadansoddiad sensitifrwydd ar risgiau'r farchnad. Ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, £427 miliwn oedd gwerth ein buddsoddiadau yn CDLG ar y farchnad.

Mae DCMS wedi'n hysbysu yr enillodd cyllid yn CDLG 0.2% ar gyfartaledd yn y flwyddyn (2020–21: 0.67: 0.1%). Delir ein balansau arian parod, sy'n symiau a dynnir i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) i alluogi ni i dalu grantiau a chostau gweithredu, mewn cyfrifon

banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol, yr oedd ganddynt gyfradd llog gyfartalog o 0 y cant yn y flwyddyn. Mae'r gostyngiad sydyn yng nghyfraddau llog y farchnad yn 2008, ynghyd â thoriadau diweddar o ganlyniad i'r pandemig, wedi cael effaith sylweddol ar gyfraddau llog enillion ar fuddsoddiadau.

	2021–22 £'000	2020–21 £'000
Balansau arian parod		
– sterling ar gyfraddau llog arnawf	10,008	4,537
– sterling ar gymysgedd o gyfraddau penodol	427,088	328,748
	<b>437,096</b>	<b>333,285</b>

## Risg gredyd

Mae'r ffigur ar gyfer symiau derbyniadwy yn cynnwys, bron yn gyfan gwbl, rhagdaliadau, incwm cronedig (yn bennaf ar lesau eiddo a chyfraddau busnes) a balansau rhynglywodraethol. Yn bennaf mae'r balansau rhynglywodraethol gyda chyrff a noddir gan DCMS. Ac eithrio blaendaliadau ar swyddfeydd â gwasanaeth a benthyciadau nad ydynt yn ddyledus i gael eu had-dalu am nifer o flynyddoedd, roeddent oll wedi cael eu talu erbyn adeg llofnodi'r cyfrifon. Gan fod y dyddiadau ad-dalu tebygol yn eithaf pell yn y dyfodol, ynghyd â'r hinsawdd economaidd anodd, mae hyn yn golygu na fydd gwerth cyfredol ad-daliadau'n cyfateb i'r gwerth ar y datganiad o sefyllfa ariannol. Er hynny, rydym wedi rhoi darpariaeth sylweddol ar waith yn erbyn ad-daliad tebygol y benthyciadau hyn ac felly ni thwybiwyd bod ailbrisiad costau cyfredol yn faterol. Gan hynny, nid yw ymddiriedolwyr yn ystyried bod eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau credyd arwyddocaol.

## Risgiau arian tramor

Nid yw gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn agored i unrhyw risgiau arian tramor.

## Asedau ariannol fesul categori

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Asedau yn unol â'r datganiad o sefyllfa ariannol		
– buddsoddiadau sydd ar werth	427,088	328,748
– arian parod a chyfwerth ag arian parod	10,008	4,537
– benthyciadau a thaliadau derbyniadwy	15,143	13,309
	<b>452,239</b>	<b>346,594</b>

## Rhwymedigaethau ariannol fesul categori

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Rhwymedigaethau yn unol â'r datganiad o sefyllfa ariannol		
– rhwymedigaethau ariannol eraill		
• symiau grant taladwy	616,275	696,457
• symiau gweithredu taladwy	921	822
• symiau taladwy eraill	665	635
• cronladau	1,723	3,659
	<b>619,584</b>	<b>701,573</b>

## Gwerthoedd teg

Isod mae cymhariaeth, fesul categori, o lyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth 2022.

### Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2022

	Llyfrwerth £'000	Gwerth teg £'000
Arian Parod <sup>1</sup>	10,008	10,008
Buddsoddiadau <sup>2</sup>	427,088	427,088
Symiau derbyniadwy <sup>3</sup>	15,143	15,143
	<b>452,239</b>	<b>452,239</b>

### Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2021

	Llyfrwerth £'000	Gwerth teg £'000
Arian Parod <sup>1</sup>	4,537	4,537
Buddsoddiadau <sup>2</sup>	328,748	328,748
Symiau derbyniadwy <sup>3</sup>	13,309	13,309
	<b>346,594</b>	<b>346,594</b>

## Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2022

	Llyfrwerth £'000	Gwerth teg £'000
Symiau grant taladwy <sup>4</sup>	616,275	616,275
Symiau gweithredu taladwy <sup>5</sup>	921	921
Symiau taladwy eraill <sup>5</sup>	665	665
Cronladau <sup>5</sup>	1,723	1,723
	<b>619,584</b>	<b>619,584</b>

## Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2021

	Llyfrwerth £'000	Gwerth teg £'000
Symiau grant taladwy <sup>4</sup>	696,457	696,457
Symiau gweithredu taladwy <sup>5</sup>	822	822
Symiau taladwy eraill <sup>5</sup>	635	635
Cronladau <sup>5</sup>	3,659	3,659
	<b>701,573</b>	<b>701,573</b>

### Sail prisio teg

- Y ffigur hwn yw gwerth yr adneuoedd gyda banciau masnachol. Y disgwyliad yw y bydd y llyfrwerth yn cyfateb i'r gwerth teg.
- Rheolir y buddsoddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae ef neu hi'n darparu manylion llyfrwerth a gwerth teg ein balansau ar gyfer yr ymddiriedolwyr ar ddyddiad y datganiad o Sefyllfa Ariannol.
- Ni phennir bod angen darparu ar gyfer drwgddyddled. Nid yw unrhyw un o'r dyledion yn rhai tymor hir ar wahân i'r benthyciadau tymor hir.
- Er ein bod yn datgelu gwerth £402miliwn o symiau grant taladwy nad ydynt yn ddyledus i'w talu tan ar ôl un flwyddyn yn y datganiad o sefyllfa ariannol, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r ymddiriedolwyr o dan rhwymedigaeth gontract i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf os bydd y prosiectau treftadaeth sylfaenol yn gwneud cynnydd cyflymach na'r hyn a ddigwyllir.
- Mae'r holl symiau taladwy yn ddyledus o fewn telerau contract arferol, 14-30 niwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng llyfrwerth a gwerth teg.

## Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Ymhen llai nag un flwyddyn	619,584	701,573
Ymhen mwy nag un flwyddyn ond llai na dwy	0	0
Ymhen dwy i bum mlynedd	0	0
Ymhen mwy na phum mlynedd	0	0
	<b>619,584</b>	<b>701,573</b>

Mae'r datganiad o sefyllfa ariannol yn datgelu'r ffigurau uchod wedi'u gwahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn ac ymhen mwy nag un flwyddyn. Nid yw ein contractau gyda grantion yn cynnwys unrhyw raniad rhwng symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn a'r tu hwnt i un flwyddyn. Mae'r rhaniad a adroddir yn y cyfrifon hyn yn seiliedig yn gyfan gwbl ar ein profiad blaenorol o symiau a dynnir i lawr gan grantion i ariannu eu prosiectau. Yn ddamcaniaethol, gallai grantion ofyn am eu grant cyfan o fewn y 12 mis

# Y datganiadau ariannol

nesaf os cwblhawyd eu prosiectau o fewn y cyfnod hwnnw.

Gan hynny rydym wedi mabwysiadu ymagwedd ochelgar ac wedi dangos bod yr holl rwymedigaethau'n aeddfedu o fewn un flwyddyn.

## 18. Datganiad o golledion a thaliadau arbennig

Fe wnaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol golledion drwy ddileu pum grant gwerth £96,381 yn y flwyddyn (2019–20: pum grant gwerth £63,655).

## 19. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl 31 Mawrth 2022 hyd at ddyddiad y llofnododd y Swyddog Cyfrifyddu y cyfrifon hyn y mae angen eu datgelu. Awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar 14 Gorffennaf 2021 gan yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 20. Costau staff

Roedd y costau staff ar gyfer 2021–22 fel a ganlyn:

	2021–22 £'000	2020–21 £'000
Cyflogau	<b>10,300</b>	8,323
Taliadau YG y Cyflogwr	<b>1,006</b>	736
Taliadau i'r cynllun pensiwn	<b>2,693</b>	2,168
Costau staff dros dro	<b>187</b>	360
	<b>14,186</b>	11,587

# Cyfarwyddiadau polisi

# Cyfarwyddiadau polisi

## Llywodraeth y DU

Rhoddir y cyfarwyddiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan ddefnyddio ei bwerau o dan adrannau 26(1) a (2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 mewn perthynas â dosbarthu arian o dan Adran 25(4) y Ddeddf honno.

Mae'r cyfarwyddiadau DU yn berthnasol i'r holl grantiau ariannu a wneir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa). Mae cyfarwyddiadau ychwanegol yn berthnasol ar gyfer pob un o wledydd y DU.

Wrth benderfynu i bwy y mae'n dosbarthu arian, at ba ddiben, ac o dan ba amodau, bydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cymryd y materion a ganlyn i ystyriaeth:

1. Mewn partneriaeth ag arianwyr a rhanddeiliaid eraill, asesu anghenion treftadaeth y DU\* i gyfeirio dyfarnu cyllid, gan gymryd unrhyw ddynodiad a threftadaeth mewn perygl i ystyriaeth benodol.

Yn 2021–22 sefydlwyd Pwls Treftadaeth y DU mewn partneriaeth â Historic England a'i gefnogi gan Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon, Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad a'r Gynghrair Treftadaeth. Mae Pwls Treftadaeth y DU yn brosiect mewnwelediad cydweithredol i helpu i lywio a siapio dulliau o adfer yn y sector treftadaeth yn dilyn y pandemig, ac i ddylanwadu ar ein blaenoriaethau a'n strategaeth cyllido. Roedd yr arolwg cyntaf yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol—hyder, COVID-19, staffio a blaenoriaethau strategol, gan roi cipolwg amhrisiadwy inni ar y materion a'r heriau i'r sector ar draws y meysydd hyn. Mae Pwls yn dangos i ni fod sefydliadau treftadaeth wedi cynnal eu cronfeydd ariannol

wrth gefn drwy don Omicron y pandemig, ond eu bod yn wynebu heriau o ran staffio a recriwtio sy'n effeithio ar eu gallu i gynnal prosiectau mawr. Fe wnaethom gynnal gweminar gyda dros 50 o sefydliadau treftadaeth i drafod y canlyniadau ym mis Mawrth 2022.

Yn 2021, cynhaliwyd ail arolwg Agweddau a Sgiliau digidol ar gyfer Treftadaeth (DASH) i ddarparu meincnod o sgiliau a hyder digidol a deall blaenoriaethau datblygu'r sector yn well, fel rhan o'n menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth (DSfH) ehangach. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2022, ac mae'n cynnwys ymatebion gan 4,514 o weithwyr, gwirfoddolwyr a gweithwyr llawrydd o 323 o sefydliadau treftadaeth, sy'n cynrychioli pob rhan o'r DU ac ar draws pob math o dreftadaeth.

Mae arolwg eleni'n dangos bod y sector wedi canolbwyntio ar ddefnyddio digidol i barhau i weithio drwy gydol y pandemig, a bod angen cymorth o hyd mewn perthynas â swyddogaethau busnes craidd. Mae angen symudiad mwy strategol wrth feddwl am ddigidol yn y tymor hwy ac efallai y bydd angen cymorth ar dimau arweinyddiaeth a byrddau yn hyn o beth. Nododd yr ymchwilyr gysylltiad cadarnhaol rhwng yr hyfforddiant a ddarparwyd fel rhan o'r fenter DSfH a chynnydd mewn sgiliau, yn enwedig mewn perthynas â defnydd o gyfryngau cymdeithasol a nodwyd fel blaenoriaeth yn arolwg 2020.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau eleni, byddwn yn lansio sawl prosiect DSfH newydd gan gynnwys hyfforddiant i sefydliadau i ddatblygu modelau a gwasanaethau busnes digidol, datblygu arweinyddiaeth ddigidol, cyfleoedd rhwydweithio ar gyfer uwch arweinwyr y sector ac aelodau o'r bwrdd, a hyb dysgu ar-lein newydd.

Yn dilyn ein gwaith arloesol wrth gynhyrchu'r adroddiadau State of UK Public Parks yn 2014 a 2016, yn 2021 fe wnaethom gynorthwyo'r Gymdeithas Rhagoriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus i ail-wneud yr arolwg, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022. Mae'r arolwg yn dangos bod cyflwr parciau cyhoeddus y DU yn parhau i ddirywio er gwaethaf y cynnydd mawr yn y galw yn sgil COVID-19. Bydd yr ymchwil yn helpu i gyfeirio buddsoddiad yn y dyfodol gan y Gronfa Treftadaeth i gyflawni buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Trwy weithio gyda'r Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, bu i ni ni gefnogi eu gwaith o ail-gynnal eu



harolwg o elusennau amgylcheddol yn y DU, a gynhaliwyd am y tro cyntaf ar ddechrau'r pandemig COVID-19 yn 2020. Cyhoeddwyd yr arolwg newydd ym mis Awst 2021 ac mae'n rhybuddio am golli incwm i nifer o elusennau ynghyd â stolio prosiectau sydd â'r nod o gefnogi adferiad natur er mwyn cyrraedd targedau'r Llywodraeth.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â chyllidwyr a rhanddeiliaid eraill i asesu angen, rhannu mewnwelediad a chysoni ein hymagwedd at gyfeirio cyllid ar gyfer amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd hanesyddol. Ym mis Chwefror 2022, lansiodd ein hymgyrch Casgliadau Dynamig. Mae hyn yn ymateb i anghenion a nodwyd yn adolygiad Mendoza 2017, yn ogystal â materion ac arloesedd sydd wedi dod i'r amlwg drwy'r pandemig. Mae'r cyllid hwn yn cyd-fynd yn agos â chynllun Unlocking Collections Cyngor Celfyddydau Lloegr, ac rydym yn datblygu gwaith gyda rhanddeiliaid allweddol ym mhob gwlad i rannu gwybodaeth a darparu cymorth i'r sector fel rhan o'r ymgyrch.

Bu i ni gwrrd yn rheolaidd â chyllidwyr a rhanddeiliaid yn y sector Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau i gael mewnwelediad ac asesu angen. Roeddem hefyd yn aelod o amrywiaeth eang o grwpiau'r sector gan gynnwys y Gweithgor Datgelu Archifau, Grŵp Gweithlu'r Amgueddfeydd, Treftadaeth, Amgueddfeydd a Chasgliadau mewn Perygl, Sefydliadau Amgueddfeydd, a grŵp sy'n edrych ar ddata amgueddfeydd yng Ngogledd Iwerddon.

\* Mae hyn yn cynnwys treftadaeth ddiwylliannol, naturiol ac anniriaethol ond nid yw'n gyfyngedig iddynt.

## 2. Cynnwys y cyhoedd a chymunedau lleol wrth lunio polisiau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu arian.

Penodir ein chwe phwyllgor gwlad ac ardal drwy recriwtio agored i ddarparu amrywiaeth ac ystod eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yn ogystal â lledaeniad daearyddol ar draws y tair ardal. Mae'r Pwyllgorau'n gwneud penderfyniadau ar grantiau rhwng £250,000 a £5miliwn.

Mae 13 Ardal Ffocws y Gronfa wedi'u harwain gan weledigaeth i roi treftadaeth wrth wraidd cymunedau a lleoedd ffyniannus. Yn hanesyddol, mae'r 13 Ardal hyn wedi derbyn llai o'n cyllid y pen, ac maent yn uchel ar sawl Mynegai Amddifadedd. Ers 2019, mae timau Ymgysylltu wedi gweithio'n strategol gyda rhanddeiliaid ym mhob Ardal i nodi ac ymdrin ag anghenion a dyheadau lleol drwy

dreftadaeth. Mae'r potensial cyflawni ar gyfer pob Ardal yn dibynnu'n helaeth ar gapasiti ac ymgysylltiad diwylliant/treftadaeth presennol neu seilwaith y Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol, ac mewn llawer o achosion mae wedi cael ei gymhlethu ymhellach gan effaith y pandemig ar bartneriaid allweddol fel Awdurdodau Lleol. Er gwaethaf yr her hon, bu cynnydd da wrth gynnwys cymunedau lleol mewn sgysiau a phenderfyniadau am eu treftadaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Fforymau treftadaeth poblogaidd ac wedi'u trefnu'n lleol, er enghraifft yn Luton, Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln a Gogledd Swydd Lanark. Mae'r Fforymau hyn yn deor syniadau treftadaeth, partneriaethau, ac adnoddau/cefnogaeth i wneud ceisiadau i Gronfa Treftadaeth ac arianwyr eraill. Yn aml gallant fod yn gam cyntaf tuag at grwpiau llywio cymunedol mwy sefydledig, ac weithiau maent yn gysylltiedig â rhaglenni Grantiau Cymunedol, megis y fforwm sy'n cael ei redeg gan One Knowsley
- Paneli llywio cymunedol a gwneud penderfyniadau ar gyfer rhaglenni grant Trydydd Parti'r Gronfa Treftadaeth, megis yn Newham ac Enfield. Mae'r rhain yn Ardaloedd lle'r oedd fforymau treftadaeth eisoes wedi'u sefydlu'n rhannol, ac mewn un achos (Newham) roedd profiad lleol fu'n bodoli eisoes o wneud grantiau dan arweiniad y gymuned
- Gweithgarwch treftadaeth a ariennir yn dorfol sy'n digwydd yn Walsall, drwy'r llwyfan Crowdfund Walsall
- Cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau, polisiau a rhaglenni treftadaeth newydd sy'n cynnwys cymunedau lleol mewn ymgynghoriadau. Cyflwynir y gefnogaeth hon trwy ein Rhaglen Agored, neu drwy gomisiynu penodol. Mae hyn yn cynnwys: Cynllun Gweithredu Treftadaeth yn Walsall (law yn llaw â grantiau cymunedol); Strategaethau Treftadaeth yn Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot, Arfarniad o Opsiynau a Dyluniad Gwasanaeth Treftadaeth (Enfield a Newham)

Gan nad oes Ardaloedd Ffocws yng Ngogledd Iwerddon, rydym wedi ariannu prosiect i sicrhau bod cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol yn gallu cael mynediad at gyllid a chefnogaeth drwy'r Rhwydwaith Cymunedol Gwledig. Bu i ni ariannu Thrive hefyd, asiantaeth

# Cyfarwyddiadau polisi

datblygu cynulleidfaoedd diwylliannol Gogledd Iwerddon, i sefydlu Culture Beyond Covid for Heritage: The Heritage Panel. Fe wnaethon nhw siarad â phobl ar draws Gogledd Iwerddon am eu bywydau a sut mae rôl treftadaeth yn eu bywydau wedi cael ei effeithio gan COVID-19. Mae'r mewnwelediadau allweddol yn cael eu rhannu â sector treftadaeth Gogledd Iwerddon, gan helpu sefydliadau treftadaeth i gynllunio ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n dychwelyd drwy ddeall eu hanghenion a siapio cyfathrebu, rhaglennu ac adnoddau i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn ail-gysylltu â threftadaeth.

### 3. Ehangu mynediad a chyfranogiad ar gyfer y rhai nad ydynt yn elwa o'r cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Rydym yn cydnabod tangynrychiolaeth presennol llawer o bobl a chymunedau gyda nodweddion gwarchoddedig mewn treftadaeth mewn deddfwriaeth Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r pandemig wedi cael effeithiau anghymesur ar bobl a chymunedau sydd eisoes yn profi mynediad cyfyngedig i dreftadaeth, er enghraifft trwy anabled neu dlodi.

Mae ein canlyniad gorfodol 'ystod ehangach o bobl yn cymryd rhan mewn treftadaeth' yn parhau i sicrhau bod pob prosiect yr ydym yn ei ariannu yn ceisio ehangu eu cynulleidfaoedd drwy eu prosiect neu ymgysylltu â chynulleidfaoedd presennol yn achos sefydliadau sy'n canolbwyntio ar weithio gyda phobl o grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol gan dreftadaeth ar hyn o bryd.

Yn ein cyfathrebiadau allanol drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi amlygu rôl cyfranogiad treftadaeth gynyddol ar gyfer cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol, gan gynnwys cyflawniadau Sheffield Environmental Movement wrth ymgysylltu ag ystod eang o gymunedau lleiafrifol gan gynnwys ffoaduriaid ar draws Gogledd-ddwyrain Lloegr. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cynnwys cyfleoedd preswyl i dros 70 o bobl sydd â mynediad pleserus a diogel i Barc Cenedlaethol y Peak District.

Rydym wedi cyfrannu at weithio ar fynediad, tegwch ac amrywiaeth yn y sector treftadaeth a sectorau cysylltiedig. Mae'r Gronfa wedi bod yn aelod gweithgar o'r Grŵp Cyfeirio Polisi Gwerth Diwylliannol, gan gefnogi ymchwil ar effaith

COVID-19 ar draws y sector diwylliannol. Mae data a thystiolaeth y Gronfa wedi cyfrannu at yr ymchwil effaith ddylanwadol hon mewn perthynas â'r pandemig yn y DU. Mae tri chanfyddiad allweddol ar draws y sector diwylliannol ehangach o arwyddocâd strategol i waith y Gronfa i gynyddu mynediad at dreftadaeth a chyfranogaeth:

- **Cynulleidfaoedd:** Er gwaethaf y nifer fawr sydd wedi derbyn brechlynnau, mae hyder y boblogaeth wrth dychwelyd i leoliadau diwylliannol wedi parhau'n ystyfnig o isel drwy gydol 2021. Er bod y newid i ddigidol wedi trawsnewid profiadau diwylliannol i'r rhai sydd eisoes yn ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol, methodd ag arallgyfeirio cynulleidfaoedd diwylliannol.
- **Gweithlu:** Mae sector diwylliannol y DU yn wynebu bylchau sylweddol o ran sgiliau a'r gweithlu. Mae'r pandemig yn dal drych i fyny i sector sy'n hynod anghyfartal yn ddiwylliannol. Ni phrofwyd ei effaith yn gyfartal ar draws y sector, gyda gweithwyr iau, menywod a gweithwyr o gefndiroedd ethnig amrywiol ymhlith y rhai yr effeithiwyd arnynt galetaf o ran colli gwaith ac incwm. I weithwyr llawrydd, sy'n ffurfio rhan sylweddol o'r gweithlu diwylliannol, roedd yr effaith yn fawr ac weithiau'n ddinistriol.
- **Sefydliadau:** Chwaraeodd rhwydweithiau ran allweddol wrth feithrin cydnerthedd ac, yn sgil y pandemig a Black Lives Matter, ail-werthusodd llawer o sefydliadau diwylliannol eu perthnasedd i gymunedau lleol. Ategwyd hyn gan gynydd mewn ymgysylltiad hyperleol oherwydd effeithiau cyfyngiadau'r cyfnod clo ar deithio ac ymddygiad. (Canolfan Gwerth Diwylliannol.)

Fel cyfrannwr gweithredol i DCMS aeth ati i gynnull Tackling Loneliness Network, mae'r Gronfa yn parhau i gyfrannu tystiolaeth y sector treftadaeth ar bŵer ymgysylltu â threftadaeth i ddod â phobl a chymunedau ynghyd.

Cyfrannodd y Gronfa Treftadaeth dystiolaeth at yr adroddiad 'Out of Bounds: Equity in Access to Urban Nature', a gyd-awdurwyd gyda rhanddeiliaid y sector a phartneriaid gan gynnwys Groundwork, Mind, RSPB, YHA. Mae'r adroddiad yn pwysleisio rôl partneriaethau traws-sector wrth wella tegwch. Mae'r adroddiad wedi cael ei hybu'n eang ac mae'n dylanwadu ar y sector treftadaeth ehangach, gan gynnwys y prosiectau trawsnewidiol y dyfarnwyd cyfanswm o £50miliwn iddynt drwy ein Grantiau

Treftadaeth Gorwelion, wrth adeiladu arferion busnes cynaliadwy a chynhwysol.

#### 4. Ysbrydoli plant a phobl ifanc, gan ddefro eu diddordeb a chyfranogiad yn y gweithgareddau o fewn cylch gwaith yr achosion treftadaeth da.

Cwblhaodd y 12 prosiect a ariennir trwy ein rhaglen ieuencid wedi'i thargedu ar raddfa fawr, Kick the Dust, eu pedwaredd flwyddyn o gyflwyno yn 2021–22. Mae'r prosiectau hyn wedi ymgysylltu â miloedd o bobl ifanc o bob cwr o'r DU dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda nifer o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cymryd rhan. Er enghraifft, mae ein gwerthusiad yn dangos bod 27% o'r cyfranogwyr wedi'u nodi fel ethnigrwydd Asiaidd, Du, Arabaidd neu gymysg, a 46% yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (arolygon o 2019–20). Mae prosiectau hefyd wedi cynnwys pobl ifanc LHDT+ ac anabl, gyda llawer o weithgareddau'n canolbwyntio ar greu cynnwys mwy cynhwysol. Mae pobl ifanc wedi bod yn rhan o ystod eang o gyfleoedd, o ddigwyddiadau blasu drwodd i brentisiaethau cyflogedig, ac rydym wedi gweld cyfranogwyr yn symud ymlaen i rolau cyflogaeth ac ymddiriedolwr yn y sector treftadaeth.

Mae grantion a phartneriaid i gyd wedi ceisio ymwreiddio ymgysylltiad ieuencid mewn treftadaeth ac wedi hyfforddi cannoedd o staff i weithio gyda phobl ifanc, yn ogystal â chyflwyno cyfleoedd i bobl ifanc fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar draws ystod ehangach o weithgareddau. Erbyn hyn maent yn ymchwilio i sut i barhau â lefel ac ansawdd ymgysylltu ieuencid y tu hwnt i hyd y prosiect, er enghraifft dod ag elfennau o'r prosiectau i gyllidebau craidd ac edrych ar ffynonellau cyllid eraill.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc drwy ein rhaglenni grant agored a'n buddsoddiad yn Jiwbil Platinwm y Frenhines gan gynnwys y canlynol:

Ym mis Ionawr 2022 dyfarnwyd £2.7 miliwn ar gyfer Parth Ieuencid Grimsby i adfer, adnewyddu ac ymestyn adeiladau presennol ar safle Gradd II rhestredig West Haven Maltings y dref. Mae'r lleoliad hanesyddol, sydd bellach mewn cyflwr adfeiliedig, ar gofrestr 'mewn perygl' Historic England ar hyn o bryd. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd y Parth Ieuencid yn croesawu hyd at 5,000 o aelodau ifanc i'w gyfleusterau ieuencid o'r radd flaenaf.

Cymerodd y bobl ifanc rôl flaenllaw yn y cais am gyllid a bydd y prosiect yn cynnwys pobl ifanc Grimsby yn bwrw ymlaen â stori newydd Grimsby, gan ddatblygu ymdeimlad o falchder yn eu tref.

Ym mis Mawrth 2022 cyhoeddwyd cynlluniau i fuddsoddi mewn 70 o leoliadau gwaith â thâl i bobl ifanc mewn amrywiaeth o sefydliadau natur ac amgylcheddol i nodi'r Jiwbil Platinwm y Frenhines. Bydd y bobl ifanc o gymunedau a dangynrychiolir ar hyn o bryd yng ngweithlu'r sector natur, yn cael mynediad i gyflogaeth yn y sector ac yn cynnal eu cyflogaeth.

#### 5. Maethu mentrau sy'n dod â phobl ynghyd, cyfoethogi'r parth cyhoeddus a chryfhau cymunedau.

Mae gan Awdurdodau Lleol, fel perchnogion cyfran sylweddol o'n treftadaeth ddiwylliannol a naturiol a chyda buddiant sylfaenol yn y parth cyhoeddus, rôl allweddol yn ein gwaith o gryfhau cymunedau a lleoedd trwy dreftadaeth. Yn 2021 bu i ni gyhoeddi ymchwil a ganfu ymwybyddiaeth gymysg o gyfleoedd cyllido diwylliant a threftadaeth genedlaethol o fewn Llywodraeth Leol, yn ogystal â diffyg capasiti ar lefel leol i lywio a gwneud cais am wahanol ffrydiau ariannu.

Mewn ymateb i'r ymchwil bu i ni gydweithio â Historic England a Chyngor Celfyddydau Lloegr i ddarparu tri gweminar ar gyfer aelodau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), wedi'u rhannu ar draws Gogledd Lloegr, y Canolbarth Lloegr a'r Dwyrain, a Llundain a De Lloegr. Daeth y sesiynau â dros 250 o gynrychiolwyr sefydliadau Awdurdodau Lleol at ei gilydd i ystyried y rôl y gall treftadaeth a diwylliant ei chwarae wrth greu lleoedd, gan gwmpasu adfywio economaidd, gwella'r parth cyhoeddus ac ymgysylltu â'r gymuned. Rhannwyd llwybrau ariannu a chyfleoedd ariannu cyfatebol. Bu i ni arddangos cyfranogiad cymunedol ar sail diwylliant mewn treftadaeth leol a siapio lleoedd trwy brosiect o'r cynllun Great Place a ariennir ar y cyd gan y Gronfa Treftadaeth ac ACE.

Rydym wedi parhau â'n partneriaeth â Historic England a Chyngor Celfyddydau Lloegr ar Raglen Ddiwylliannol Parth Gweithredu Treftadaeth Stryd Fawr. Mae gweithgaredd diwylliannol dan arweiniad cymunedol yn digwydd ar draws strydoedd mawrion i gysylltu pobl â'u strydoedd mawrion a dathlu pwysigrwydd yr ardaloedd hanesyddol hyn fel rhai sy'n ganolog i'w cymunedau.

# Cyfarwyddiadau polisi

Mae Grantiau Treftadaeth Gorwelion Amgueddfa Paisley ac International Slavery Museum yn dangos tystiolaeth gynnar o ddefnyddio partneriaethau cyd-gynhyrchu gyda chymunedau yn Paisley a Lerpwl yn y drefn honno. Trwy gydnabod a gwerthfawrogi'r daliadau treftadaeth lleol hyn, sydd yn aml yn bersonol, a rhoi adnoddau i'r partneriaethau hyn, caiff perthnasedd strategol mwy hirdymor y sefydliad treftadaeth ei ddatblygu a'i gryfhau i fod yn adnodd mwy perthnasol a chyfoes i gymunedau lleol.

Mae'r prosiect Wilderness yn enghraifft ragorol o sut mae gwella mynediad at fannau gwyrdd yn creu buddion i bawb sy'n cymryd rhan ar yr un pryd â chefnogi ymgysylltiad cymunedol. Gwellodd y prosiect gyfleoedd gwirfoddoli lleol ac ymgysylltiad cymunedol â'r cartref gofal drwy ddigwyddiadau cyhoeddus awyr agored creadigol eang a phoblogaidd yn yr ardd wedi'i hadfer. Fe wnaethom fuddsoddi £744,700 wrth adfer Gardd Fictoriaidd sydd wedi'i hesgeuluso ond roedd llawer yn hoff iawn o fewn tir cartref gofal Methodist Homes Association (MHA) yn Shirley, Croydon. Eleni mae'r gwerthusiad wedi dangos gwell canlyniadau iechyd a lles i breswylwyr cartrefi gofal a gwell ymdeimlad o hwyl a hyder i bobl sy'n byw gyda dementia, yn dilyn teithiau cerdded yn yr Wilderness Garden wedi'i hadfer. Mae MHA wedi siarad am y newid ar gyfer rheolwyr o ran cydnabod gwerth treftadaeth a mynediad o ansawdd uchel i fyd natur i breswylwyr a staff.

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi a rhannu treftadaeth y DU, yn darparu cyfleoedd hanfodol i'r gymuned gymryd rhan a rhannu a datblygu eu sgiliau eu hunain. Ym mis Tachwedd 2021 fe wnaeth y prosiect Gwirfoddoli Digidol DSfH ariannu 17 o sefydliadau i greu cannoedd o rolau gwirfoddoli digidol newydd ar draws y DU. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i'r sefydliadau ymchwilio i sut i ymwreiddio cyfleoedd digidol ar draws eu sefydliadau ac ysbrydoli a dangos gwerth gwirfoddoli digidol i sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda threftadaeth. Bydd y prosiectau'n galluogi sefydliadau i elwa o safbwyntiau a sgiliau pobl nad ydynt efallai wedi cael y cyfle i wirfoddoli o'r blaen a hyrwyddo hygyrchedd a chynhwysiad. Er enghraifft, bydd Museum and Heritage Access 2022, dan arweiniad Vocal Eyes yn hyfforddi 30 i 50 o wirfoddolwyr o gymunedau byddar, anabl a niwroamrywiol, i sicrhau bod gwefannau treftadaeth yn hygyrch yn ddigidol.

## 6. Cefnogi ac adeiladu gallu ehangder llawn y gweithlu treftadaeth, o wirfoddolwyr i weithwyr proffesiynol, i sicrhau cadwraeth treftadaeth gyda'r sgiliau priodol.

Yn ystod 2021–22 dechreuwyd ar bartneriaeth ymchwil a datblygu dau gam gyda Sefydliad Young i gyfeirio sut y gallai'r Gronfa Treftadaeth gefnogi cyflymu syniadau ac ymagweddau datblygol newydd orau y mae eu hangen i gefnogi dyfodol tymor hwy treftadaeth y tu hwnt i'r pandemig. Roedd y cam darganfod cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn yn cynnwys 13 cyfweiliad a 5 gweithdy gyda chroestoriad o dros 100 o ymarferwyr ar hyd a lled treftadaeth y DU, wedi'i ategu gan ymchwil ddesg.

Gan ddilyn adolygiad o'r mewnwelediadau Cam Darganfod hyn nodwyd 'gweithlu' fel yr her arloesi flaenoriaethol yr oedd angen cymorth pellach ar y sector i'w harchwilio a mynd i'r afael â hi. Yn dilyn adolygiad tystiolaeth manwl, mae cronfa arloesedd bwrpasol wedi'i dylunio i'w lansio yn 2022, gan ddarparu cyllid a chymorth anariannol i sefydliadau archwilio a datblygu syniadau newydd mewn perthynas â ffyrdd o weithio dros dreftadaeth yn y dyfodol. Mae'r meysydd sydd o fewn cwrpas yn cynnwys:

- Recriwtio: edrych ar arferion neu offer newydd a fyddai'n herio ffyrdd presennol o weithio ac yn cynnig llwybrau amgen i dreftadaeth
- Cadw: archwilio datrysiadau ymarferol i broblemau cadw (e.e. mewn perthynas ag iechyd a lles neu ddiffyg llwybrau dilyniant) neu newidiadau diwylliannol y mae eu hangen i alluogi ffyrdd newydd o weithio
- Ailddychmygu gwirfoddoli mewn byd digidol ôl-covid
- Symleiddio prosesau busnes craidd sylfaenol cyfaint uchel a thra ailadroddus a fyddai'n gwneud eich sefydliad yn fwy effeithlon ac yn eich galluogi i greu amodau gwell ar gyfer eich gweithlu

Trwy'r gronfa hon byddwn yn ceisio cefnogi:

- Timau, sefydliadau ac ymarferwyr treftadaeth i adeiladu at y dyfodol – yn hytrach nag adeiladu model yn ôl na fydd yn cwrdd â heriau heddiw ac yfory
- Adeiladu dynamiaeth o fewn isadeiledd sefydliadol treftadaeth

- Gwell cynhyrchiant gan gynnwys canlyniadau gwell i fuddiolwyr

Fe wnaethom ariannu dros 200 o brosiectau a sgoriodd yn uchel yn erbyn ein canlyniad 'bydd pobl wedi datblygu sgiliau' yn 2021–22. Mae enghreifftiau'n ymwneud â'r treftadaeth warchod gan gynnwys hyfforddiant i ddigideiddio deunydd archif hyd at gymrodoriaethau peirianeg treftadaeth a chreffft melino mewn partneriaeth ag Amgylchedd Hanesyddol Yr Alban a chyflwyno pobl ifanc i'r sgil adeiladu treftadaeth o gynnal ac atgyweirio Gwrychoedd Cernyweg. Mae Groundwork De a Gogledd Tyneside yn cefnogi cymunedau i ymadfer yn sgil Covid gan ddefnyddio eu Pentref Eingl-Sacsonaidd wedi'i (ail)adeiladu fel offeryn ar gyfer ymgysylltu a dysgu treftadaeth, meithrin sgiliau, hyder a gwella iechyd a lles cymunedau lleol. Mae eu project Skills from the Past for the Future yn cynnwys "Hyfforddi'r hyfforddwr" a dysgu sgiliau treftadaeth achrededig i gefnogi gwaith cynladwyedd/atgyweirio yn y dyfodol, diogelu'r adeiladau a'r sgiliau ar gyfer blynyddoedd i ddod.

## 7. Symbylu arloesedd a rhagoriaeth trwy annog arfer da a chyflawni safonau uchel y gellir darparu tystiolaeth ohonynt.

Fel yr amlinellir o dan gyfarwyddyd polisi 6, cynhaliodd y Gronfa Treftadaeth brosiect ymchwil a datblygu eang ei gwmpas mewn partneriaeth â Sefydliad Young yn ystod 2021–22. Trwy ymgysylltu ag amrywiaeth eang o sefydliadau treftadaeth, sefydlodd y prosiect hwn ymagwedd y Gronfa at sbarduno arloesedd a rhagoriaeth traws-sector ar gyfer y dyfodol drwy ddatblygu:

- ymyriad cyllid penodol sy'n canolbwyntio ar archwilio sut i greu modelau a ffyrdd addas ar gyfer y dyfodol o weithio dros dreftadaeth (gweler uchod)
- adeiladu tystiolaeth a dealltwriaeth gryfach ar draws treftadaeth o ymagweddau sydd â'r potensial i ymateb i'r heriau y mae sefydliadau'n eu hwynebu
- arwyddo gobaith ar gyfer dyfodol treftadaeth gan symud y tu hwnt i ganolbwynt adfer y flwyddyn ddiwethaf, a chan wneud buddsoddiad cadarnhaol yn y gweithlu treftadaeth ar ôl cyfnod heriol

Ar sail y gwaith hwn fe wnaethom symud ymlaen gyda chynllunio i lansio ymyriad ariannu arloesi newydd ar gyfer 2022–23.

Future Parks Accelerator yw ein menter ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Mae'r saith prosiect treftadaeth werdd drefol sy'n seiliedig ar le, a ddechreuwyd yn 2019, bellach ar y pwynt o ddatblygu gweledigaethau newydd o ran sut y dylid rheoli a chyllido eu mannau gwyrdd trefol a'u parciau hanesyddol yn y dyfodol er mwyn cyflwyno buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd allweddol. Mae Cyngor Dinas Birmingham wedi datblygu ymagwedd 'safon deg ar gyfer parciau' newydd sydd eisoes yn denu buddsoddiad newydd o enillion cynllunio, mae Cyngor Dinas Caeredin wedi datblygu ymagwedd newydd at greu Rhwydwaith Natur Drefol i dargedu buddsoddiad ac mae Plymouth wedi lansio Cronfa Dinas Gefnfor newydd fel cyfrwng buddsoddi newydd ar gyfer adfywio mannau gwyrdd trefol. Mae buddsoddiad cychwynnol y Gronfa Treftadaeth o £7miliwn yn y saith prosiect sy'n seiliedig ar le bellach wedi cataleiddio buddsoddiad pellach o bron i £40miliwn mewn mannau gwyrdd trefol a pharciau cyhoeddus.

## 8. Sicrhau y dosberthir arian ar gyfer prosiectau sy'n hybu'r budd cyhoeddus yn y tymor hir nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

Dyfernir grantiau mwy dros £100,000 y Gronfa ddim ond i sefydliadau nid er elw a phartneriaethau a arweinir gan sefydliadau nid er elw. Gall perchnogion preifat ymgeisio am grantiau gwerth hyd at £100,000 yn unig trwy ein rhaglenni agored. Mae angen i'r prosiectau hyn gyflwyno deilliannau cymdeithasol a chymunedol cadarnhaol a dangos y bydd y budd cyhoeddus yn gorbwyso unrhyw elw preifat yn sylweddol.

Trwy ein rhaglen Menter Treftadaeth, rydym yn parhau i gefnogi prosiectau sy'n sicrhau defnyddiau newydd ar gyfer adeiladau hanesyddol a danddefnyddir, sy'n ddiffaith neu mewn perygl, gan gynnwys at ddibenion tai. Rydym yn croesawu elfennau masnachol i'r defnyddiau newydd hyn pan fyddant yn cefnogi dichonoldeb y cynllun arfaethedig yn gyffredinol. Gall y mathau hyn o brosiectau gael eu harwain gan sefydliadau er elw mewn cydweithrediad â sefydliadau nid er elw.

## 9. Datblygu amcanion datblygu cynaliadwy.

O dan ein Fframwaith Ariannu Strategol presennol rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob prosiect leihau eu heffaith amgylcheddol negyddol a chofleidio cyfleoedd i gael effaith gadarnhaol. Rydym yn cefnogi datblygu sgiliau cynaladwyedd amgylcheddol ar gyfer prosiectau drwy grŵp rhwydweithio cynaladwyedd amgylcheddol Fit for the Future ochr yn ochr â chyrrff fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, English Heritage, Oxfam, Grŵp Yr Amgueddfa Wyddoniaeth a llawer o rai eraill. Yn ogystal, mae ein harweiniad ymgeisio wedi'i ddiweddarau i ganiatáu i ymgeiswyr llwyddiannus hawlio aelodaeth o Fit for the Future drwy gydol eu prosiectau fel rhan o'u dyfarniad grant i sicrhau bod cynaladwyedd amgylcheddol ar flaen y gad yn eu prosiectau a'u bod yn defnyddio'r arfer gorau diweddaraf. Trwy gyfres o sesiynau hyfforddi mewnol a rhaglenni ymgysylltu ar draws ein sefydliad, rydym wedi cynyddu gwybodaeth a hyder ein staff buddsoddi ac ymgysylltu i gefnogi ymgeiswyr a grantion yn well i sicrhau canlyniadau cynaladwyedd gwell.

Rydym wedi gosod targed datgarboneiddio ar gyfer ein gweithrediadau ein hunain i gyrraedd sero-net erbyn 2030 ac wedi comisiynu prosiect ymchwil i'n helpu ni i wella ein harfer adrodd, a diffinio ymagwedd at fesur effaith amgylcheddol y prosiectau rydyn ni'n eu hariannu. Rydym yn parhau i ddysgu o'r sector, gan rannu arferion gorau ar draws dosbarthwyr Loteri, cyrrff hyd braich a sefydliadau llywodraethol cenedlaethol a rhanbarthol. Yn 2021 dechreuwyd y broses o nodi cyfleoedd i'r Gronfa Treftadaeth gefnogi'r nodau datblygu cynaliadwy, gan ein galluogi i weithredu'n strategol tuag at ddatblygiad cynaliadwy sy'n cyd-fynd â safonau'r llywodraeth.

## 10. Gostwng amddifadedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan sicrhau bod gan bob ardal o'r Deyrnas Unedig fynediad i'r arian a ddosberthir.

Dyfarnwyd tua 400 o grantiau (48%) i sefydliadau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, degraddau IMD 1–3, gyda 18% o'r grantiau wedi'u dyfarnu i sefydliadau mewn ardaloedd yn negradd IMD 1. Lloegr oedd â'r gyfran uchaf o grantion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda 54% o grantion o Loegr yn negraddau IMD 1–3.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'n 13 Ardal Ffocws fel yr amlinellir o dan gyfarwyddyd polisi 2 i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth wrth ariannu ardaloedd daearyddol sy'n profi amddifadedd. Fe wnaethom gyflwyno ymagwedd a gyfeirir yn fwy gan ddata at ein buddsoddiadau mewn lleoedd, gan gyflwyno'r dangosfwrdd Fy Lleoedd i gefnogi ein timau ardal a gwledig i ddadansoddi ein buddsoddiad o fewn ardal leol, gan ddeall amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd lle, ac adolygu cysylltiadau â pholisi a chyllid cenedlaethol.

Mae Jiwbilî Platinwm y Frenhines wedi cynnig cyfle unigryw i greu etifeddiaeth parhaus ar gyfer adfer natur mewn ardaloedd difreintiedig. Ym mis Mawrth 2022, bu i ni fuddsoddi £5 miliwn o'n cyllid Jiwbilî yn ein partneriaeth â'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt. Bydd Nextdoor Nature yn grymuso pobl mewn ardaloedd trefol a gwledig sy'n ddifreintiedig yn economaidd i ymgymryd â phrosiectau sy'n helpu natur i ffynnu yn eu cymunedau ac yn tacio newid yn yr hinsawdd. Bydd y prosiect yn cefnogi tua 200 o grwpiau newydd i nodi a gweithredu cynlluniau lleol sy'n bwysig i'w cymuned.

## 11. Gweithio ar y cyd gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, i sicrhau effaith gadarnhaol cyllid y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys gwerthuso prosiectau a rhannu data pan fo'n briodol.

Bu i ni gydweithio â dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol i nodi 2022 fel 'blwyddyn o ddatllyd', gan gynnwys Jiwbilî Platinwm y Frenhines, Gemau'r Gymanwlad yn Birmingham ac Unboxed. Gyda'n gilydd, rydym yn buddsoddi o leiaf £22 miliwn mewn gweithgareddau i nodi Jiwbilî'r Frenhines a thros £40 miliwn yng Ngemau'r Gymanwlad a'u hetifeddiaeth. Rydym yn cywain data ar ein buddsoddiad ar y cyd yng ngweithgarwch Jiwbilî Platinwm y Frenhines i ddangos cyfraniad y Loteri Genedlaethol at y foment genedlaethol arwyddocaol hon.

Yn ystod 2021–22, bu i ni gyfrannu'n weithredol at adolygiad Fforwm y Loteri Genedlaethol o gyfleoedd data effaith a rennir, drwy archwilio'r ffactorau technegol, strategol a strwythurol a all gefnogi cydweithio sydd hyd yn oed yn gryfach yn y maes hwn. Gwnaethom hefyd ddatblygu ein gwasanaeth data agored ein hunain ymhellach yn 2021–22, gan

gyhoeddi mewn ystod ehangach o fformatau a safonau, gan gynnwys cronfa ddata loteri DCMS, System Gwybodaeth Grantiau Llywodraeth y DU a 360 Giving.

Bu i ni gyhoeddi ystod eang o adroddiadau gwerthuso ac ymchwil yn 2021–22, gan rannu gwybodaeth o'n gwaith gwneud grantiau gyda'r sector a dosbarthwyr eraill. Mae cyhoeddiadau diweddar wedi cynnwys ein hymchwil i effaith ein cyllid ar le, adolygiad o gyllid gwyrdd yn y DU a dadansoddiad o'r rhagolygon ar gyfer codi arian gan sefydliadau treftadaeth yn sgil y pandemig.

## 12. Cynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

Yn 2021 fe wnaethom ddiweddarau'r arweiniad cydnabyddiaeth ar gyfer deiliaid grant ar ein gwefan. Rydym yn disgwyl gweld ein stamp cydnabyddiaeth sy'n cynnwys y logo bysedd croes yn cael ei ddefnyddio'n amlwg ar bob prosiect yr ydym yn ei ariannu ynghyd â'r neges 'Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol'. Mae'n rhaid i'r holl ddeiliaid grant gydnabod cefnogaeth gan y Loteri Genedlaethol fel amod o'r grant drwy gydol y contract grant. Rydym yn mynnu cydnabyddiaeth trwy gydol y prosiect o'r cyhoeddiad hyd at ar ôl ei gwblhau. Wrth asesu cynnydd y prosiect, rydym yn chwilio am gydnabyddiaeth weledol briodol o'n grant. Mae cydnabyddiaeth yn gymesur â lefel y grant, er enghraifft disgwylir i waith cyfalaf mawr ddarparu cydnabyddiaeth lefel uchel. Rydym yn darparu ffeiliau y gellir eu lawrlwytho yn ogystal ag asedau cyfryngau cymdeithasol. Mae'n rhaid i'n logo fod yn weladwy mewn ardaloedd cyhoeddus, ar-lein, mewn deunyddiau hyrwyddo, hysbysebu a digwyddiadau ac rydym yn disgwyl cydnabyddiaeth o ran y sylw a roddir i brosiectau yn y cyfryngau.

## 13. Mynnu elfen o gyllid partneriaeth, neu gyfraniadau mewn da o ffynonellau eraill i'r graddau bod hyn yn rhesymol i'w gyflawni ar gyfer mathau gwahanol o ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol.

Myynnwn fod ymgeiswyr yn sicrhau isafswm lefelau o gyllid partneriaeth gan ddibynnu ar lefel y grant y maent yn ymgeisio amdano. Nid yw'n ofynnol i geisiadau am lai na £100,000 gael unrhyw gyllid

partneriaeth ond gallant nodi cyfraniadau arian parod yn unig ar y ffurflen gais.

Mae'n ofynnol cael isafswm o 5% o gyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau rhwng £100,000 ac £1miliwn. Mae'n ofynnol cael isafswm o 10% o gyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau o £1miliwn a mwy. Yn achos yr isafswm gofyniad 5 a 10% gellir darparu'r cyllid partneriaeth ar ffurf arian parod, ar ffurf nad yw'n arian parod neu fel amser gwirfoddolwyr.

### 14. Yr angen:

- i arian sy'n cael ei ddsbarthu gael ei gymhwyso dim ond i brosiectau sydd â diben penodol ac wedi'u cyfyngu gan amser;
- i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a chyngor arbenigol gofynnol i wneud penderfyniadau ar bob cais; ac
- i ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol prosiectau.

Atgyfnerthodd ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 ein hymagwedd at y cyfarwyddyd polisi hwn.

Mae'r prosiectau a gefnogwn yn rhai penodol sydd â chyfyngiad amser arnynt. Rydym yn cyfyngu ein cefnogaeth i uchafswm o bum mlynedd ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gweithgareddau.

Rydym yn gofyn am wybodaeth gan ymgeiswyr sy'n esbonio i ba raddau y bydd y prosiectau y maent yn eu cyflwyno'n gwneud achos cadarn dros fuddsoddi, y byddant yn cyflwyno ein erbyn ein naw canlyniad, eu bod yn ddichonol ac yn gynaliadwy yn ariannol ac yn darparu gwerth da am arian. Gall ein hasesiad gynnwys cyngor arbenigol ar agweddau allweddol ar y cais os bydd angen.

Rydym yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i ni i ddangos dichonoldeb ariannol eu prosiect, wedi'i dorri i lawr i gostau cyfalaf, gweithgareddau a chostau eraill a chan ddangos pa gyfraniad y maent yn bwriadu ei wneud o'u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion o ffynonellau eraill. Rydym yn gofyn am ragamcaniadau llif arian ac, ar gyfer prosiectau mwy o ran maint, incwm a gwariant am 10 mlynedd, sy'n dangos sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal y prosiect dros yr hir dymor.

# Cyfarwyddiadau polisi

15. Pan wneir cais am gyllid cyfalaf, yr angen:

- a) am gynllun busnes clir sy'n dangos sut y bydd unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw yn cael eu talu am gyfnod rhesymol, a
- b) am sicrhau bod arfarnu a rheoli ar gyfer prosiectau mawr yn adlewyrchu Safonau Adolygu Porth yr Awdurdod Prosiectau Mawr.

O dan ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 presennol, rydym yn mynnu bod yr holl brosiectau mawr (dyfarniadau dros £250,000) yn darparu cynllun busnes gyda'u cais cam datblygu a ddiwedderir wedyn gyda'u cais cam cyflwyno. Mae'r cynllun busnes ar gyfer y sefydliad yn hytrach na'r prosiect, gan adlewyrchu ein diddordeb mewn cydnerthedd sefydliadol a galluedd y sefydliad i gynnal buddiannau ein buddsoddiad dros y tymor hir. Rydym yn darparu set gyfan o arweiniad i grantion gan gynnwys cynnal a chadw adeiladau, cynllunio cadwraeth a rheoli a chynnal a chadw tirweddau, parciau a gerddi i helpu cyfeirio eu cynlluniau busnes a dylanwadu arnynt. Mae'r prosiectau a ariannwyd o dan ein Fframwaith Strategol 2013–2019 yn cael eu monitro'n unol â'r wybodaeth a ddarparwyd o fewn cais y Granti gan gynnwys unrhyw wybodaeth atodol sydd yn y cynllun gweithgareddau, rhagamcaniadau llif arian a thabl incwm a gwariant. Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys dros werth £200,000 o waith cyfalaf, rydym yn gofyn am gynllun rheoli a chynnal a chadw sy'n manylu sut y byddai'r ymgeisydd yn talu'r costau ychwanegol ar ôl cwblhau eu prosiect.

Ar gyfer grantion sy'n derbyn dyfarniadau gwerth dros £2miliwn, rydym yn monitro cynnydd yn erbyn cynllun busnes y prosiect a gyflwynir gyda chais y rownd gyflwyno. At hynny, mae'n ofynnol i brosiectau sydd ag elfen gadwraeth sylweddol gynnwys cynlluniau cadarn ar gyfer cynnal a chadw'r dreftadaeth dros y tymor hir.

Mae'r holl brosiectau'n mynd trwy broses caniatâd i ddechrau sy'n darparu porth priodol gan ddilyn cymeradwyaeth o'n buddiant yn y prosiect. Ar gyfer prosiectau cyfalaf rydym hefyd yn cynnwys pwyntiau adolygu ffurfiol yn ein prosesau asesu a monitro (sy'n cyfateb i gamau'r Cynllun Gwaith RIBA). Rydym yn cyflogi ymgynghorwyr arbenigol ar gyfran sylweddol o brosiectau sy'n derbyn dros £250,000 i helpu sicrhau bod prosiectau'n cyflwyno

yn erbyn y dibenion cymeradwy yn unol â'r contract, bod y risg i'r Gronfa'n cael ei deall a'i rheoli, y cyflawnir arfer gorau ym mhob maes critigol a bod yr adrodd a rheoli ariannol yn gadarn ac yn dryloyw.

16. Annog a chefnogi'r defnydd priodol o fodelau ariannu creadigol (benthyciadau, mentrau ariannu cymunedol, ariannu torfol etc) i gynyddu dichonoldeb prosiectau, cynladwyedd ariannol a'r buddsoddiad cyffredinol mewn treftadaeth.

Parhaodd dwy gronfa effaith, y Gronfa Effaith Treftadaeth (gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaerniol) a Chronfa Effaith y Celfyddydau a Diwylliant (gyda Nesta ac eraill), i gael eu cyflwyno yn 2021–22 fel rhan o'n strategaeth i drosoli buddsoddiad ychwanegol i'r sector ac annog sefydliadau sy'n gweithio ym maes treftadaeth i amrywiaethu eu ffrydiau incwm. Yn 2021, gwnaethom gwblhau gweithredu ein rhaglen benthyciadau pilot Cydnerthedd ac Adferiad, gan gynnig opsiwn cyllid ad-daladwy hyblyg ar gyfer sefydliadau sy'n ceisio ail-bennu eu gweithrediadau busnes ar gyfer adfer o effeithiau'r pandemig. Fe wnaethom hefyd gomisiynu Finance Earth, menter gymdeithasol, i gynnal ymarfer cwmpasu marchnad o Gyllid Gwyrdd, gan nodi cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg i gyllidwyr amgylcheddol ac elusennau amgylcheddol trosoli effaith o'r agenda hwn.

Mae'r saith sefydliad sy'n arwain rhaglenni datblygu Cymorth Busnes a Menter wedi cyfrannu arbenigedd at dri digwyddiad carfan a fynychwyd yn dda drwy gydol 2021–22, yn ogystal â'u darpariaeth o gannoedd o ddigwyddiadau a rhaglenni hyfforddi cymorth busnes rhanbarthol a chenedlaethol, sydd i gyd wedi'u teilwra i gyd-destunau lleol a sector. Mae dysgu cyffredinol o'r pandemig wedi cynnwys: yr angen am fod yn hyblyg wrth addasu dulliau wrth symud i offer digidol a dysgu rhithwir; parhau'n ystwyth wrth ymateb i anghenion cynllunio busnes datblygol a achosir gan y pandemig (e.e diogelwch ymwelwyr a staff), ac yn hollbwysig, parhau i fuddsoddi mewn cefnogi lles staff treftadaeth a gwirfoddolwyr drwy gydol y pandemig, gan gynnwys cyfleoedd rheolaidd i wirio i mewn a dal i fyny'n ddigidol. Cydnabuwyd cefnogaeth gan y Gronfa Treftadaeth yn eang, nid yn unig yn nhermau ariannol ond hefyd yn y pŵer ymgynnull sy'n parhau i alluogi rhannu arfer a phrofiadau'r



sector yn onest drwy amgylchiadau personol a phroffesiynol heriol. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod yn hollbwysig wrth alluogi'r sector treftadaeth i oroesi, addasu a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

## 17. Cynyddu sgiliau digidol, gallu, a defnyddio offer digidol, yng Nghronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r sector treftadaeth, annog gwell defnydd o ddeunyddiau treftadaeth ddigidol ac annog arloesedd digidol.

Mae'r fenter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth (DSfH), y mai ei nod yw codi sgiliau a hyder digidol ar draws sector treftadaeth y DU, wedi cwblhau ei hail flwyddyn ym mis Mawrth 2022. Hyd yma, mae DSfH wedi helpu a chyllido 65 o brosiectau ar draws y DU. Mae'r prosiectau hyn yn amrywio o sefydliadau bach yn mynd i'r afael â gwneud defnydd o dechnoleg am y tro cyntaf, i gynghreiriau o sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant i filoedd o bobl. Hyd at fis Rhagfyr 2021, roedd y fenter wedi darparu 7,510 o gyfleoedd cymorth sgiliau digidol unigol – pob cyfle yn amrywio o le mewn gweithdy dwy awr i gwrs blwyddyn a chymorth mentora.

Mae'r fenter DSfH wedi helpu llawer o sefydliadau i ddatblygu eu defnydd o ddigidol a gwneud defnydd o dechnolegau am y tro cyntaf. Bydd y sgiliau digidol sydd wedi helpu'r sector i lywio heriau'r pandemig yn hanfodol er mwyn meithrin cydnherthed yn y dyfodol. Ers 2020, rydym wedi ehangu'r fenter wrth ymateb i adborth gan y sector i ddarparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer arloesi, menter a sgiliau busnes digidol. Mae'r gyllideb gychwynnol bron wedi treblu o £1.2miliwn i £3.5miliwn, gan gynnwys cefnogaeth o £1miliwn gan Gronfa Adfer Diwylliant yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Mae'r arolygon DASH, dan arweiniad Timmus Ltd, yn cynrychioli meincnodi cynhwysfawr cyntaf sgiliau ac agweddau digidol y sector, ac wedi ein helpu i lunio ein gwaith. Mae cyfanswm o 8,232 o unigolion wedi cymryd rhan hyd yma, ac rydym wedi darparu data a chyngor wedi'u teilwra i 846 o sefydliadau sy'n cymryd rhan.

Rydym yn cefnogi 23 o sefydliadau hyder isel i ddechrau gyda digidol, gan gyfuno cyllid gyda chymorth mentora arbenigol. Mae ein tîm desg gymorth Codi Hyder wedi rhoi cefnogaeth un i un i 28 o sefydliadau eraill ar draws y DU. Rydym wedi rhoi £1miliwn i 17 o brosiectau anhygoel i'w helpu i

weithio gyda gwirfoddolwyr digidol, o eglwysi cadeiriol a chynghorau i dreftadaeth naturiol.

Mae Connected Heritage, a ariennir gan y Loteri Genedlaethol a DCMS, yn gweld wyth prosiect yn cydweithio i rannu eu harbenigedd ac adnoddau. Mae'r Academi Ddigidol Dreftadaeth, dan arweiniad Charity Digital Trust ac wedi'i hariannu trwy Gronfa Adfer Diwylliant DCMS, yn darparu ystod o hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar arloesi, menter a sgiliau busnes digidol.

Dechreuodd ail rownd ein prosiect datblygiad proffesiynol Arwain y Sector, dan arweiniad Culture24, yn 2021. Mae'r prosiect yn cyflwyno cyfres o chwe seminar ar-lein a chwe digwyddiad rhwydweithio wyneb yn wyneb yn hyrwyddo ac yn adeiladu uwch arweinyddiaeth ddigidol ar draws sector treftadaeth y DU. Bydd pob seminar ar-lein yn ymdrin â her berthnasol ac amserol y mae arweinwyr treftadaeth yn ei hwynebu nawr, lle mae arweinyddiaeth ddigidol hyderus a hyddysg yn chwarae rhan hanfodol. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth hybrid; sgiliau, llythrennedd a galluoedd digidol; cynhwysiad, tegwch a digidol; menter ddigidol; a digidol a'r argyfwng hinsawdd.

## 18. Cywain, deall a lledaenu data ar ymgyrhaeddiad, effaith a chynulleidfa gwaith Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a defnyddio'r ddealltwriaeth honno i wella polisiau a gweithdrefnau gwneud grantiau'r Gronfa, gan gynnwys cefnogi'r gwaith ar gyfranogiad. Dylid gwneud data mor dryloyw a hygyrch â phosib.

Rydym wedi comisiynu The Social Investment Consultancy (TSIC) i ymgymryd â gwaith ymchwil gyda sefydliadau a arweinir gan neu'n gweithio gydag unigolion sydd â nodweddion a dangynrychiolir yn ein portffolio ariannu ar hyn o bryd. Cynhaliwyd y rownd gyntaf o ymchwil yn hanner cyntaf 2021 gyda sefydliadau treftadaeth sydd eisoes yn gyfarwydd â'n gwaith, neu sydd wedi gwneud cais i ni o'r blaen. Ehangodd ail gam yr ymchwil yr ymagwedd at gyfweld â grwpiau treftadaeth nad ydynt erioed wedi ymgysylltu â'n sefydliad. Gwnaeth yr ymchwil argymhellion clir o ran sut y gallwn wella ein polisiau a'n gweithdrefnau gwneud grantiau, ac ymgorfforwyd y rhain yn yr argymhellion adolygu EDI a gymeradwywyd gan ein bwrdd.

# Cyfarwyddiadau polisi

Yn 2021–22 fe wnaethom hefyd gyflwyno ymagwedd newydd at gywain data ar broffil ymgeiswyr i'r Gronfa Treftadaeth, drwy greu arolwg cyfrinachol am nodweddion defnyddwyr ein porth buddsoddi. Mae hyn wedi gwella ein dealltwriaeth o bwy sy'n berthnasol i ni yn sylweddol a sut mae hyn yn cymharu â'r gynulleidfa yr ydym am ei chyrraedd. Cafodd dadansoddiad o'r arolwg hwn ei gynnwys yn yr adolygiad pwynt canol o'n Fframwaith Ariannu Strategol a bydd yn awr yn rhan o'n gweithdrefnau monitro perfformiad parhaus.

## Lloegr

1. Annog cadwraeth, cadwedigaeth, cyflwyniad, hyrwyddiad a dehongliad o dreftadaeth Lloegr, er mwyn iddi barhau i gael ei gwerthfawrogi a'i deall gan genedlaethau'r dyfodol.
2. Rhoi ystyriaeth i fuddiannau Lloegr yn gyffredinol a buddiannau rhannau gwahanol o Loegr, gan gymryd patrymau demograffaid ac amgylchiadau economaidd amrywiol rhannau gwahanol o Loegr i ystyriaeth.
3. Annog cynaladwyedd ariannol a, lle bo'n ddichonol ac yn briodol, y defnydd cymunedol o asedau treftadaeth yn Lloegr gan roi sylw arbennig i'r rhai sydd mewn perygl.
4. Cydweithio'n strategol ag eraill i fwyafu effaith arian y Loteri Genedlaethol, gan annog partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol pryd bynnag y bydd yn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer pobl a threftadaeth

## Yr Alban

Cyfarwyddiadau a roddir i Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o dan adran 26(2) fel y'i darllenir gydag adran 26A(2) (b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993.

Gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, mae Gweinidogion Yr Alban, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynir iddynt gan adran 26(2) fel y'i darllenir gydag adran 26A(2)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993<sup>1</sup>, ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (yr "Ymddiriedolwyr"), trwy hyn yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn:

1. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i'r Alban yn unig ac yn ymwneud ag unrhyw ddsbarthiad a wneir gan yr Ymddiriedolwyr at ddiben nad yw'n gysylltiedig â materion a gedwir yn ôl.
2. Wrth bennu'r personau i bwy, at ba ddibenion ac o dan ba amodau y maent yn cymhwyso unrhyw arian o dan adran 25(4) Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 etc. yn Yr Alban, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr gymryd y blaenoriaethau a ganlyn a materion eraill i ystyriaeth:
  - A. Yr angen am gefnogi Diben Llywodraeth Yr Alban o greu gwlad Yr Alban sy'n fwy llwyddiannus, gyda chyfleoedd i'r Alban i gyd ffynnu trwy gynyddu twf economaidd cynaliadwy.
  - B. Yr angen am ymgysylltu'n effeithiol â Gweinidogion Yr Alban wrth ddatblygu polisi a rhaglenni ariannu cysylltiedig, fel y bo'n briodol, i fwyafu buddiannau cronus i bobl a threftadaeth Yr Alban.
  - C. Yr angen am hwyluso'r cyfraniadau mwyaf posib gan y sectorau treftadaeth naturiol a diwylliannol i helpu rheoli pontio i economi carbon isel a chyflwyno targedau newid yn yr hinsawdd Yr Alban.
  - CH. Yr angen am wella ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol trwy brosiectau sy'n hybu cynhwysiad cymdeithasol ac yn mwyhau ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol.
- D. Yr angen am gefnogi gweithgareddau sy'n cyfrannu at adeiladu gwlad Yr Alban sy'n Decach i bawb.
- DD. Yr angen am sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gydweithio'n agos â phartneriaid priodol er budd cymunedau a'r dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol ar draws Yr Alban, gan ddefnyddio'r egwyddorion a ganlyn:
  - Mae'n ddyletswydd arnom i ddiogelu a mwyhau ein treftadaeth naturiol a diwylliannol lewyrchus fel cydrannau hanfodol o'n heconomi, diwylliant, ffordd o fyw a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.
  - I fod yn iach ac yn hapus fel cenedl mae'n rhaid i ni feithrin a diogelu ein hadnoddau ac amgylcheddau lleol a phawb sy'n byw ynddynt.
- E. Yr angen am gydweithio â phartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i helpu cyflwyno canlyniadau gwell ar gyfer pobl a threftadaeth naturiol a diwylliannol Yr Alban, wedi'i arwain gan y blaenoriaethau ac egwyddorion strategol sy'n sail i nifer o strategaethau cenedlaethol y maent eisoes yn gweithredu'n llwyddiannus ar draws Yr Alban, gan gymryd unrhyw adnewyddiad neu adolygiad o'r strategaethau dan sylw yn y dyfodol i ystyriaeth a, lle bo'n briodol, unrhyw strategaethau newydd a ddatblygir, er enghraifft, Y Strategaeth Ddiwylliant. Y strategaethau cyfredol yw:
  - **Y Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol;**
  - **Going Further** – Strategaeth Amgueddfeydd ac Oriolau Yr Alban;
  - **Our Place in Time** – Strategaeth Amgylcheddol Hanesyddol Yr Alban;
  - **Her 2020 ar gyfer Bioamrywiaeth Yr Alban;**
  - **Y Cynllun Iaith Gaeleg Cenedlaethol; Y Cynllun Iaith Sgoteg;** ar,
  - **Egwyddor o Le**
- F. Yr angen am ddangos sut mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi ymateb i Gyfarwyddiadau Polisi Gweinidogion Yr Alban.

# Cyfarwyddiadau polisi

## Cymru

